sportwales
chwaraeoncymru

# Chwaraeon Cymru

## Adroddiad Blynyddol 2023-2024



Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

YN DYFARNU ARIAN ODDI WRTH
AWARDING FUNDS FROM
THE NATIONAL LOTTERY®

# Tudalen Gynnwys


Cyflwyniad 4

Neges Gan Y Farwnes Tanni Grey-Thompson, Cadeirydd Chwaraeon Cymru 6

Trosolwg Perfformiad 8

Cyflawni'r Weledigaeth 10

Ein Meysydd Gwaith 2023 – 2024 14

Nodyn Am Y System Chwaraeon Gynhwysol Ac Amgylcheddau Ffyniannus 16

Ein Bwriadau Strategol Fel Ein Nodau Llesiant 17

#1 Person-Ganolog 18

#2 Sicrhau Bod Pob Person Ifanc Yn Cael Dechrau Gwych 28

#3 Sicrhau Bod Pawb Yn Cael Y Cyfle I Fod Yn Actif Drwy Chwaraeon 36

#4 Dod Â Phobl At Ei Gilydd Ar Gyfer Y Tymor Hir 45

#5 Arddangos Manteision Chwaraeon 56

#6 Sefydliad O Werth Mawr 64

Adrodd ar Safonau'r Gymraeg 71

Amcanion Cydraddoldeb Strategol – Adolygu Ein Cynnydd 96

Canlyniadau Ariannol ar gyfer y Flwyddyn 101

Adroddiad Atebolrwydd 107

Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023-24 111

Adroddiad Tâl a Staff 121

Tystysgrif ac adroddiad archwilio annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd 132

# Cyflwyniad

## Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru

## 1 Ebrill 2023 - 31 Mawrth 2024

### Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cynnwys yr Adroddiad Perfformiad, sy'n cynnwys yr Adroddiad Cynaliadwyedd, a'r Adroddiad Atebolrwydd, sy'n cynnwys yr Adroddiad Tâl. Mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi mabwysiadu'r Safonau Cofnodion Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Mae Chwaraeon Cymru yn Unig Ymddiriedolwr i Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru.



### Hanes a Chefndir Statudol

Sefydlwyd Cyngor Chwaraeon Cymru (sy'n cael ei adnabod oddi wrth ei enw masnachu, Chwaraeon Cymru) gan Siarter Brenhinol dyddiedig 4 Chwefror 1972, gyda'r amcanion o "feithrin gwybodaeth am chwaraeon a hamdden gorfforol a'r arfer o gymryd rhan ynddynt ymhlith y cyhoedd yng Nghymru a darparu cyfleusterau ar gyfer hynny". Fe'i cyllidir drwy gyllid blynyddol gan Lywodraeth Cymru a thrwy incwm a gynhyrchir o'i weithgareddau. Paratoir y Datganiadau Cyfrifon hyn yn unol ag Erthygl 15 o'r Siarter Brenhinol ar gyfer Cyngor Chwaraeon Cymru (Chwaraeon Cymru) ar ffurf a benderfynir gan Lywodraeth Cymru gyda chymeradwyaeth Trysorlys EM. Mae copi o'r Cyfarwyddyd Cyfrifon ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd yn swyddfa Chwaraeon Cymru yng Ngherddi Sophia yng Nghaerdydd.



Cyfansoddwyd Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ar 16 Mai 1972 ac mae wedi cofrestru fel elusen gyda'r Comisiynwyr Elusennau yng Nghymru a Lloegr, gyda'r amcanion elusennol canlynol:

1. Gwarchod a diogelu iechyd corfforol a meddyliol y gymuned drwy hamdden gorfforol (gan gynnwys chwaraeon) ac addysg yng nghyswllt hynny;
2. Darparu cyfleusterau ar gyfer hamdden gorfforol (gan gynnwys chwaraeon) a fydd ar gael i aelodau'r cyhoedd yn gyffredinol.

## Swyddfa Gofrestredig

Gerddi Sophia
Caerdydd
Cymru
CF11 9SW

# Neges Gan Y Farwnes Tanni Grey-Thompson, Cadeirydd Chwaraeon Cymru

Yn ystod fy ail flwyddyn fel Cadeirydd Chwaraeon Cymru, rwyf wedi bod yn falch o weld ehangder y gwaith sy'n parhau i siapio ein hymdrechion ni i gyflawni'r Weledigaeth ar gyfer chwaraeon yng Nghymru. Mae ein hymrwymiad i System Chwaraeon Gynhwysol sy'n darparu profiadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i bawb drwy gydol eu hoes i'w weld ym mhob rhan o'n gwaith ni gyda hyfforddwyr ac athletwyr ond hefyd yn y ffordd rydym yn gweithio gyda phlant a phobl hŷn ar ein rhaglenni.

Yn ddiweddar fe wnaethom ddysgu mwy o fanylion am yr hyn roeddem eisoes yn ei wybod:

> "Mae chwaraeon yn darparu buddion enfawr i'r economi - gwerth £4bn - ac mae chwaraeon yn creu manteision iechyd ataliol mawr yn ogystal â chyfalaf cymdeithasol."

Wrth gwrs, wrth feddwl am fuddsoddi mewn chwaraeon, byddai'n esgeulus i mi beidio â sôn am yr hinsawdd economaidd anodd sy'n ein hwynebu ni. Mae cyllideb Llywodraeth Cymru yn wynebu heriau enfawr, a bydd ein toriad diweddar o 10.5% yn y gyllideb yn ei gwneud yn ofynnol i ni feddwl yn wahanol am sut rydym yn cyflawni'r gwaith sy'n gyfrifol am y budd hwn.



Nid dim ond yma yng Nghymru mae'r hinsawdd economaidd yn anodd wrth gwrs, ac mae'r ffaith nad yw Gemau'r Gymanwlad yn cael eu cynnal yn Victoria bellach wedi bod yn ganolbwynt dros y misoedd diwethaf hefyd.



Rydym yn parhau i weithio gyda phartïon sydd wedi ymrwymo i archwilio'r holl opsiynau ar gyfer parhau â'r Gemau, wrth i ni hefyd edrych ymlaen at haf o chwaraeon yn 2024 sy'n cynnwys y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd a chyfle i weld Athletwyr Cymru ar Lwyfan y Byd.

Eleni rydym hefyd wedi camu allan o'n parth cysurus mewn sawl ffordd, gan gynnwys ein gwaith eiriolaeth. Ym mis Medi roeddwn yn falch o gwrdd â mwy na hanner holl Aelodau'r Senedd mewn sesiwn a oedd yn arddangos Chwaraeon Cymru a defnyddiwyd Adroddiad Blynyddol y llynedd gennym i sbarduno ein sgwrs gydag ASau ac Arglwyddi o Gymru hefyd.

Edrychaf ymlaen at adeiladu ar y perthnasoedd hyn yn y dyfodol.

Diolchwn i'n partneriaid a'n cyllidwyr am eu cefnogaeth barhaus i gyflawni'r Weledigaeth ar gyfer chwaraeon yng Nghymru ac am eu hymrwymiad i gael mwy o bobl i fod yn actif yn y **tymor hir**.

# Trosolwg Perfformiad

## Neges gan Brian Davies, Prif Swyddog Gweithredol Chwaraeon Cymru

Mae wedi bod yn flwyddyn wych arall i chwaraeon yng Nghymru a'n hathletwyr ni, gyda llwyddiant parhaus ar y llwyfan rhyngwladol ar draws amrywiaeth o chwaraeon, gan gynnwys y feicwraig o Orllewin Cymru a'r Bencampwraig Byd, Emma Finucane, a gafodd ei henwi'n Bersonoliaeth Chwaraeon y Flwyddyn BBC Cymru.

Gwelsom hefyd Gaerdydd yn cael ei henwi fel y ddinas gyntaf yn y DU i lwyfannu digwyddiad aml-chwaraeon LGBTQ+ cynhwysol, sef yr EuroGames, sydd i gael eu cynnal yn 2027. Ac yng Nghanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru roeddem yn falch o groesawu gornest Cwpan y Byd Ffensio Cadair Olwyn, y tro cyntaf i ddigwyddiad ffensio Cwpan y Byd ar lefel hŷn gael ei gynnal ym Mhrydain ers dros ddegawd.

Yn fwy personol, roedd yn fraint eleni cael fy nghadarnhau yn fy swydd fel Prif Swyddog Gweithredol. Drwy gydol fy nghyfnod yn y swydd fel Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro, ymatebodd y sefydliad a'r sector chwaraeon i'r angen am addasu a datblygu'r hyn rydym yn ei gynnig i gael cymaint o bobl â phosibl i fod yn actif, mwynhau chwaraeon a manteisio ar y buddion iechyd, cymdeithasol ac economaidd mae'n eu sicrhau.





Fodd bynnag, tua diwedd y flwyddyn hon, daeth yn glir y byddem yn wynebu her arall – y tro hwn, ochr yn ochr â chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, cafodd ein cyllideb ei thorri oherwydd cyfyngiadau ariannol Llywodraeth Cymru.

Mae heriau blaenorol, fel Covid a'r argyfwng costau byw, wedi gweld y sector yn uno, yn **cydweithredu** ac yn ystyried gweithio'n wahanol – nawr ein bod yn ymwybodol o'n cyfyngiadau cyllidebol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, rydym yn gwybod bod rhaid i ddulliau gweithredu o'r fath barhau ac y bydd angen addasiadau pellach. Rydym wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid yn y sector i edrych ar bosibiliadau a helpu i drawsnewid lle bo angen i sicrhau bod chwaraeon yn parhau i gyflawni canlyniadau mor gadarnhaol i'r cyhoedd yng Nghymru.

Eleni cyhoeddwyd ein hastudiaeth Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad ddiweddaraf a oedd, unwaith eto, yn tynnu sylw at pam mae chwaraeon mor bwysig.

Am bob £1 a fuddsoddir mewn chwaraeon yng Nghymru, mae elw o £4.44 i'r wlad, gan ddarparu mwy o arbedion i'r gwasanaeth iechyd; cynnig buddion unigol fel gwell lles, a helpu i gryfhau ein heconomi. Rydym yn gwybod y gall ein cynnyrch newid bywydau pobl Cymru er gwell, ac ni fyddwn yn stopio yn ein hymdrechion i wireddu manteision chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Yn olaf, rhaid i mi ddiolch i gyn-aelodau ein Bwrdd, Pippa Britton OBE, Alison Thorne ac Ashok Ahir, a gwblhaodd eu tymor a rhoi'r gorau iddi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar ôl blynyddoedd lawer o wasanaeth. Rydym yn ddiolchgar am y gefnogaeth a ddarparwyd ganddynt dros nifer o flynyddoedd. Rydym nawr yn croesawu Nuria Zolle, Chris Jenkins OBE a Rhian Gibson ac wedi cadarnhau Ian Bancroft fel ein His-Gadeirydd. Edrychwn ymlaen at weithio gyda hwy yn ein huchelgais i gyflawni'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru.

# Cyflawni'r Weledigaeth

## Trosolwg

### Y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru

**'Cenedl actif lle gall pawb fwynhau chwaraeon am oes'**

Cenedl Actif | Pawb | Gydol Oes | Mwynhad

### Ein Strategaeth

#1 Bod Yn Berson-Ganolog

#2 Rhoi Dechrau Gwych I Bob Person Ifanc

#3 Sicrhau Bod Pawb Yn Cael Y Cyfle I Fod Yn Actif Drwy Chwaraeon

#4 Dod Â Phobl At Ei Gilydd Ar Gyfer Y Tymor Hir

#5 Arddangos Manteision Chwaraeon

#6 Bod Yn Sefydliad O Werth Mawr

### 5 Ffordd o Weithio


Tymor Hir


Atal


Integreiddio


Cydweithredu


Ymwneud

### Adrodd Blynyddol Integredig

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Yr Iaith Gymraeg

Cydraddoldeb

Bioamrywiaeth

Economaidd-gymdeithasol

## Y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru

VISION FOR SPORT

'Cenedl actif lle gall pawb fwynhau chwaraeon am oes'

Mae'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru yn sail i'n gwaith ni fel sefydliad, gwaith **cydweithredol** y sector chwaraeon a **chyfranogiad** rhanddeiliaid ehangach. Nid dim ond Gweledigaeth i Chwaraeon Cymru weithio tuag ati yw hon, ond yn hytrach mae'n gyfrwng cyfunol ar gyfer ymgysylltu traws-sector i drawsnewid Cymru yn genedl actif.

### Cenedl Actif

Rydym eisiau i gymaint o bobl â phosibl gael eu hysbrydoli i fod yn actif drwy chwaraeon.

### Pawb

Mae'r weledigaeth ar gyfer pawb. O bobl nad ydynt yn gweld eu hunain yn fedrus mewn chwaraeon i'r rhai sy'n ennill medalau.

### Gydol Oes

Mae'r weledigaeth am oes; mae'n ymateb i anghenion pobl mewn gwahanol gyfnodau yn eu bywyd.

### Mwynhad

Mae'r weledigaeth yn canolbwyntio ar greu ystod o brofiadau cadarnhaol fel bod pawb yn gallu mwynhau chwaraeon.



## Ein Strategaeth

Ffurfiwyd ein strategaeth i chwarae ein rhan wrth gyflawni'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru. Mae ein strategaeth yn cael ei ffurfio gan chwe datganiad bwriad strategol. Mae'r datganiadau hyn hefyd yn gweithredu fel ein Nodau Llesiant, ac rydym yn eu defnyddio i fframio ein hadroddiadau ar ddyletswyddau cyhoeddus Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WBFG) (Deddf) Cymru 2015.

### #1 Bod Yn Berson-Ganolog

Mae anghenion a chymhelliant yr unigolyn yn arwain y ddarpariaeth, wrth ddechrau arni, anelu am gynnydd neu geisio rhagoriaeth ar lwyfan y byd.

### #2 Rhoi Dechrau Gwych I Bob Person Ifanc

Mae gan bob person ifanc sgiliau, hyder a chymhelliant i allu mwynhau a gwneud cynnydd drwy chwaraeon, gan roi iddynt sylfeini i fyw bywyd actif, iach a chyfoethog.

### #3 Sicrhau Bod Pawb Yn Cael Y Cyfle I Fod Yn Actif Drwy Chwaraeon

Mae chwaraeon yn gynhwysol ac yn darparu profiad gwych i bawb.

### #4 Dod Â Phobl At Ei Gilydd Ar Gyfer Y Tymor Hir

Ceir sector chwaraeon cydweithredol, cynaliadwy a llwyddiannus sy'n cael ei arwain gan ddysgu a gwybodaeth ar y cyd.

### #5 Arddangos Manteision Chwaraeon

Gwelir tystiolaeth o effaith chwaraeon, ac mae cyrhaeddiad chwaraeon yn cael ei ddeall yn llawn, ei arddangos a'i ddathlu ledled Cymru.

### #6 Bod Yn Sefydliad O Werth Mawr

Mae Chwaraeon Cymru yn sefydliad uchel ei barch sy'n ceisio gorgyflawni drwy ddarparu gwasanaeth rhagorol drwy staff hynod werthfawr.

Darllenwch fwy ar dudalennau 18 i 70.

## 5 Ffordd o Weithio

Yn Chwaraeon Cymru, rydym wedi ymgorffori'r 5 Ffordd o Weithio o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sydd hefyd yn sail i'r Weledigaeth. Fe welwch y rhain mewn print trwm drwy gydol y ddogfen, gan ddangos sut mae'r ffyrdd o weithio yn effeithio ar ein gweithgareddau o ddydd i ddydd.



**Tymor Hir -** Mae'r weledigaeth yn sicrhau ein bod ni, ochr yn ochr â'n partneriaid, yn cynllunio ar gyfer y **tymor hir**, gan ddatblygu cyfleoedd sy'n ymateb i anghenion pawb mewn cymdeithas sy'n newid.



**Atal -** Mae'r weledigaeth yn **ymwneud** â sicrhau bod chwaraeon yn hygyrch, yn hwyl ac yn fforddiadwy, ac nad yw'n gadael neb ar ôl. Mae hefyd yn sicrhau ein bod yn rhoi adnoddau i **atal** problemau rhag codi, neu rhag gwaethygu.



**Integreiddio -** Mae'r weledigaeth yn uno'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau gyda sefydliadau drwy ei huchelgeisiau. Mae wedi'i llunio ar sail effaith gydweithredol yr hyn y gallwn ei gyflawni pan fyddwn yn gweithio gyda'n gilydd.



**Cydweithredu -** Mae'r weledigaeth yn perthyn i bawb yng Nghymru ac angen cefnogaeth pawb – gweithio, buddsoddi, dysgu a llwyddo gyda'n gilydd.



**Ymwneud -** Lluniwyd y weledigaeth yn dilyn sgyrsiau ag unigolion o bob rhan o Gymru ac mae'n parhau i hybu **ymwneud** wrth lunio dyfodol Cymru fel cenedl actif.

## Adrodd Blynyddol Integredig


Rydym yn parhau i adrodd ar ein Dyletswyddau Cyhoeddus drwy gydol yr un adroddiad hwn, gan roi golwg gyfannol ar ein gwaith. Drwy gydol yr adroddiad hwn fe welwch yr eiconau hyn isod sy'n **ymwneud** â'n dyletswyddau unigol.

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** | **Yr Iaith Gymraeg** (Cymraeg) | **Cydraddoldeb** | **Bioamrywiaeth** | **Economaidd-gymdeithasol**

Darllenwch fwy ar dudalennau 70 i 95.

# Ein Meysydd Gwaith 2023 – 2024

Drwy lens y Weledigaeth, ein strategaeth a'n ffyrdd o weithio rydym yn pennu'r blaenoriaethau busnes ar gyfer y flwyddyn i ddod, y cytunwyd arnynt gan ein Bwrdd a'r Llywodraeth. Drwy gydol yr adroddiad hwn fe welwch bob maes gwaith a ddynodir gan yr eiconau isod.




**Cynaliadwyedd Amgylcheddol**

- Lansio Cynllun Cynaliadwyedd Amgylcheddol
- Deall bod angen i'r sector ddarparu cefnogaeth wedi'i thargedu
- Grantiau Ynni Gwyrdd
- Ymwybyddiaeth Staff
- Ymgorffori cynaliadwydd mewn caffael

**System Chwaraeon Gynhwysol**

- Deall angen
- Cefnogi cyfleoedd i wella ymarfer
- Datblygu hyfforddwyr
- Ymchwilio i hwb digidol
- Cynnwys yn amlinellu sut mae system chwaraeon gynhwysol yn wahanol

**Addysg**

- Eiriolaeth a dylanwadu i gefnogi'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru
- Cynnig Actif Dyddiol – rôl Chwaraeon Cymru
- Sganio'r gorwel – ehangu rhwydweithiau, gwerthuso a dysgu o bolisïau ac arloesi presennol



**Buddsoddiadau**

- Gwerthuso'r Model Buddsoddi
- Gweithredu dull buddsoddi seiliedig ar egwyddorion
- Cadarnhau dull o gyllido partneriaid sydd ddim yn cyd-fynd â'r dull presennol
- Adolygu'r Fframwaith Gallu
- Gweithredu System Fuddsoddi newydd

**Iechyd a Lles**

- Ymyriadau cyflawni wedi'u targedu gan gynnwys Actif Dyddiol a 60+
- Eiriolaeth – Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Sganio'r Gorwel
- Iechyd Meddwl – rôl Chwaraeon Cymru

**Partneriaethau Chwaraeon**

- Cefnogi Actif North Wales
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid
- Gwella amlygrwydd a phroffil y Partneriaethau Chwaraeon
- Llywodraethu a rheoli perthnasoedd
- Adolygiad mewnol o gynnydd

**Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**

- Model buddsoddi
- Fframwaith Cynhwysiant mewn Chwaraeon
- Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol
- Gweithlu cynhwysol yn Chwaraeon Cymru
- Perthnasau a Phartneriaethau

# Nodyn Am Y System Chwaraeon Gynhwysol Ac Amgylcheddau Ffyniannus

Mae'r sector chwaraeon, a thu hwnt, wedi ymrwymo i gyflawni'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru, i drawsnewid Cymru yn genedl actif.

Wrth gefnogi'r sector i wireddu'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon, rydym wedi tynnu sylw at bwysigrwydd creu system chwaraeon gynhwysol.

Gall fod yn haws meddwl am hyn fel 'agwedd' yn hytrach na 'peth.' Sut gallwn ni wneud y system chwaraeon yn fwy cynhwysol fel bod pawb yn gallu mwynhau chwaraeon am oes?

Mae system chwaraeon gynhwysol yn creu cyfleoedd sy'n berson-ganolog, yn cael eu harwain gan anghenion pobl, yn ddiogel, yn bleserus ac yn ddatblygiadol. Mae amgylcheddau sy'n cael eu creu fel hyn yn galluogi cyfranogwyr i ffynnu, cael profiad gwych o chwaraeon a gweithgarwch corfforol a dal ati i ddod yn ôl am fwy.

Ar y tudalennau hyn byddwch yn darllen am brosiectau sydd wedi cofleidio'r ethos hwn ac wedi creu cyfleoedd i bobl mewn chwaraeon a'u hamgylcheddau ffynnu.



# Ein Bwriadau Strategol Fel Ein Nodau Llesiant

Er mwyn gwirio'r cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at ein nodau llesiant a chydraddoldeb, fe wnaethom gynnal cylch adolygu ym mis Mawrth / Ebrill 2024.

Yn dilyn yr adolygiad hwn rydym wedi penderfynu bod y nodau presennol yn parhau'n briodol. Nid yw ein Datganiad Llesiant wedi newid chwaith.

Mae ein Hadroddiad Blynyddol wedi'i strwythuro o amgylch y cynnydd rydym wedi'i wneud o ran cyflawni ein Nodau Llesiant ac mae'n rhoi disgrifiad cynhwysfawr o'r cynnydd rydym wedi'i wneud. Mae ein hadolygiad hefyd wedi canolbwyntio ar ble gallwn wneud cynnydd pellach gyda dadansoddiad ategol yn amlinellu rhai o'r dysgu a'r heriau rydym wedi'u nodi. Gellir dod o hyd i ddadansoddiad ar ddiwedd pob adran.



# #1 Person-Ganolog

Mae anghenion a chymhelliant yr unigolyn yn arwain y ddarpariaeth, wrth ddechrau arni, anelu am gynnydd neu geisio rhagoriaeth ar lwyfan y byd.

## Datblygu pobl mewn chwaraeon

### Gyrfaoedd Ysgol

Ers i ni adnewyddu ein strategaeth yn 2019, rydym wedi cydnabod nad yw ein gweithlu mor amrywiol ag y gallai fod. Un o'r ffyrdd rydym wedi bod yn anelu at arallgyfeirio gweithlu'r dyfodol yw drwy ymgysylltu ag ysgolion mewn ardaloedd 'economaidd-gymdeithasol is' i godi ymwybyddiaeth ac ysbrydoli pobl ifanc i ddilyn gyrfa mewn Chwaraeon yn y **tymor hir**. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym wedi mynychu sesiynau gyrfa mewn ysgolion, a aeth ymlaen wedyn i ddiwrnod agored yn y Ganolfan Genedlaethol yng Nghaerdydd y llynedd, gan gynnwys disgyblion yn uniongyrchol mewn profiadau o wahanol swyddi fel gweithrediadau, maeth, a chryfder a chyflyru.

Eleni, rydym wedi adolygu ein dull o fynd i'r afael â'r cydbwysedd o gyrraedd nifer fawr o ddisgyblion i'w hysbrydoli am ein gyrfaoedd a chynnig profiad ymarferol manylach. Drwy **gydweithredu** rhwng adrannau, rydym wedi cynhyrchu cyflwyniad gyrfaoedd sy'n arddangos y swyddi amrywiol ar draws y sefydliad, y gellir ei ddefnyddio mewn ffeiriau gyrfaoedd neu ei gyflwyno gan athrawon ledled Cymru. Er mwyn cynnig dull manylach o weithio, byddwn yn cynnal diwrnod agored arall ym mis Mawrth 2024 lle gall disgyblion gael profiad ymarferol o yrfaoedd y mae ganddynt ddiddordeb ynddynt.

### MSc a Chynllun Graddedigion sy'n Canolbwyntio ar Amrywiaeth

Rydym wedi **cydweithredu** â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd i geisio mynd i'r afael â'r diffyg parhaus o ôl-raddedigion gwyddoniaeth chwaraeon sydd ag anabledd a / neu bobl o leiafrifoedd ethnig.

Mae'r llwybr gyrfa gwyddoniaeth chwaraeon yn gofyn am gwblhau MSc (Gradd Meistr mewn Gwyddoniaeth) a chael profiad gwaith o ansawdd uchel er mwyn bod ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad. Drwy ein **cydweithredu**, gwelsom fod yr amrywiaeth ar raglenni ôl-raddedig gwyddoniaeth chwaraeon yn is na'r rhai sy'n astudio ar raglenni israddedig. Er mwyn cynyddu **ymwneud** cymunedau a dangynrychiolir, rydym wedi recriwtio i swydd cynllun graddedigion ar gontract cyfnod penodol llawn amser o ddwy flynedd sy'n gwarantu cyflog gradd mynediad ac sy'n hepgor yr holl ffioedd dysgu ar gyfer y cwrs MSc. Mae'r oriau gwaith yn cynnwys dau ddiwrnod yr wythnos yn cwblhau astudiaeth academaidd a thri diwrnod o leoliad yn cael profiad ymarferol yn y gweithle.

SYLW I

# Gweithredu Cadarnhaol ar Arweinyddiaeth (PAL)

Gan adeiladu ar y **cydweithredu** y llynedd ag AKD Solutions i helpu i ddatblygu hyder a gallu gweithlu ethnig amrywiol yng Nghymru, eleni mae'r rhaglen wedi'i chryfhau a'i datblygu drwy nifer o gamau gan gynnwys:

- **Integreiddio:** Datblygu gwell cyfathrebu a chryfhau perthnasoedd rhwng Chwaraeon Cymru ac unigolion allweddol sydd â'r gallu i ymgysylltu a sicrhau dealltwriaeth ddyfnach o gymunedau ethnig amrywiol.
- **Ymwneud:** Creu rhwydwaith o unigolion a sefydliadau a all gynnig arweiniad, meithrin cysylltiadau, ac ymgysylltu'n weithredol â'r sector chwaraeon yng Nghymru, gan sicrhau bod meddwl, cynllunio a chyflwyno cynhwysol yn ganolog i'r broses o wneud penderfyniadau.
- **Cydweithredu:** Cafodd dysgwyr gyfle i gyd-greu'r rhaglen arweinyddiaeth a oedd yn eu grymuso a'u cael i ymgysylltu a gwerthfawrogwyd y cyfle.
- **Tymor Hir:** Grŵp o ddysgwyr sydd wedi sefydlu cysylltiadau, cyfnewid profiadau dysgu a chydnabod eu cyfrifoldeb fel modelau rôl ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae gan arweinyddiaeth ystyron amrywiol i wahanol unigolion. Nid yw llwyddiant yn gysylltiedig â symud ymlaen i rôl bwrdd neu uwch; mae hefyd yn cwmpasu rhagori yn eich sefyllfa bresennol, cael effaith gadarnhaol ar lawr gwlad, ac ysbrydoli eraill.

**Dyfyniad gan ddysgwr:** "Rydw i wir wedi gweld budd y rhaglen nid yn unig i mi fy hun, ond o ran rhoi cyfle i'r rhai ohonom o gefndiroedd amrywiol sy'n gweithio yn y sector chwaraeon yng Nghymru gysylltu, rhannu syniadau a chydweithio i newid y naratif ar gyfer y genhedlaeth nesaf. Mae hefyd wedi bod yn wych cael y gefnogaeth gan Chwaraeon Cymru i gefnogi ein datblygiad personol fel modelau rôl o fewn y sector."

Mae'r rhaglen wedi cael ei gwerthuso drwyddi draw a bydd yn parhau tuag at y gwerthusiad llawn pan fyddwn yn adolygu a gyflawnwyd y canlyniadau a fwriadwyd.

Hyd yma, mae'r dysgu wedi'i rannu ag UK Sport, sy'n gweithio gydag ymgynghorwyr i gyflwyno rhaglen ddatblygu debyg ar gyfer y gwledydd cartref sydd hefyd yn ymateb i'r adolygiad Mynd i'r Afael â Hiliaeth ac Anghydraddoldeb Hiliol mewn Chwaraeon (TRARIIS) i gefnogi newid **tymor hir.**

**Roeddem hefyd wrth ein bodd o weld PAL yn cyrraedd y rhestr fer ar gyfer y fenter EDI orau yng Ngwobrau mawreddog Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu Cymru ar gyfer 2024.**



## Rhaglen Datblygwyr Hyfforddwyr Llwybr

Mae ymddygiadau hyfforddi yn cael effaith uniongyrchol, yn gadarnhaol neu fel arall, ar brofiadau chwaraeon athletwyr, yn enwedig athletwyr ifanc sy'n datblygu, ar eu cynnydd, eu mwynhad a'u gallu i gadw o fewn y llwybr chwaraeon.

Drwy raglen 24 mis o hyd rydym wedi **cydweithredu** â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd i ddarparu rhaglen ddysgu a datblygu i grŵp o ddatblygwyr hyfforddwyr y Llwybr Chwaraeon o amrywiaeth o wahanol chwaraeon (rygbi, gymnasteg, tennis, triathlon, marchogaeth a badminton) sy'n dysgu datblygu hyfforddwyr eraill.

Rôl datblygwr hyfforddwyr yw cefnogi hyfforddwyr i arddangos ymddygiadau hyfforddi cynhwysol yn gyson, a'u helpu i sicrhau gwell dealltwriaeth o anghenion a phrofiadau'r rhai maent yn eu hyfforddi.

Drwy'r gwaith hwn rydym eisiau meithrin gweithlu mwy cynhwysol a chynrychioliadol yn y **tymor hir** sydd â'r gallu a'r capasiti i gael effaith gadarnhaol ar ansawdd datblygu hyfforddwyr, hyfforddi, a phrofiadau pobl ifanc ac athletwyr o fewn system chwaraeon Cymru.



## Arweinwyr Hyfforddi

Mae Arweinydd Hyfforddi yn rhywun sy'n arwain, yn datblygu, yn dylanwadu ac yn gwerthuso'r systemau addysgu a datblygu hyfforddwyr o fewn sefydliadau chwaraeon o bob math. Maent hefyd yn arwain datblygiad y gweithlu a mentrau eraill i gyflwyno'r systemau hyn yn effeithiol. Maent yn chwarae rhan bwysig o fewn chwaraeon, sefydliadau partner a'r sector, gan sicrhau bod hyfforddiant yn diwallu anghenion cyfranogwyr ac yn cael effaith gadarnhaol ar anghydraddoldebau mewn chwaraeon.

Drwy raglen ddysgu a datblygu **gydweithredol** rhwng Chwaraeon Cymru, Sport Northern Ireland a sportscotland, mae Arweinwyr Hyfforddi wedi dod at ei gilydd o Gymru a ledled y DU. Mae'n rhoi mynediad iddynt at ymchwilwyr blaenllaw, arbenigwyr pwnc, a'r wybodaeth ddiweddaraf am hyfforddi, datblygu hyfforddwyr ac arweinyddiaeth systemau, gan eu helpu i ddeall sut i fod yn fwy effeithiol a chynhwysol wrth ddatblygu a chefnogi hyfforddwyr a hyfforddiant. Eleni, y chwaraeon sydd wedi cymryd rhan yw pêl fasged, bocsio, beicio, pêl droed, gymnasteg a nofio.

# Datblygu Athletwyr

## Iechyd a Lles Athletwyr

Mae niferoedd cynyddol o athletwyr yn methu â blaenoriaethu eu hiechyd a'u lles a gall hyn **atal** trosglwyddo i chwaraeon lefel uchel. Un o'r ffactorau sy'n cael ei esgeuluso yw cymeriant maeth digonol i gefnogi iechyd ar yr un pryd â gofynion egnïol ychwanegol eu camp.

Yn Athrofa Chwaraeon Cymru, fe wnaethom gynnwys ac ymgysylltu â hyfforddwyr a rhieni drwy Driathlon Cymru i ddeall yn well beth yw'r rhwystrau i athletwyr rhag bwyta digon ac rydym wedi defnyddio'r wybodaeth hon i gefnogi strategaethau tanwydd priodol, gan edrych ar addysg am faeth ar gyfer chwaraeon (y tu hwnt i negeseuon iechyd y cyhoedd); uwchsgilio gyda chynllunio a choginio i'w paratoi ar gyfer bywyd oddi cartref; annog hyfforddwyr ac athletwyr hŷn i fodelu ymddygiad maeth cadarnhaol.

Drwy'r gwaith hwn, mae athletwyr wedi adrodd am well ystyriaeth o'u hanghenion tanwydd, ac maent bellach yn hyderus yn eu gofynion maeth fel athletwyr ifanc. Rydym nawr yn gweld yr athletwyr hŷn yn addysgu'r athletwyr newydd am fanteision maeth.

Nod **tymor hir** y prosiect hwn yw lleihau anafiadau a salwch, **atal** rhoi'r gorau i chwaraeon a gwella iechyd a lles **tymor hir** athletwyr.

Yn fwyaf diweddar, rydym wedi ymestyn y prosiect i gynnwys y glasoed ac iechyd merched ac rydym yn gwybod bod llawer o athletwyr yn rhoi'r gorau i chwaraeon yn ystod eu harddegau hwyr.

## Casglu Data Athletwyr Athletau Cymru

Fel rhan o'r dull newydd o ddatblygu athletwyr cynhwysol, mae ymarferyddion yn Nhîm Athrofa Chwaraeon Cymru wedi nodi y gallai cefnogi chwaraeon gyda'u hanghenion profion corfforol gynnig cyfle i ychwanegu gwerth y tu hwnt i ddim ond casglu data perfformiad. Drwy ddarparu profiad profi athletwyr cadarnhaol, gan bwysleisio dehongliad cyfannol ac adborth o ganlyniadau, a hyrwyddo arferion cynaliadwy, gallwn symud y profion tuag at ffocws ar ganlyniadau datblygiadol **tymor hir**.

Ym mis Hydref aethom ati i ffurfio partneriaeth gydag Athletau Cymru i gefnogi dau ddigwyddiad profi, gan ddarparu ar gyfer mwy na 100 o athletwyr ar draws sgwadiau llwybr a pherfformiad. Yn ystod proses gynllunio **gydweithredol**, fe wnaethom ddefnyddio system **integredig** gynaliadwy ar y cyd i uwchlwytho, rhannu a dehongli data. Byddwn yn parhau i gefnogi Athletau Cymru wrth iddynt symud ymlaen a datblygu'r systemau hyn, a'r gobaith yw y bydd modd defnyddio data profi yn gadarnhaol i gefnogi datblygiad athletwyr, nodi cyfleoedd datblygu hyfforddwyr a chefnogi rhannu gwybodaeth ar draws y system.

SYLW I

# Clwb Coffi Ffyniannus Nofio Cymru

## Clybiau coffi am newid

Rydym wedi bod yn gweithio gyda Nofio Cymru ers tair blynedd i ddatblygu 'Map Ffordd Ffyniannus' pwrpasol ar gyfer y gamp, i asesu, datblygu, monitro a gwerthuso profiadau sy'n arwain at newid cadarnhaol yn y **tymor hir**.

Mae'r Clwb Coffi Ffyniannus wedi cael ei ffurfio i ofyn cwestiynau ac ysgogi newid o fewn Llwybr Nofio Cymru. Yn seiliedig ar gysyniad o feithrin perthynas, ennill ymddiriedaeth, uwchsgilio pobl, ac ymchwil dros gyfres o fisoedd, neu flynyddoedd hyd yn oed, yn ganolog iddo mae ymrwymiad i **gydweithredu** â'r gymuned a sicrhau bod ganddynt bŵer dros y broses a'i chanlyniadau.

Ym mis Awst 2023, aethom ati i gynnwys nofwyr, hyfforddwyr a staff cefnogi o'r ganolfan perfformiad uchel yn Abertawe i ddod yn gyd-ymchwilwyr mewn consortiwm am 2 i 3 mis o gyfarfodydd wythnosol, wedi'u hwyluso gan aelod o staff Chwaraeon Cymru, a oedd y tu allan i'r amgylchedd hyfforddi dyddiol.

Yn y lleoliad anffurfiol hwn, gyda choffi a chacen yn sbardun, fe wnaethant ddefnyddio'r "gofod rhydd" hwn i greu cyfleoedd ar gyfer deialog.

Trafodwyd pynciau heriol, fel 'a yw twf a lles yn bwysig mewn chwaraeon elitaidd?' 'pwy sydd â'r pŵer yn eich amgylchedd a pham?' a 'pwy sy'n gyfrifol am newid?'

Unwaith y cytunwyd ar ddisgwyliadau a ffiniau, ein rôl oedd creu gofod agored i leisio meddyliau a safbwyntiau cudd. Fe wnaethom ein gorau i sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed, nid dim ond y lleisiau uchaf. Am hyn, roeddem yn gofyn i'r consortiwm ysgwyddo cyfrifoldeb ar y cyd am unrhyw gamau a allai ddeillio o'r trafodaethau hyn, a lle bo hynny'n briodol, ymgysylltu â'r gymuned nofio ehangach.

Trafodwyd pynciau anodd a allai fod yn heriol, ac ysgwyddodd pawb y cyfrifoldeb am ddal ei gilydd i gyfrif a sbarduno newid. Mae'r grŵp yn ail-lunio ei hun yn gyson, gan ymgysylltu â lleisiau newydd a gwahanol o'u cymuned, ac archwilio ffyrdd o wneud y prosiect yn fwy cynaliadwy yn y **tymor hir**.






# Datblygu cyfleoedd

## Iechyd Meddwl

Rydym yn gwybod llawer iawn am y rôl y mae chwaraeon yn ei chwarae o ran gwella iechyd meddwl a lles. Fodd bynnag, ar ôl adolygu pa gefnogaeth oedd ar gael i'r sector chwaraeon greu amgylcheddau chwaraeon croesawgar a chefnogol, roeddem yn teimlo bod angen datblygu adnoddau ar gyfer y sector yn y **tymor hir**.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi datblygu ein dull o weithredu gydag iechyd meddwl, drwy lens 'berthynol'. Mae hyn yn cydnabod pwysigrwydd cysylltiadau cadarnhaol, iach ag eraill, mewn amgylcheddau diogel, sydd, yn gyffredinol, yn gallu lleihau'r effaith y mae straen yn ei chael ar ein hiechyd corfforol a meddyliol. Dyma rai enghreifftiau o sut gellir cyflawni'r dull hwn mewn chwaraeon:

- Datblygu perthynas o ymddiriedaeth ag eraill (fel hyfforddwyr neu gyd-chwaraewyr).
- Cysylltu'n ystyrlon â'ch cymuned leol (clybiau, gweithgareddau).
- Datblygu ymdeimlad o berthyn.
- Teimlo ymdeimlad o falchder trwy ddysgu sgiliau newydd.

Rydym felly wedi **cydweithredu** drwy bartneriaethau gyda sefydliadau sydd ag arbenigedd mewn iechyd meddwl, sydd wedi cyflwyno gweithdai ar gyfer Cyrff Rheoli Cenedlaethol (CRhC). Mae'r gweithdai'n canolbwyntio ar sut gallant helpu eu clybiau, gwirfoddolwyr a hyfforddwyr i deimlo'n fwy hyderus ac abl i greu amgylcheddau chwaraeon lle gall pobl wir ffynnu, nid dim ond fel athletwyr ond fel pobl. Rydym yn bwriadu datblygu hyn ymhellach drwy gefnogaeth bwrpasol, gan weithio gyda mwy o CRhC a sicrhau bod y dull gweithredu wedi'i ymgorffori ar draws Chwaraeon Cymru.

## Cynllun Hamdden Actif 60+

Mae'r Cynllun Hamdden Actif 60+ (ALS) wedi bod yn weithredol ers dechrau 2021 ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru. Mae pob awdurdod lleol (ALl) wedi datblygu eu cynnig eleni. Mae'r rhan fwyaf wedi ceisio cyd-gynhyrchu'r cynnig, gan gynnwys y gymuned leol. Mae sicrhau bod ALS 60+ yn cyd-fynd â'r Cynllun Cyfeirio Cleifion at Ymarfer Corff (NERS) wedi cael ei groesawu ac mae'r cynllun yn cynnig cyfle i bobl ag ystod o alluoedd wella, neu gynnal, eu lefelau gweithgarwch corfforol.

Mae awdurdodau lleol unigol yn cysylltu â'i gilydd bellach hefyd mewn grwpiau gyda dull wedi'i dargedu mewn ardaloedd unigol:

- **Pobl o leiafrifoedd ethnig** Abertawe, Caerdydd, Casnewydd.
- **Daearyddiaeth / Natur wledig:** Powys, Blaenau Gwent, Ceredigion.
- **Cyswllt â NERS:** Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd, Torfaen.
- **Awyr agored / cymunedol:** Sir Benfro, Sir y Fflint, Gwynedd.
- **Cysylltiad cymdeithasol:** Bro Morgannwg, Conwy, Mynwy.
- **Anweithredol:** Wrecsam, Caerffili, Ynys Môn.
- **Cymunedau sy'n cael eu Tanwasanaethu:** RhCT, Sir Ddinbych, Merthyr.

Yn ystod y flwyddyn hon, mae'r rhaglen yma a'r ffyrdd o weithio wedi cael eu hymgorffori yn y model Partneriaeth Chwaraeon, (p. PARTNERIAETHAU CHWARAEON) a fydd yn gweld gweithio aml-asiantaeth a rhanbarthol i gynyddu lefelau gweithgarwch yn ystyrlon.

Un o flaenoriaethau allweddol yr ALS 60+ oedd targedu iechyd a grwpiau sy'n llai tebygol o fod yn actif, gan ddefnyddio dull ataliol o weithredu. Mae angen buddsoddiad sylweddol ar y poblogaethau targed hyn i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar y rhaglenni, ond mae rhywfaint o lwyddiant wedi'i adrodd, yn enwedig drwy gydweithredu â sefydliadau cymunedol perthnasol. Mae'r manteision cymdeithasol sylweddol i'r rhai sy'n cymryd rhan yn yr ALS 60+ yn rhai o ganlyniadau mwyaf cadarnhaol y cynllun.



Mae pryderon parhaus ynghylch cynaliadwyedd y rhaglen oherwydd cyllid. Ceir cydnabyddiaeth hefyd mai dim ond drwy ddull cyfannol sy'n gysylltiedig â strategaeth Cymru sy'n Gyfeillgar i Oedran y mae modd cynyddu ei chyrhaeddiad; mae'n amlwg nad yw 'cynnig gweithgareddau' yn unig yn ddigon i ymgysylltu'n llwyddiannus â'r bobl fwyaf anweithgar a heb ddiddordeb mewn cymunedau.

# Pêl Fasged Tywynnu yn y Tywyllwch

Mae Pêl Fasged Aberystwyth wedi datblygu datrysiad creadigol i annog mwy o ferched a genethod i gymryd rhan yn y gamp. Mae eu sesiynau tywynnu yn y tywyllwch arloesol yn digwydd gyda goleuadau UV, sy'n gofyn i bawb sy'n cymryd rhan wisgo bibiau neon, gyda stribedi'n goleuo wedi'u tapio ar y bêl a'r cylchyn.


Y nod yw goresgyn rhwystrau a'r syniad nad yw merched yn hoffi cael eu gwylio pan maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau.

Eglurodd un rhiant i gyfranogwr, Danny: "Mae fy merch 12 oed i, fel llawer o ferched yn eu harddegau, yn poeni am ei delwedd a sut mae hi'n edrych. Ond yr hyn mae hi'n ei fwynhau'n fawr am y sesiwn yma yw'r ffaith ei bod hi yn y tywyllwch, fe allwch chi anghofio am hynny a rhoi'r holl bethau'n **ymwneud** â hunan-ddelwedd y tu ôl i chi. Rydych chi'n chwarae am eich bod chi'n hoffi'r gamp."



Dyfarnwyd £3,825 i brosiect 'UV Me' y clwb drwy Gronfa Cymru Actif i helpu gyda chostau fel bibiau, peli, cyrsiau hyfforddi a llogi lleoliad. Mae ystod oedran y cyfranogwyr yn amrywio o 14 i 40, gyda nifer y merched a'r genethod sy'n cymryd rhan rhwng 15 ac 20 ar gyfartaledd.

**Dywedodd yr hyfforddwr Lee Coulson:** "Fy nghyngor i glybiau eraill ym mhob camp arall yw meddwl y tu allan i'r bocs. Ewch allan i'r gymuned a gofyn iddyn nhw beth maen nhw ei eisiau a gweld beth fydd yr ateb."





# Dadansoddiad

Mae ymchwil defnyddwyr wedi bod yn gysyniad hollbwysig wrth weithredu'r nod Person-Ganolog. Roedd ymwybyddiaeth uchel o'r gwaith hwn ymhlith y grŵp o staff a gyfwelwyd ar gyfer y cylch adolygu ac roedd y farn yn gadarnhaol am ei gynnydd a'i fabwysiadu'n gynnar. Nododd rhai bod rhaid iddo fynd ymhellach i gael ei ymgorffori ac mai dim ond pan fyddai'n cael ei groesawu'n eang yn y sector chwaraeon y byddai'r gwaith yn cyflawni'r effaith ofynnol.

Mae staff sy'n arwain ar ymchwil defnyddwyr wedi gweld newid yn ystod y 12 i 18 mis diwethaf gyda dealltwriaeth ehangach bod anghenion defnyddwyr yn hanfodol i lwyddiant unrhyw beth rydym yn ei wneud fel sefydliad ac fel sector, a bod angen ymgorffori prosiectau a mentrau mewn dealltwriaeth gadarn o bwy yw ein defnyddwyr, a beth sydd arnynt ei angen.

Mae tystiolaeth hefyd gan y Timau Digidol a Chynllunio Gwasanaethau sy'n pwysleisio'r angen am weithgareddau ymchwil defnyddwyr drwy gydol prosiectau, ac i'r gweithgareddau hynny beidio â bod yn symbolaidd, ond yn sail i bob cam o gylch oes y prosiect. At hynny, mae cydweithwyr yn dod i gyfnod cychwynnol y prosiect yn gynyddol, gan ofyn cwestiynau pwysig iddynt eu hunain i herio eu rhagdybiaethau eu hunain o ran yr hyn sydd ei angen i ddiwallu'r anghenion hynny.

## Pethau y mae angen i ni eu hystyried a lle mae angen i ni fynd ymhellach

Rydym wedi bod yn awyddus i weithredu ar ymchwil defnyddwyr eleni. Oes angen i ni fynd ymhellach, er enghraifft gyda hyfforddiant, i ymgorffori hyn, yn enwedig yn y sector chwaraeon gyda'n partneriaid?

# #2 Sicrhau Bod Pob Person Ifanc Yn Cael Dechrau Gwych

Mae gan bob person ifanc y sgiliau, yr hyder a'r cymhelliant i'w galluogi i fwynhau a gwneud cynnydd drwy chwaraeon; gan roi sylfeini iddynt fyw bywyd actif, iach a chyfoethog.

## Mewn Ysgolion

### Actif Dyddiol

Rydym wedi parhau i weithio ar ein **cydweithrediad** gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, y Cynnig Actif Dyddiol. Eleni, fodd bynnag, araf fu'r cynnydd oherwydd y cyfyngiadau ariannol anodd. Rydym yn nodi bod Comisiynydd Plant Cymru yn gweld budd enfawr posibl o raglen a fydd yn cefnogi gweithgarwch plentyn yn ystod ac o gwmpas y diwrnod ysgol o'i Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2022-23 pan alwodd ar iddi ddechrau'n ddi-oed.

Wrth i ni aros am gynnydd pellach, rydym yn parhau i geisio datblygu'r cynnig drwy gynnwys partneriaid a datblygu adnodd asesu a fydd yn awgrymu lle mae angen cymorth ar ysgol i **integreiddio** gweithgarwch dyddiol i'w disgyblion. Bydd hyn yn darparu cynllun gweithredu ar gyfer ysgolion er mwyn iddynt allu dod yn lleoliadau ysgol actif. Eleni rydym wedi ymgysylltu â Phrifysgol Bradford a'i 'Rhaglen Creu Ysgolion Actif' fel arweinwyr yn y maes gwaith hwn i ddatblygu ein rhaglen.



SYLW I

# Gweithgarwch corfforol yn y Cwricwlwm i Gymru

## Citbag
## citbag.sport.wales/en/

Eleni, ymgymerwyd â gwaith ymchwil sylweddol yn cynnwys athrawon i ddeall eu hanghenion ar gyfer cyflwyno gweithgarwch corfforol yn y Cwricwlwm i Gymru. O ganlyniad, fe wnaethom newid cynllun a siwrnai defnyddwyr Citbag i adlewyrchu'r Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys ychwanegu adnodd tracio sgiliau ar y platfform. Yn dilyn adnewyddu siwrnai'r defnyddiwr, fe wnaethom gynnal ymgyrch farchnata i hyrwyddo Citbag, a welodd gynnydd enfawr yn y tanysgrifwyr a'r defnydd o'r adnoddau.

Rydym yn gwybod bod angen i unrhyw un sy'n cynnig ac yn darparu gweithgarwch corfforol deimlo'n gyfforddus ac yn hyderus i gefnogi datblygiad plant a phobl ifanc a chefnogi'r ddealltwriaeth bod manteision gydol oes i iechyd a lles corfforol.

**Cynnig Dysgu Proffesiynol**

O ganlyniad i'r wybodaeth a gasglwyd gennym eleni, rydym hefyd yn archwilio pa sgiliau a hyfforddiant y mae angen i ddarpar athro ymgymryd â hwy i sicrhau bod pob person ifanc yn cael dechrau gwych ar eu siwrnai gweithgarwch corfforol, drwy leoliadau ysgol.

Ar hyn o bryd mae 5 prifysgol a nifer o arbenigwyr yn **cydweithredu** ar yr hyn y gallai cynnig dysgu proffesiynol ei olygu ac ymarferoldeb cyflwyno'r cynnig mewn ysgolion.










# Deall gweithgarwch plant

## Dangosfwrdd yr Arolwg Chwaraeon Ysgol

Ein Harolwg Chwaraeon Ysgol yw un o'r arolygon mwyaf o'i fath yn y byd, sy'n cofnodi ymddygiadau ac agweddau pobl ifanc tuag at chwaraeon. Wedi'i gynnal ddiwethaf yn 2022, eleni dyluniodd a phrofodd ein tîm dirnadaeth ddangosfwrdd gan ddefnyddio meddalwedd PowerBi i wneud canfyddiadau allweddol fel cyfranogiad a galw am chwaraeon yn hawdd eu cyrraedd ac i roi cyfle i'r defnyddwyr archwilio'r data yn seiliedig ar eu gofynion penodol.

Mae hyn yn golygu bod posib defnyddio dirnadaeth yn ehangach ac yn effeithiol ar draws y sector chwaraeon i hyrwyddo nodau'r Weledigaeth – cael mwy o bobl i fod yn actif ac ar gyfer y **tymor hir**.

Y weledigaeth **dymor hir** yw dysgu a gwella'r dangosfwrdd er mwyn gallu arddangos a chyd-fynd â fersiwn 2026 o'r Arolwg Chwaraeon Ysgol.



## Fframwaith Sylfeini Cymru

Gweithiodd Chwaraeon Cymru eleni gyda Chyrff Rheoli Chwaraeon Cenedlaethol, Awdurdodau Lleol, Partneriaethau Chwaraeon, Chwarae Cymru, Blynyddoedd Cynnar Cymru, a Phartneriaid Chwaraeon Cenedlaethol ehangach yn **gydweithredol** i gyd-greu Fframwaith Sylfeini Cymru; canllaw arfer da ar gyfer pawb sy'n alluogwyr chwaraeon ac sy'n **ymwneud** â threfnu, hyrwyddo a chyflwyno gweithgareddau corfforol a chwaraeon i blant 3 i 11 oed, mewn lleoliadau ysgol, allgyrsiol, cymunedol ac ar lawr gwlad.

Mae'r term 'Sylfeini' yn cyfeirio at ddatblygiad sgiliau corfforol, hyder a chymhelliant pob plentyn i'w alluogi i fynd ymlaen i fyw bywyd actif, iach a chyfoethog a bydd y Fframwaith yn sicrhau bod pob plentyn yn gallu tyfu i fyny mewn Cymru sy'n eu cefnogi i fod y gorau y gallant fod.



Drwy ymgynghori, gwelsom ofyn ac angen clir am ddull a oedd yn eiddo i bawb a fyddai'n helpu i ddatblygu system chwaraeon sy'n gynhwysol, ac yn canolbwyntio ar y plentyn, drwy ddull ymroddedig o gyflawni'r canlynol:

- Deall sut dylai'r 'cynnig' i blant edrych a theimlo.
- Creu amgylcheddau sy'n cefnogi cam datblygiad corfforol, cymdeithasol, emosiynol a gwybyddol plentyn.
- Cynnig cyfleoedd aml-chwaraeon sy'n ddiogel, yn bleserus ac yn ddatblygiadol.
- Hyrwyddo symudiad dyddiol a phrofiadau gweithgarwch corfforol allweddol sy'n cyfrannu at ddatblygiad iach.
- Gwerthfawrogi chwarae sy'n cael ei arwain gan blant cymaint â chyfleoedd wedi'u hwyluso a chyfleoedd sy'n cael eu hysgogi gan oedolion.
- Cydnabod camau datblygiad biolegol, ffisiolegol a niwrolegol plant fel sail i'n darpariaeth o gyfleoedd.

Bydd y fframwaith hwn yn awr yn cael ei frandio a'i roi'n fyw drwy adnoddau sy'n helpu i ymgysylltu a newid arfer mewn chwaraeon ar lawr gwlad. Bydd Chwaraeon Cymru yn monitro ac yn gwerthuso ei gynnydd.

## Prosiect Pipyn Actif

Ar ôl gwaith sylweddol yn cwmpasu’r cynllun peilot dwy flynedd hwn yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, mae’r prosiect yn weithredol mewn tair ardal ledled Cymru dan arweiniad partneriaid yn y sector: ‘arc ddeheuol’ Caerdydd (Chwaraeon Met Caerdydd), Merthyr Tudful (StreetGames) ac Ynys Môn (Môn Actif).

Mae’r cynnig yn arloesol, yn wahanol ym mhob ardal beilot, ac mae pob sefydliad arweiniol yn **cydweithredu** â gwahanol bartneriaid sydd â gwybodaeth leol i sicrhau eu bod yn gallu cyrraedd y grwpiau priodol o bobl.

Fodd bynnag, mae ffocws EDI ar draws pob un, gyda'r nod o ddarparu sesiynau diogel a phleserus i deuluoedd sydd â phlant 0 i 7 oed sy'n profi gordewdra, neu'n wynebu risg o ordewdra, er mwyn **atal** ffyrdd o fyw afiach yn y dyfodol.

Mae holl staff cyflwyno’r prosiect wedi mynychu hyfforddiant achrededig Lefel 3 SKIP Cymru, sy’n hyfforddi oedolion i ddysgu’r sgiliau corfforol sydd eu hangen ar blant i fod yn symudwyr hyderus a llawn cymhelliant drwy ddull cynhwysol o weithredu sy’n seiliedig ar chwarae. Disgwylir i'r staff integreiddio'r dysgu newydd yma yn eu sesiynau gyda theuluoedd.

Mae effaith y prosiect yn cael ei werthuso gan dîm allanol, drwy gasglu straeon gan blant a theuluoedd sy'n **ymwneud** ag ef, a chofnodi'r hyn a ddysgwyd gan y rhai sy'n arwain y prosiect. Bydd y wybodaeth ar y cyd yma’n helpu i siapio sut gallai dyfodol y prosiect hwn edrych y tu hwnt i'r peilot yma.



# Hoci tanddwr yn creu sblash

Mae Clwb Octowthio Penfro yn cael gwared ar rwystr cost offer i blant mewn ardaloedd llai cefnog er mwyn iddynt allu cymryd rhan yng nghamp unigryw Octowthio.

Mae Octowthio yn cael ei chwarae ar waelod pwll nofio gyda'r chwaraewyr yn defnyddio ffyn bach i wthio pyc gyda phwysau arno i mewn i gôl eu gwrthwynebwyr.

Yn cynhyrfu'r dyfroedd ers 1989, mae Clwb Octowthio Penfro wedi cael ei goroni'n bencampwr Cymru 12 gwaith ers 2007 gyda llawer o aelodau'r clwb yn chwarae i Dîm Prydain Fawr ym mhencampwriaethau hoci tanddwr Ewrop a'r Byd.

Dyfarnwyd £3,559 i'r clwb o orllewin Cymru drwy Gronfa Cymru Actif i brynu pyciau, goliau, citiau cychwynnol ar gyfer chwaraewyr newydd ac i helpu i dalu am hyd at ddeg awr o logi lleoliad ar gyfer grŵp newydd o nofwyr.

**Eglurodd y Cadeirydd Nick Barnett:** "Un o'r pethau sy'n ddiddorol iawn i mi yw'r ffaith bod y bobl sy'n dod i mewn i'r clwb yma'n dod o gymaint o gefndiroedd gwahanol. Os bydd unrhyw un yn cael anhawster prynu cit, diolch i'r cyllid yma mae gennym ni bellach git y gallwn ni ei ddarparu er mwyn dod â'r bobl ifanc yma yn eu blaen."



# Rhoi mwy o resymau i bobl ifanc ddewis sboncen

Mae ychwanegiad hirddisgwyliedig sboncen at Gemau Olympaidd 2028, ynghyd â bwrlwm iau sy'n dod i'r amlwg yn y gamp yng Nghymru, yn rhoi pob gobaith i Sboncen Cymru am gyfnod cyffrous o'u blaen.

Disgwylir y bydd mwy o sylw ar lwyfan byd-eang yn tanio diddordeb pobl iau.

Fodd bynnag, gyda Gemau Los Angeles bedair blynedd i ffwrdd o hyd, mae Sboncen Cymru yn canolbwyntio ar roi mwy o gyfleoedd i ieuenctid gymryd rhan yn y gêm nawr drwy sefydlu adrannau iau newydd mewn pedwar clwb ar draws y wlad - Y Fenni, Old Penarthians, Llanelli a Llanfair ym Muallt.

Cyn y penderfyniad hwn, ystyriodd Sboncen Cymru ddata o'r Arolwg Chwaraeon Ysgol – sy'n cael ei gynnal gan Chwaraeon Cymru i ddangos lefelau cyfranogiad a'r galw cudd am chwaraeon ymhlith pobl ifanc – i nodi'r mannau problemus posibl.

Hyd yn oed cyn i'r bêl gyntaf gael ei tharo yng Nghlwb Sboncen y Fenni, gofynnwyd i'r plant a oedd wedi dangos diddordeb yn y gamp pa ddyddiau ac amseroedd fyddai'n fwyaf addas iddyn nhw ar gyfer hyfforddi, tra bo penderfyniadau ynghylch a ddylid ymuno â chynghrair gystadleuol hefyd yn cael eu gwneud fel grŵp.

Y canlyniad yw adran iau ffyniannus, sy'n cael ei harwain gan anghenion teuluoedd, a phobl ifanc yn gallu ffitio sboncen i mewn o amgylch eu hymrwymiadau eraill.



**Eglurodd Dave Evans, Cyfarwyddwr Perfformiad Sboncen Cymru:** "Mae'n ddyddiau cynnar iawn o hyd i weld faint fydd y newyddion Olympaidd yn effeithio ar y gêm yng Nghymru, ond fe hoffwn i feddwl y bydd yn gwneud hynny. Mae mwy o sylw'n sicr o fod yn beth positif i sboncen. Ein nod sylfaenol ni yw gwneud yn siŵr bod pawb sy'n chwarae sboncen yn cael profiad llawn hwyl. Os nad yw'n bleserus, ni fydd y chwaraewyr yn dod yn ôl, mae mor syml â hynny!"




# Dadansoddiad

Yn ein hymdrechion parhaus i sicrhau bod pob person ifanc yn cael dechrau gwych mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol, cymerwyd camau breision ymlaen er gwaethaf yr heriau a ddaeth yn sgil effaith pandemig Covid-19 a chyfyngiadau ariannol. Mae cyflwyno prosiectau peilot arloesol a fframweithiau cydweithredol yn adlewyrchu ein hymrwymiad i fynd i'r afael ag anghenion plant a theuluoedd ledled Cymru. Er bod y cynnydd wedi bod yn arafach mewn rhai ardaloedd, mae'r nod ar y cyd i flaenoriaethu tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant yn tanlinellu ein hymrwymiad i feithrin amgylcheddau lle gall pob person ifanc ffynnu.

Mae defnydd Sboncen Cymru o ddata o'r Arolwg Chwaraeon Ysgol i nodi eu hardaloedd allweddol posibl ar gyfer diddordeb sboncen, a gofyn i blant a oedd wedi dangos diddordeb yn y gamp pa ddyddiau ac amseroedd fyddai fwyaf addas ar eu cyfer ar gyfer hyfforddiant, yn dangos y defnydd gorau posib o wybodaeth a budd data'r Arolwg Chwaraeon Ysgol. Gallai hyn fod yn ffactor hollbwysig i genedlaethau'r dyfodol. Mae ein buddsoddiad yn cael ei ddyrannu a'i ddylanwadu gan yr arolygon cenedlaethol fel mesurau cyfranogiad. Mae'r potensial yn bodoli i ehangu'r budd drwy ddefnyddio data a gwybodaeth yr arolwg ar lawr gwlad i sicrhau'r cyfranogiad gorau posibl.

## Pethau y mae angen i ni eu hystyried a lle mae angen i ni fynd ymhellach

Er mwyn gwneud cynnydd sylweddol gyda'r nod hwn mae angen i sefydliadau eraill gyfrannu. Bydd gan y sefydliadau hynny eu cyfyngiadau eu hunain. Gall adnoddau a chyllidebau fod yn ffactor sy'n cyfyngu ar gynnydd. Mae angen gwneud defnydd llawn o wybodaeth yr Arolwg Chwaraeon Ysgol ar draws y sector chwaraeon.

# #3 Sicrhau Bod Pawb Yn Cael Y Cyfle I Fod Yn Actif Drwy Chwaraeon

Mae chwaraeon yn gynhwysol ac yn darparu profiad gwych i bawb.

## Cyfranogiad

### Cronfa Cymru Actif

Mae gweithredu ffurflen mynegi diddordeb newydd wedi cael effaith fawr ar nifer y ceisiadau a dderbyniwyd ar gyfer ein cyllid cymunedol.

Derbyniwyd y nifer uchaf erioed yn ystod y flwyddyn ariannol hon - 1,054, gan gynnwys 634 gan sefydliadau nad oeddent wedi gwneud cais o gwbl, neu o leiaf ers cyn y pandemig.

Roedd 931 yn llwyddiannus, gyda chyfanswm o £6,468,617wedi'i ddyfarnu.

Mae ein gwaith cyfathrebu a buddsoddi wedi ehangu cyrhaeddiad ein cronfeydd ac wedi rhoi adnoddau sylweddol i'r sector. Byddwn nawr yn edrych ar wasgaru cyllid yn ôl chwaraeon a daearyddiaeth ac yn parhau i geisio sicrhau bod ein cyllid yn cael yr effaith fwyaf ar sbarduno cyfranogiad a goresgyn rhwystrau ar gyfer y **tymor hir**.



## Iechyd a Pherfformiad Merched

Mae tîm Iechyd a Pherfformiad Merched yr Athrofa yn **gydweithrediad** rhwng ymarferyddion o Chwaraeon Cymru a Sefydliad Gwyddorau Perfformio Cymru (WIPS), sy'n cydweithio i ddarparu atebion **tymor hir** sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer gwell iechyd a pherfformiad i ferched a genethod. Mae'r tîm yn mabwysiadu agwedd ragweithiol, **ataliol** tuag at ganfod atebion a chefnogi merched a genethod mewn chwaraeon ledled Cymru.

Eleni rydym wedi gweithio gyda phobl ifanc ar raglenni llwybr chwaraeon i ddarparu'r wybodaeth a'r adnoddau nid yn unig iddynt gael dechrau gwych mewn chwaraeon ond hefyd i'w cadw'n actif am oes drwy ddeall cylch y mislif, eu symptomau a'u rhyngweithio ag iechyd a pherfformiad. Y weledigaeth yw grymuso merched a genethod i sicrhau'r iechyd, y lles a'r perfformiad gorau posibl.




## Cyfergyd mewn chwaraeon

Yn dilyn Adroddiad Cyfergyd mewn Chwaraeon 2021 Pwyllgor Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Senedd y DU, sy'n amlinellu effeithiau cyfergyd sy'n gysylltiedig â chwaraeon (SRC), **cydweithredodd** Tîm Meddygol Athrofa Chwaraeon Cymru â'r Gweithgor Cyfergyd mewn Chwaraeon i gyhoeddi cyfarwyddyd ffurfiol i gefnogi pawb sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon ysgol ac ar lawr gwlad. Mae'r canllawiau'n ceisio darparu eglurder a chysondeb ar gyfer rheoli cyfergyd mewn chwaraeon ar lawr gwlad.

Er mwyn sicrhau bod y canllawiau hyn yn cael yr effaith orau bosibl o fewn system chwaraeon Cymru, rydym wedi comisiynu dau brosiect casglu gwybodaeth, y ddau yn ceisio deall sut mae SRC yn cael ei reoli ar hyn o bryd o fewn chwaraeon ysgol, llawr gwlad a pherfformiad. Mae'r wybodaeth hon wedi gwella ein dealltwriaeth o'r rhwystrau a'r galluogwyr sy'n cefnogi'r gwaith o adnabod a rheoli SRC. Mae gwaith eisoes ar y gweill i gefnogi CRhC ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru i fabwysiadu polisïau a phrotocolau penodol i chwaraeon sy'n sicrhau bod cyfergyd yn cael ei reoli'n fwy effeithiol er mwyn atal effaith SRC ar chwaraewyr.

SYLW I

# Blwyddyn o Dwf mewn Cyfranogiad Chwaraeon Ramadan

Eleni gwelwyd ehangu cyffrous ar ein menter i gynyddu cyfranogiad chwaraeon a chynnwys cymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol yng Nghaerdydd. Wedi'i lansio yn 2023, roedd y rhaglen yn cynnig sesiynau i ddynion yn unig i ddechrau, ac roedd yn boblogaidd iawn. **Cydweithredodd** Chwaraeon Cymru â thîm Foundation for Sports Coaching, sy'n creu mannau cynhwysol.

Gan adeiladu ar y llwyddiant hwn, gwelwyd ehangu sylweddol yn 2024. Roedd y rhaglen yn weithredol am dair noson yr wythnos, gan ddarparu ar gyfer dynion a merched. Cyflwynwyd gweithgareddau newydd, ynghyd â mynediad i gyfleusterau nodedig y Brif Arena a champfa Perfformiad Uchel Chwaraeon Cymru.





Dros bedair wythnos, denodd y rhaglen fwy na 400 o gyfranogwyr a ddaeth i fwynhau badminton, pêl droed, pêl fasged, tennis bwrdd a sboncen. Darparwyd cludiant ar draws Caerdydd gan y Foundation for Sports Coaching, gan sicrhau hygyrchedd i bawb. Cafwyd adborth cadarnhaol ar gyfryngau cymdeithasol, gan dynnu sylw at effaith y rhaglen.

Gan gydnabod anghenion y cyfranogwyr a oedd yn cadw at Ramadan, creodd ein tîm maeth raglen wedi'i chynllunio'n benodol i helpu i gynnal lefelau egni drwy gydol y dydd, gan ddarparu sgiliau ymarferol ar gyfer bwyta'n iach. Cafodd y cyfranogwyr gyfle hefyd i ryngweithio gyda gwyddonydd chwaraeon a phrofi'r felin draed gwrth-ddisgyrchiant, gan ychwanegu elfen unigryw at y rhaglen.

# Bowlwyr benywaidd yn cadw'n actif yn eu 90au diolch i offer newydd

Yn rhan o Glwb Bowls Awyr Agored Merched Rhiwbeina, mae'r grŵp 'Merched Feteran' sydd newydd ei ffurfio yn chwarae bowls bob wythnos ar ôl cael cymorth grant o £1,152 drwy Gronfa Cymru Actif.

Mae gan lawer o'r 25 o ferched, rhai ohonynt yn eu 90au, broblemau symudedd. Fodd bynnag, mae'r offer newydd yn helpu'r grŵp i gadw'n actif, gan gynnwys y ffurelau newydd sy'n golygu bod eu ffyn cerdded yn ddiogel i'w defnyddio ar y lawnt, y codwyr bowls a jac sy'n eu helpu i godi offer heb fod angen plygu, yn ogystal â chasglwr bowls newydd sy'n dyblu fel cymorth cerdded i helpu'r merched i gerdded i fyny ac i lawr y lawnt.



Aelod hynaf y clwb yw Moya, 91 oed, a ddywedodd: "Rydw i'n defnyddio'r holl offer sydd wedi'i gyflenwi, oherwydd bod arnaf i ei angen. Y ffyn cerdded, y sgŵps, y codwyr... rydw i'n ddiolchgar amdanyn nhw. Yn ffodus, rydw i'n dal i yrru. Cyn belled ag y bydda' i'n gallu dal i yrru, fe fyddaf yn parhau i ddod i'r clwb!"

I lawer o'r merched, dyma'r unig amser maen nhw'n actif yn ystod yr wythnos. I eraill, mae agwedd gymdeithasol y clwb yr un mor bwysig wrth gyfrannu at ansawdd eu bywyd.

**Eglurodd aelod o'r clwb, Glo Bird:** "Pan wnes i ymuno, roeddwn i newydd ddod yn wraig weddw. Rydw i wedi cael diagnosis o glefyd Parkinson ers hynny, ond mae fy ffrindiau i yma yn y clwb bowls wedi fy helpu i. Mae wedi achub fy mywyd i. 'Fyddwn i ddim eisiau bod heb fy nghlwb."

Mae annog y genhedlaeth hŷn i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn hollbwysig, yn enwedig gyda'n harolwg Traciwr Gweithgarwch Cymru yn nodi bod pobl dros 55 oed yn llai tebygol na phobl iau o fod â'r gallu i fod yn gorfforol actif.

# Llywodraethu

SYLW I

## Buddsoddiadau

Eleni aethom ati i ddechrau cynnal gwerthusiad llawn o’n dull buddsoddi sy’n cael ei sbarduno gan ddata a roddwyd ar waith o 2020 ymlaen. Roedd y gwerthusiad wedi ymrwymo i adolygu’r canlynol:

- Profi data presennol ac unrhyw welliannau.
- Partneriaid wedi'u cynnwys yn y model sy’n cael ei Sbarduno gan Ddata.
- Effaith ar fetrigau arolwg.
- Canlyniadau’r model ar ddulliau ac ymddygiad partneriaid, gan gynnwys y cynnydd a’r gostyngiadau a reolir yn yr ymrwymiadau cyllido.

Gan adeiladu ar y model buddsoddi cyntaf hwn, eleni gwnaethom hefyd gyflwyno’r dull buddsoddi sy’n cael ei sbarduno gan egwyddorion ar gyfer pob partner nad yw’n hawdd casglu data ar eu cyfer.

Yn olaf, fe wnaethom adeiladu ar fomentwm y dulliau buddsoddi sy’n cael eu sbarduno gan ddata ac egwyddorion, gan roi 'Ffrwd Buddsoddi System Chwaraeon Ffyniannus' newydd ar waith. Mae’r dull seiliedig ar geisiadau hwn o weithredu’n gyfle i Chwaraeon Cymru gydnabod gwerth partneriaid ar lefel genedlaethol mewn system chwaraeon ffyniannus.

Mae’r trydydd dull hwn bellach yn sicrhau bod dull buddsoddi cadarn wedi’i roi ar waith ar gyfer holl bartneriaid Chwaraeon Cymru.

## Y Fframwaith Symud at Gynhwysiant

Mae’r Fframwaith Symud at Gynhwysiant yn Fframwaith ledled y DU gyfan sydd wedi’i ddatblygu a’i fabwysiadu gan Gynghorau Chwaraeon y pedair gwlad gartref ac UK Sport. Bu nifer o'n partneriaid sy’n cael eu cyllido’n **cydweithredu** â ni ar yr adolygiad o'r Safon Cydraddoldeb flaenorol ar gyfer Chwaraeon a datblygiad y Fframwaith Symud at Gynhwysiant newydd.

**Y Fframwaith:**

- Ei lansio yn 2023.
- Yn cynnwys naw partner (cymysgedd o CRhC a Phartneriaid Cenedlaethol) yn derbyn cefnogaeth fentora mewn grwpiau, parau a chefnogaeth un i un am 12 mis.
- Rydym hefyd wedi ymrwymo i ddefnyddio'r Fframwaith ochr yn ochr â'n partneriaid.



## Diogelu

Mae diogelu mewn chwaraeon yn hollbwysig, ac mae'r Uned Amddiffyn Plant mewn Chwaraeon (CPSU) yn gweithio gyda CRhC i ddatblygu safonau diogelu plant ac Ymddiriedolaeth Ann Craft (ACT) yn canolbwyntio ar safonau diogelu oedolion. Rydym wedi bod yn falch o weld cynnydd cadarnhaol iawn mewn **ymwneud** gan CRhC gan fod pwysigrwydd chwaraeon diogel wedi'i rannu ar draws y sector.

Casglwyd llawer o wybodaeth eleni am heriau ac anghenion y sector drwy:

- 14 asesiad panel i wirio safonau diogelu mewn sefydliadau partner.
- 19 adolygiad blynyddol.
- 3 CRhC yn treialu'r Fframwaith Diogelu Oedolion mewn Chwaraeon.

Ochr yn ochr ag asesiadau ac adolygiadau, bu cyfleoedd dysgu a datblygu, yn ogystal â chyfleoedd i CRhC ddathlu a rhannu arfer da.

Mae disgwyliadau ac amodau i bob CRhC, i barhau i gynnal a datblygu safonau diogelu yn eu sefydliad, gan dynnu sylw at y pwysigrwydd rydym yn ei roi i chwaraeon diogel.

## Cyfarwyddyd ar gyfer Cynhwysiant Trawsryweddol mewn Chwaraeon Domestig

Eleni, rydym wedi parhau i gefnogi a rhannu'r hyn a ddysgwyd gyda'n CRhC drwy weithdai cenedlaethol cydweithredol, sy'n cynnwys partneriaid ac yn eu helpu i ddeall a gweithredu'r Cyfarwyddyd ar gyfer Cynhwysiant Trawsryweddol mewn Chwaraeon Domestig (2021). Mae'r gweithdai'n cael eu hadolygu a'u hailddatblygu'n barhaus.

**11**

**Gweithdy canolog misol**

Yn cael eu cadeirio gan y gwledydd cartref a'u hwyluso gan Carbmill Consultancy i archwilio'r Cyfarwyddyd a'r dulliau y gall ein partneriaid eu defnyddio wrth adolygu eu polisïau.

**4** **Gweithdy cyfreithiol**

Yn cael eu hwyluso gan Harper Macleod i archwilio cyfreithlondeb y Ddeddf Cydraddoldeb a'r Ddeddf Cydnabod Rhywedd mewn perthynas â'r Cyfarwyddyd a sut / beth sydd angen i bartneriaid fod yn gyfreithiol ymwybodol ohono wrth archwilio neu ddatblygu polisïau. Mae adnodd Cyfreithiol yn cael ei ddatblygu i gefnogi partneriaid ymhellach.

SYLW I

# Adolygu ein polisïau a'n fframweithiau

## Fframweithiau Gallu a Llywodraethu ac Arwain

Mae'r Fframwaith Gallu wedi bod yn weithredol ers 2019-20 ac mae angen ei adolygu, a'r Fframwaith Llywodraethu ac Arwain ar gyfer Cymru (GLFW), i sicrhau eu bod yn addas i'r diben.

Amlygodd ymgynghoriad cychwynnol a dadansoddiad annibynnol fod y dull gallu yn cymharu'n gryf iawn mewn cyd-destun rhyngwladol a thraws-sector ac mae'r fframweithiau'n parhau yn addas i'r diben. Fodd bynnag, mae dyhead i symleiddio, lleihau dyblygu a gwella profiad y defnyddiwr.

Dros y flwyddyn nesaf, felly, byddwn yn ceisio creu ffordd newydd a symlach, a fyddai'n sefydlu un fframwaith Cymreig cyfunol a symlach (gan ddod â'r Fframwaith Gallu a'r GLFW at ei gilydd).

**Adolygu'r Polisi Cydnabod**

Mae cydnabyddiaeth yn broses sy'n pennu'r Cyrff Rheoli Cenedlaethol (CRhC) sy'n gyfrifol am lywodraethu'r gweithgareddau chwaraeon y mae'r Cynghorau Chwaraeon yn fodlon ystyried eu cefnogi a gweithio gyda nhw. Rhoddwyd y polisi presennol ar waith yn 2017 ac mae'n cael ei adolygu ar hyn o bryd gan Gynghorau Chwaraeon y DU. Mae Chwaraeon Cymru eisiau ymgysylltu ag ymgynghorydd annibynnol i gefnogi'r adolygiad i sicrhau bod y polisi wedi'i ddiweddaru yn addas i'r diben.





# Gwneud chwaraeon yn gynhwysol i chwaraewyr sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw

"Dylai pob plentyn chwarae."

Dyna'r arwyddair yng Nghlwb Pêl Droed Iau Shotton United Town ar Lannau Dyfrdwy lle mae'r holl hyfforddwyr wedi'u hyfforddi mewn ymwybyddiaeth o fyddardod, fel eu bod yn fedrus o ran sut i addasu eu sesiynau hyfforddi i gynnwys aelodau sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw.

Cafodd y clwb ei sefydlu wyth mlynedd yn ôl gan grŵp o rieni, gan gynnwys Brian Valentine. Ysbrydoliaeth Brian oedd ei fab Dylan, sy'n fyddar. Yn 14 oed bellach, mae Dylan yn mwynhau hyfforddi'r chwaraewyr iau yn ogystal â chymryd rhan ei hun.

Esboniodd Brian: "Mae cae pêl droed yn amgylchedd swnllyd, ac mae'r sŵn hwnnw'n cael ei chwyddo i rywun sy'n defnyddio teclyn clyw. Ond drwy wneud rhai addasiadau syml i'ch dull cyfathrebu, fe allwch chi wneud yn siŵr bod pawb yn teimlo'n rhan lawn o'ch sesiynau pêl droed.

"Er enghraifft, mae gwneud cyswllt llygaid a hawlio sylw rhywun cyn siarad neu arwyddo yn bwysig. Byddwch yn ymwybodol, os byddwch chi'n gweiddi neu'n siarad yn rhy araf, bydd hyn yn effeithio ar batrymau eich gwefusau ar gyfer rhywun sy'n darllen gwefusau, a gallwch fod yn anoddach eich deall os ydych chi'n symud o gwmpas llawer wrth siarad."

I ganmol ei gyfraniad anhygoel at chwaraeon yng Nghymru, enwebwyd Brian ar gyfer Gwobrau'r Loteri Genedlaethol yn 2023.

Dyfarnwyd £3,882 i'r clwb drwy Gronfa Cymru Actif i helpu gyda chostau fel offer a chyrsiau hyfforddi, fel eu bod yn gallu parhau i uwchsgilio eu gwirfoddolwyr i gyflwyno pêl droed sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.



# Dadansoddiad

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ('EDI') yn parhau i fod yn flaenoriaeth fawr yn Chwaraeon Cymru a dyma oedd y sbardun ar gyfer dwy o'r 7 blaenoriaeth yn y cynllun busnes yn ystod 2023-24. Roedd y Cynllun Busnes yn ymgorffori ffocws mewnol drwy flaenoriaeth EDI gyda ffocws allanol yn y flaenoriaeth System Chwaraeon Gynhwysol. Ceir enghreifftiau o ymrwymiad mawr i waith EDI ar draws yr holl gyfarwyddiaethau a thimau ac enghreifftiau o brosiectau rhagorol sydd wedi cael eu henwebu ar gyfer gwobrau neu sydd wedi cael effaith amlwg, fel y rhaglen Arwain Gweithredu Cadarnhaol (PAL) ac ehangu'r rhaglen Ramadan Hanner Nos. Mae'n ymddangos bod agweddau ar y gwaith yn dod yn fusnes cyffredin.

Fodd bynnag, mae'r arolygon ar gyfer oedolion a phobl ifanc yn dangos nad yw'r bylchau mewn cyfranogiad rhwng y mwyaf a'r lleiaf difreintiedig yn lleihau. Er bod cyfleoedd i bawb o bosib, ni all pawb eu cyrraedd ac mae rhwystrau o hyd i chwaraeon mewn sawl agwedd, ac mae angen gwneud mwy i leihau'r rhwystrau ariannol i chwaraeon.

### Pethau y mae angen i ni eu hystyried a lle mae angen i ni fynd ymhellach

A fyddem yn elwa o ffocws cynyddol ar ddata defnyddiol mewn ffordd gytbwys, gan ein bod wedi aeddfedu ein dull a symud oddi wrth DPA'ion? Roedd yr ymadrodd 'data i wella, nid i brofi' yn rhywbeth y buom yn siarad llawer amdano 5 mlynedd yn ôl ond mae'n parhau i ymddangos yn berthnasol. Oes angen i ni gydnabod dangosyddion negyddol a pheidio ag ofni rhannu problemau?

# #4 Dod Â Phobl At Ei Gilydd Ar Gyfer Y Tymor Hir

Mae sector chwaraeon cydweithredol, cynaliadwy a llwyddiannus sy'n cael ei arwain gan wybodaeth a dysgu ar y cyd.

## Cyllid Cyfalaf

Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, roeddem wedi cyflwyno tua £10m mewn prosiectau buddsoddi cyfalaf. Mae hyn yn cynnwys yr ymrwymiad cychwynnol o £8m gan Lywodraeth Cymru a dyfarniad pellach o £2.3m yn ystod y flwyddyn.

Mae'r cyllid wedi'i ddarparu ar draws ystod o feysydd. Mae hyn wedi cynnwys buddsoddiad uniongyrchol mewn cyfleusterau mawr drwy geisiadau partneriaid a chyfarwyddiadau gan Lywodraeth Cymru, cyllido clybiau cymunedol ar lawr gwlad drwy Crowdfunder a Grant Arbed Ynni newydd, gan sicrhau arbedion ariannol a charbon sylweddol. Ymhellach, mae buddsoddiadau wedi'u cyflwyno i wella Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru a'r Ganolfan Awyr Agored Genedlaethol ym Mhlas Menai.

Bydd gwerthusiad o'r buddsoddiad yn cael ei gynnal nawr, gan ystyried y dosbarthiad yn ddaearyddol, fesul camp ac yn ôl demograffeg.



SYLW I

# Grant Arbed Ynni

Aethom ati i sicrhau bod cyllid ar gael eleni drwy raglen newydd i helpu clybiau chwaraeon i fod yn fwy ynni-effeithlon, a'u helpu i arbed arian yn y **tymor hir**. Roedd ein Grant Arbed Ynni ar gael ar gyfer ceisiadau o hyd at £25,000 a gellid ei ddefnyddio tuag at gost mesurau arbed ynni, fel gosod paneli solar neu inswleiddiad gwell yn eu lle.

Roedd goleuadau LED ynni-effeithlon a synwyryddion symud, gwella systemau gwresogi a dŵr poeth, yn ogystal â ffynonellau dŵr cynaliadwy hefyd yn gynigion posibl o dan y cynllun hwn.

Roedd gennym ni gronfa o fwy nag £1m o gyllid ar gyfer y grantiau hyn, ac roedd cymaint o alw am y cynllun fel ein bod wedi ailbwrpasu cyllid arall i sicrhau bod y nifer mwyaf posibl o brosiectau'n cael eu cefnogi. Yn ystod 2023/24, dyfarnwyd Grantiau Arbed Ynni i 80 o glybiau chwaraeon ledled y wlad, gan ddod i gyfanswm o £1.4m, er mwyn helpu i wneud eu cyfleusterau'n fwy ynni-effeithlon.

Roedd yn ofynnol i glybiau a oedd yn ymgeisio am y cyllid naill ai fod yn berchen ar eu hadeilad neu fod â les 10 mlynedd o leiaf. Roedd disgwyl iddynt hefyd gyfrannu o leiaf 20% tuag at gyfanswm costau eu prosiect.

## Arbed arian, arbed ynni ledled Cymru

Dim ond cipolwg yw'r ddau brosiect cyffrous yma ar rai o'r ffyrdd y bydd clybiau'n gwneud defnydd da o'r gronfa.

### AFC Llansawel

Mae biliau trydan a nwy y clwb pêl droed hwn wedi dyblu dros y ddwy flynedd ddiwethaf, a'i fil dŵr ddeg gwaith yn uwch. Bydd Grant Arbed Ynni o £24,995 yn mynd tuag at brynu boeler ynni effeithlon newydd, ynghyd â rheiddiaduron newydd, fel bod modd ailwampio'r system gwres canolog sy'n gwasanaethu'r clwb, y caffi a'r ystafelloedd newid. Bydd tapiau **atal** dŵr yn cael eu gosod yn lle'r holl dapiau yn y cyfleuster, a bydd pennau'r cawodydd yn yr ystafelloedd newid yn cael eu newid am osodiadau pwysedd uchel newydd sy'n arbed dŵr.

### Clwb Chwaraeon Pwllheli

Mae biliau trydan a nwy blynyddol y clwb aml-chwaraeon hwn tua £20,000 ar hyn o bryd. Bydd gosod paneli solar a phwmp gwres ffynhonnell aer, gyda chymorth Grant Arbed Ynni o £24,440, yn helpu i wneud y clwb yn fwy cynaliadwy yn amgylcheddol ac yn ariannol am flynyddoedd lawer i ddod.

## Lle i Chwaraeon: Crowdfunder

Mae'r gronfa 'Lle i Chwaraeon', sy'n cael ei chyflwyno mewn partneriaeth â Crowdfunder UK, wedi parhau eleni, gan fuddsoddi mewn 13 o brosiectau, sicrhau £43,750 gennym ni ac £88,302 pellach mewn cyllid ychwanegol gan y cyhoedd. Mae cyfanswm y cyllid hwn o £132,032 ar gyfer clybiau cymunedol wedi arwain at gyfradd chwyddo o £3.02 am bob £1 o fuddsoddiad cyhoeddus.

Y gronfa hon yw ein mecanwaith ni ar gyfer buddsoddi yn yr holl feysydd nad ydynt yn cyflwyno chwaraeon yn uniongyrchol ond sy'n cael effaith enfawr ar brofiad y rhai sy'n cymryd rhan. Gall hyn gynnwys diogelu neu wella offer neu gyfleusterau neu wella gwasanaethau i wneud clybiau'n fwy cynaliadwy yn ariannol neu'n amgylcheddol.

Mae'r gronfa'n gweithio ar sail cyllid cyfatebol ac felly mae pob cais llwyddiannus yn dangos bod ymrwymiad gwirioneddol gan y gymuned leol.

Unwaith y byddwn yn cefnogi unrhyw gais, rydym yn addo rhwng 30% a 50% o gyfanswm costau'r prosiect, gyda'r symiau sy'n weddill yn cael eu sicrhau gan gefnogwyr unigol. Mae pen uchaf yr addewid wedi'i dargedu'n benodol at ardaloedd o amddifadedd, fel y mesurir gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, i sicrhau ein bod yn cefnogi'r cymunedau hynny sydd â'r angen mwyaf yn y ffordd orau bosibl.

**Clwb Pêl Droed Tref Treffynnon**

Disgrifiad o'r prosiect: Codi arian i dalu am y gost o uwchraddio'r ceblau cyflenwi pŵer i Gae Pêl Droed Ffordd Helygain

Cyfanswm Targed Cyffredinol y Prosiect: **£16,000**

Addewid Chwaraeon Cymru: **£8,000**

Cyfanswm yr Arian a Godwyd: **£16,310**

Cyfanswm y Cefnogwyr Cymunedol: **121**

Mae Clwb Pêl Droed Tref Treffynnon yn Glwb JD Cymru y Gogledd sydd wedi'i leoli yn Sir y Fflint. Mae ganddo sgwad datblygu, adran iau o 150 o chwaraewyr ar draws pob grŵp oedran ac mae wedi lansio adran datblygu Merched yn ddiweddar. Daeth y tîm cyntaf yn ail yng Nghynghrair JD Cymru y Gogledd yn 23/24 gyda thorf o 400 o gefnogwyr yno'n gyson.

Mae'r clwb wedi'i leoli yn Stadiwm Hyfforddi Achieve More, sydd hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gemau Pêl Droed Cynrychiolwyr Ysgolion Cymru, ac mae wedi cynnal rowndiau terfynol cynghrair Iau Sir y Fflint yn ystod y tymhorau diweddar, yn ogystal â darpariaeth addysgol. Ar ôl cyrraedd capasiti o ran y cyfleusterau, mae angen datblygu'r stadiwm drwy uwchraddio'r cyflenwad pŵer, a fydd yn rhoi profiad gwell i wylwyr ac ymwelwyr.

Bydd y gwelliant yn rhoi cyfle ar gyfer darpariaeth aml-chwaraeon, yn ogystal â defnydd rheolaidd o'r clwb. Bydd hefyd yn agor cyfleoedd ar gyfer gosodiadau ynni adnewyddadwy, gan leihau effaith amgylcheddol y clwb, hyrwyddo amgylchedd glanach ac iachach i bawb, a gwneud y gamp yn fwy cynhwysol a phleserus i bawb.




**Clwb Rygbi Penallta**

Cyfanswm Targed Cyffredinol y Prosiect: **£17,981**

Addewid Chwaraeon Cymru: **£4,500**

Cyfanswm yr Arian a Godwyd: **£17,981**

Cyfanswm y Cefnogwyr Cymunedol: **82**

Yn glwb rygbi cymunedol wedi'i leoli ym mhentref bach Ystrad Mynach yn Ne Cymru, sefydlwyd y clwb yn 1952 ac mae'n darparu ar gyfer pob grŵp oedran o dan 6 oed hyd at y lefel hŷn. Mae yno hefyd rygbi cerdded ar gyfer yr aelodau hŷn. Mae'r cynnig yn darparu ar gyfer mwy na 250 o blant lleol yn yr adran mini ac iau, a daw llawer o'r plant a'r oedolion o ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol.

Mae ymgyrch cyllido torfol y clwb yn canolbwyntio ar ailddatblygu ardal patio cefn y clwb sydd wedi mynd yn flêr iawn dros amser ac sy'n parhau i fod allan o ddefnydd i aelodau a'r cyhoedd. Roedd yr ardal unwaith yn ganolbwynt canolog yn y gymuned gan ddarparu man eistedd wrth ymyl y parc a'r caeau ar gyfer teuluoedd, athrawon a staff busnesau lleol yn ystod yr wythnos.

Oherwydd costau cynyddol ac effaith y pandemig, gwnaed cynlluniau a oedd gan y clwb i ailddatblygu'r ardal hon yn afrealistig ac mae'r ymgyrch cyllido torfol wedi cefnogi eu nodau i adfywio hwb cymunedol canolog.



## Hyfforddiant bioamrywiaeth a chynaliadwyedd y sector

Er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cyflawni'r uchelgeisiau bioamrywiaeth yng nghynllun Cynaliadwyedd Amgylcheddol Chwaraeon Cymru, bu 17 aelod o staff yn **ymwneud** â'r cwrs Nature-wise ar ecoleg a'r amgylchedd gyda Cynnal Cymru. Mae gwyrdroi'r colli diweddar ar fioamrywiaeth yng Nghymru yn rhan hanfodol o fynd i'r afael â newid hinsawdd ac roedd y cwrs yn cynnwys gwybodaeth a thrafodaeth ar y wyddoniaeth y tu ôl i ecoleg a newid hinsawdd; y newidiadau sy'n digwydd i fyd natur yng Nghymru; a'r camau y gallwn ni a sefydliadau chwaraeon eu cymryd i **atal** colli bioamrywiaeth ac i gynnal a gwella ecosystemau.

Bydd y cwrs yn galluogi Chwaraeon Cymru i ddatblygu camau gweithredu effeithiol i fynd i'r afael â bioamrywiaeth.

Yn ogystal, buom yn **cydweithredu** â chydweithwyr yn Sport England a sportScotland i gomisiynu darn o waith i ddeall cynnydd ac anghenion y sector o ran cynaliadwyedd amgylcheddol yn well. Nododd y prosiect lefelau amrywiol o gynnydd, anghenion hyfforddi a rhwystrau o ran cyllid ar gyfer gwelliannau cynaliadwy i gyfleusterau.

SYLW I

# Partneriaethau Chwaraeon

Yn ystod y 12 mis diwethaf mae datblygiad pum Partneriaeth Chwaraeon yn parhau i ddangos ein hymrwymiad i bum ffordd o weithio Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae pob Partneriaeth Chwaraeon mewn sefyllfa unigryw i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o fewn cyfranogiad chwaraeon, drwy feddwl am fesurau **tymor hir, ataliol** a chynllun system **integredig**, gyda chyfraniad gan gymunedau lleol.

Rydym wedi gwneud cynnydd cyson i gefnogi datblygiad y partneriaethau ar draws meysydd gwaith recriwtio, llywodraethu a gwerthuso staff yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Eleni, fe wnaethom hefyd dendro a chomisiynu fframwaith gwerthuso ar gyfer y partneriaethau wrth symud ymlaen. Mae ymgysylltu wedi dechrau gydag amrywiaeth o randdeiliaid, a'r disgwyl yw y byddwn yn rhoi'r defnydd cyntaf o'r fframwaith ar waith gydag Actif North Wales ym mis Ebrill 2024.



Mae Actif North Wales wedi bod yn gwbl weithredol ers dros ddwy flynedd bellach. Eleni, rydym wedi symud ymlaen gyda gwaith partneriaeth gyda'r endid ar draws sawl maes thematig – gyda hyfforddiant arweinyddiaeth, sylfeini chwaraeon a chasglu gwybodaeth yn rhai enghreifftiau. Mae Actif North Wales wedi'i **integreiddio'n** llawn bellach yn y dull cynnydd, dysgu ac atebolrwydd. Fel endid, mae hefyd yn gyrru mentrau yn eu blaen yn unol â'r weledigaeth wreiddiol ar gyfer y Partneriaethau Chwaraeon, ac un enghraifft yw'r Gronfa Arloesedd newydd.

Dros y flwyddyn ddiwethaf gwnaed cynnydd sylweddol ar draws y pedwar rhanbarth sy'n weddill i sefydlu endid Partneriaeth Chwaraeon yn ffurfiol.

Wrth i ni ysgrifennu'r testun hwn, mae uchafbwyntiau allweddol y cynnydd yn y rhanbarthau hyn yn cynnwys - sefydlu Gorllewin Cymru yn ffurfiol fel endid cyfreithiol gyda bwrdd cwbl weithredol a chadeirydd annibynnol. Mae bwrdd cysgodol wedi'i gadarnhau ar gyfer Canolbarth y De a Chanolbarth Cymru – gyda hysbysebion am Gadeirydd Annibynnol ar gyfer pob un o'r rhanbarthau hyn ar fin digwydd. Bydd recriwtio staff ar gyfer pob un o'r rhanbarthau hyn yn dechrau yng ngwanwyn 2024. Mae Partneriaeth Chwaraeon Gwent yn parhau i ddatblygu ei model gweithredol.



## Ailgylchu

Mae dod o hyd i gwmni sy'n gallu ailgylchu cit gyda logos a gwisg bersonol wedi bod yn broblem hanesyddol. Mae tîm y Gofrestrfa wedi dod o hyd i gyflenwyr ailgylchu newydd eleni a all helpu ac mae'r gwasanaethau hyn wedi bod yn boblogaidd gyda'n CRhC preswyl, sy'n gallu cael mynediad at y gwasanaethau hyn mewn **cydweithrediad** â ni. Mae'r costau'n cael eu hadennill gan CRhC ar gyfer yr holl wasanaethau a ddefnyddir.

Ers mis Mehefin 2023 rydym wedi ailgylchu 19 sach (190kg) o decstilau sydd wedi cael eu troi'n ynni, a 45 sach o bapur (mwy na ½ tunnell) sydd wedi cael eu troi'n gynhyrchion papur gwahanol fel cartonau wyau. Wrth gwrs, does dim posib ailgylchu popeth, ac mae angen cael gwared ar eitemau fel disgiau data DVD a phelydrau-X athletwyr a'u hardystio i safonau ISO a GDPR perthnasol.



## Panel Athletwyr Chwaraeon Cymru

Sefydlwyd y Panel Athletwyr i greu lle i leisiau athletwyr gael eu mynegi a'u clywed, ac i wrando arnynt yn y **tymor hir** ac roedd yn ymateb i'r adroddiad Dyletswydd o Ofal mewn Chwaraeon (2017) a gyflwynwyd gan Tanni Grey-Thompson i Lywodraeth y DU. Mae gan y Panel Athletwyr ddwy brif swyddogaeth:

i. Archwilio meysydd o ddiddordeb neu bynciau llosg a awgrymir gan athletwyr a nodi camau gweithredu y gall y panel eu cymryd neu eu codi.

ii. Cyflogeion Chwaraeon Cymru / rhanddeiliaid eraill i ofyn am bresenoldeb i ymgynghori â'r Panel ar syniadau / polisïau.

Er i ni gael ein cymell i ddenu panel amrywiol a gwneud y broses ymgeisio yn un fodern a chynhwysol, nid oedd y rhai a benodwyd gennym mor amrywiol ag yr oeddem wedi gobeithio. Cafodd y panel ei gyfarfod cyntaf ym mis Chwefror 2023 ac mae wedi cyfarfod 11 o weithiau gan drafod ystod eang o bynciau ar draws prosesau diogelu, cefnogi athletwyr sy'n ymddeol, adnoddau addysgol a'n prosiect athletwyr benywaidd.

Wrth symud ymlaen, mae gan y panel ddwy brif flaenoriaeth, sef mynd i'r afael yn gyntaf â'r diffyg amrywiaeth ar y panel. Un ffordd o roi sylw i hyn yw drwy gyflawni'r ail flaenoriaeth sef cysylltu'n well a hysbysebu bod y grŵp hwn yn bodoli. Gwneir hyn i ddechrau drwy sefydlu tudalen we Panel Athletwyr Chwaraeon Cymru, a fydd yn cael ei defnyddio ochr yn ochr â chyfryngau cymdeithasol i gysylltu a chynnwys athletwyr yn well yn y gwaith hwn. Byddwn yn pwysleisio bod croeso i farn pob athletwr. Y gobaith yw y bydd hyn yn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r panel a thynnu sylw at y pynciau mae'r panel yn eu trafod yn ei gyfarfodydd ac unrhyw effaith sy'n cael ei sicrhau.

# Cydweithredu gyda phartneriaid

Mae gweithio ar y cyd a dod â phobl at ei gilydd ar gyfer y **tymor hir** wedi bod wrth galon gwaith ein partneriaid ni sy'n cael eu cyllido'n genedlaethol ac sy'n cael eu Sbarduno gan Egwyddorion eleni.

Mae **Colegau Cymru** wedi parhau i ddatblygu eu perthynas â **Chwaraeon Anabledd Cymru** fel partneriaid digwyddiadau ar draws nifer o ddigwyddiadau chwaraeon mawr a gynlluniwyd drwy gydol y flwyddyn, gan dynnu sylw at bwysigrwydd cyfleoedd cwbl gynhwysol.

Maent hefyd wedi gweithio gyda **Tennis Bwrdd Cymru**, yr **Youth Sport Trust** a'r **Urdd** i ehangu cyfleoedd i fod yn actif mewn lleoliadau Addysg Bellach.

Cafwyd partneriaeth gyffrous rhwng **Sefydliad Dawns UDOIT!** a **Girlguiding Cymru**. Datblygwyd pecyn heriau dawnsio stryd i unedau Guides weithio drwyddo ac ennill bathodyn. Mae gan y pecyn heriau sy'n addas ar gyfer pob adran, o'r Rainbows drwodd i'r Rangers, ac mae wedi cael ei lawrlwytho fwy na 10,000 o weithiau.





# Ynni Gwyrdd yng Nghlwb Pêl Droed Glynebwy

Drwy osod paneli solar ar do eu hystafelloedd newid, mae aelodau Clwb Pêl Droed RTB Glynebwy yn credu eu bod wedi cymryd cam mawr tuag at ddiogelu eu dyfodol am genedlaethau i ddod. Yn ddiweddar dyfarnwyd cyllid Chwaraeon Cymru i'r clwb, a ddosbarthwyd gan y Cymru Football Foundation, i wneud y newid.

Mae'r paneli newydd yn cynhyrchu digon o drydan i redeg yr ystafelloedd newid heb fod angen trydan o'r prif gyflenwad. Mae unrhyw ynni dros ben yn cael ei storio mewn dau fatri lithiwm gyda'r ynni sy'n weddill yn cael ei werthu'n ôl i'r grid cenedlaethol. Dros oes y paneli solar o 20 mlynedd, amcangyfrifir y bydd y clwb yn arbed tua £70,000.

Bydd y clwb yn trosglwyddo'r arbedion ariannol hynny i'w aelodau drwy gadw cost y gweithgareddau'n isel, ac mae hefyd yn gobeithio rhoi cyfle i fwy o brosiectau cymunedol ddefnyddio ei gyfleusterau am ddim.

**Esboniodd y Swyddog Cyllid, Darren Mott:** "Gyda phrisiau ynni ar eu huchaf yn ystod y dydd, roedden ni'n gyfyngedig o'r blaen o ran faint o amser y gallem ni ei gynnig, ond rydyn ni nawr yn gallu agor ar gyfer defnydd mwy rheolaidd heb boeni am fil ynni enfawr."

Bydd y clwb pêl droed yn cysylltu ei system paneli solar â'i foeleri hefyd, gan leihau ei ddibyniaeth ar danwydd ffosil ymhellach, yn ogystal â dechrau gosod bylbiau LED ynni effeithlon yn lle'r goleuadau yn ei gyfleuster.

Yn ogystal â'r manteision o ran cost, mae'r agwedd amgylcheddol wedi bod yn bwysig i'r clwb hefyd, fel y dywedodd Darren: "Rydyn ni'n awyddus i leihau effaith y clwb ar yr amgylchedd ac rydyn ni eisiau rhannu'r buddion y gall cynaliadwyedd ynni eu cynnig gyda'n haelodau ni a'r gymuned. Mae'r paneli solar wedi dod yn destun siarad mawr ac yn ffordd wych o godi ymwybyddiaeth o faterion yn **ymwneud** ag ynni a newid yn yr hinsawdd, yn enwedig ymhlith ein haelodau iau ni."

# Dadansoddiad

Roedd gwahanol safbwyntiau ar hyn yn y grŵp adolygu ac roedd yn ymddangos bod rhywfaint o hyn yn **ymwneud** â dyfnder y cydweithio. Bydd staff Chwaraeon Cymru yn barod iawn i godi **cydweithredu** fel rhan bwysig o'r ffordd rydym yn gweithio, a gwelodd rhai aelodau o'r grŵp gynnydd gwirioneddol yn yr agwedd hon yn 2023-24. Roedd consensws bod **cydweithredu** yn parhau i fod yn faes ffocws, fodd bynnag, ar gyfer y rhai lle mae **cydweithredu** yn gofyn am fwy o ddyfnder, neu newid mwy arwyddocaol o ddulliau traddodiadol, teimlai rhai nad oedd y cynnydd a wnaed yn ddigon.

Mae gwaith cynaliadwyedd yn parhau i symud ymlaen yn raddol gyda gwaith galluogi ac mae buddsoddiad o fwy nag £1m yn y cynllun pwrpasol cyntaf ar gyfer arbed ynni a chynaliadwyedd yn garreg filltir bwysig. Nid yw'n glir pryd gallai'r symudiad ar i fyny ddigwydd pan fydd adrannau o'r sector chwaraeon (boed hynny'n CRhC neu niferoedd mwy o glybiau / safleoedd) yn ymrwymo i gynaliadwyedd fel blaenoriaeth yn y dyfodol.

Mae ymrwymiad parhaus Chwaraeon Cymru i ddata a dirnadaeth i'w weld yn natblygiad Dangosfwrdd yr Arolwg Chwaraeon Ysgol: mae'r dangosfwrdd yn galluogi rhanddeiliaid i archwilio data arolygon a gwneud penderfyniadau gwybodus. Bydd cynigion i integreiddio'r dangosfwrdd â 'Llyn Data' Chwaraeon Cymru yn rhoi mynediad i bartneriaid, ac yn wir rhanddeiliaid ehangach, at wybodaeth sy'n sail i ddulliau o gefnogi llesiant.

### Pethau y mae angen i ni eu hystyried a lle mae angen i ni fynd ymhellach

Ar adegau gall deimlo bod disgwyliad i ni ddal ati i sefydlu prosiectau newydd a rhoi cynnig ar rywbeth newydd. Fodd bynnag, gall datblygu a gwella gwaith presennol gael mwy o effaith.



# #5 Arddangos Manteision Chwaraeon

Mae tystiolaeth o effaith chwaraeon, ac mae cyrhaeddiad chwaraeon yn cael ei ddeall yn llawn, ei werthfawrogi, ei arddangos a'i ddathlu ledled Cymru.

**SYLW I**

## Elw cymdeithasol ar fuddsoddiad mewn chwaraeon

Buom yn **cydweithredu** â Chanolfan Ymchwil flaenllaw y Diwydiant Chwaraeon ym Mhrifysgol Sheffield Hallam i sefydlu Astudiaeth Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad newydd ar gyfer chwaraeon yng Nghymru. Mae'r ymchwil wedi helpu i fesur yr effaith y mae chwaraeon yn ei chael ar ansawdd bywyd gwell i bobl Cymru.

**Canfyddiadau allweddol:**

**£5.89bn**

**Gwerth cymdeithasol i Gymru**

Daw hyn drwy ystod o feysydd gan gynnwys iechyd, lles goddrychol, cyfalaf cymdeithasol a gwirfoddoli.

**£1.35bn**

**Wedi'i wario ar chwaraeon**

Am bob £1 sy'n cael ei gwario

**£4.44 o elw.**

**£621m**

**Manteision iechyd**

Mae manteision sylweddol o chwaraeon yn gysylltiedig ag **atal** iselder, poen cefn, clefyd cronig y galon, dementia, strôc, diabetes, a chanser.

Mae manteision ariannol uniongyrchol i'r GIG o **atal** anafiadau a salwch, ond hefyd effeithiau cynhyrchiant uwch a chydlyniant cymdeithasol drwy osgoi problemau.

**113,000 o achosion**

Mwy na 113,000 o achosion o salwch wedi'u hatal, ar draws y meysydd risg, yn 2021/22 oherwydd chwaraeon.

Daw hyn o ystadegau lle mae unigolion yn adrodd am well iechyd meddwl a lles oherwydd eu bod yn cymryd rhan mewn chwaraeon, naill ai fel cyfranogwr neu wirfoddolwr.

Archwiliwyd materion gwirfoddoli hefyd o ran y gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd. Mae cyfraniad gwirfoddolwyr drwy chwaraeon yng Nghymru yn enfawr.

**£430m**

**Wedi'i ddarparu mewn nwyddau i chwaraeon yng Nghymru.**

Mae'r ymchwil hwn wedi helpu i hyrwyddo rôl gwirfoddoli wrth i'r sector weithio i ddenu mwy o ymgysylltu yn dilyn pandemig Covid-19.

**£2bn**

Mae'r ymchwil yn amcangyfrif £2bn o gyfraniad gan chwaraeon at les goddrychol.

**(£2.87bn)**

Effaith sylweddol ar gyfalaf cymdeithasol.

Sy'n cynnwys gwerthoedd ar gyfer y rhwydweithiau sy'n cael eu creu drwy chwaraeon. Sefydlu effeithiau ar gyfer y llesiant gwell sy'n cael ei ysgogi gan y perthnasoedd hynny.

Mae'r adroddiad hwn yn taflu goleuni ar bŵer chwaraeon a sut mae'n chwarae rhan hanfodol wrth greu nid yn unig cenedl iach, ond cenedl hapus, hyderus a chysylltiedig. Mae Chwaraeon Cymru wedi, a bydd yn parhau i ddefnyddio'r canfyddiadau i gydweithio â phobl ym maes iechyd, addysg a thu hwnt i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd y gall cydweithio eu cynnig.

## Traciwr Gweithgarwch Cymru

Sefydlwyd 'Traciwr Gweithgarwch Cymru' (y cyfeiriwyd ato'n flaenorol fel arolwg 'ComRes') am y tro cyntaf ym mis Mai 2020 yn ystod cyfnod clo cenedlaethol cyntaf Covid-19. Helpodd yr arolwg ar-lein cenedlaethol cynrychioliadol ni i ddeall agweddau ac ymddygiad oedolion mewn perthynas â gweithgarwch corfforol ar adeg pan nad oedd arolygon wyneb yn wyneb yn opsiwn mwyach. Wrth wneud hynny, cynhyrchwyd gwybodaeth werthfawr a helpodd Chwaraeon Cymru a'i bartneriaid i lywio'r amrywiol risgiau a chyfleoedd a ddaeth i'w rhan yn ystod y cyfnod hwn o newid ac ansicrwydd mawr.

Bedair blynedd yn ddiweddarach ac rydym bellach wedi cynnal 11 ton o'r arolwg ac wedi cynyddu amledd y gwaith maes i roi gwybodaeth newydd i Chwaraeon Cymru a'i bartneriaid bob chwarter. Bydd contract newydd gyda Savanta a sefydlwyd yn 2023 yn golygu bod y broses arolygu hyblyg hon yn parhau tan 2026 a bydd yn rhoi mwy o gyfle i ni fonitro tueddiadau tymhorol. Dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf, yn ogystal â'n cwestiynau tracio craidd, rydym wedi archwilio pynciau perthnasol fel presgripsiynau cymdeithasol a gwirfoddoli, cynaliadwyedd amgylcheddol a chostau byw.

**Effaith costau byw:**

**2 o bob 5**

Oedolyn yn adrodd yn gyson am effaith negyddol ar eu gallu i fod yn actif o ganlyniad i gynnydd mewn costau byw.

(a 15% o oedolion yn nodi effaith negyddol sylweddol).

**1 o bob 3**

Tua 1 o bob 3 yn dweud eu bod yn gwneud llai o chwaraeon o ganlyniad.

**Gweithgarwch corfforol ar gyfer iechyd meddwl:**

Ers mis Ebrill 2023 rydym wedi gweld yn gyson gyfran uwch o oedolion yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol i reoli eu hiechyd meddwl, o gymharu â'r rhai sy'n cymryd rhan i reoli eu hiechyd corfforol.

**Cynaliadwyedd amgylcheddol:**

Dau o bob pump oedolyn (40%) yn dweud eu bod yn 'cymryd camau i weithredu'n gynaliadwy a lleihau'r effaith negyddol ar yr amgylchedd naturiol wrth gymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgarwch corfforol'.

Tra bo ychydig dros draean (35%) yn cytuno bod 'cynaliadwyedd amgylcheddol yn ffactor pwysig' iddyn nhw wrth ddewis pa chwaraeon neu weithgarwch corfforol i gymryd rhan ynddo.

Roedd oedolion iau (16 i 34 oed) a dynion yn fwy tebygol o gytuno â'r datganiadau hyn na'u cymheiriaid.

## Eiriolaeth

Gan dyfu ein rôl yn eiriol dros y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru a'r sector chwaraeon, rydym wedi datblygu ein hymgysylltiad â'r Senedd ymhellach a helpu ei Haelodau i ddeall yr heriau a wynebir gan y sector, yn ogystal â sut mae ein buddsoddiad yn gwneud gwahaniaeth ledled Cymru.

**Digwyddiad yn y Senedd Medi '23:**

Ym mis Medi, mynychodd ein Cadeirydd Tanni Grey-Thompson a'n Prif Swyddog Gweithredol Brian Davies y Senedd i gynnwys yr Aelodau o bob plaid wleidyddol yn ein gwaith. Yn ystod y digwyddiad dwy awr, buont yn ymgysylltu â mwy na hanner holl Aelodau'r Senedd ac roedd yn gyfle gwych i rannu rhai o flaenoriaethau allweddol Chwaraeon Cymru. Roedd hefyd yn gyfle i'r Aelodau weld faint o arian oedd wedi'i fuddsoddi mewn clybiau ar lawr gwlad yn eu hetholaethau, gyda sawl un yn dilyn hynny gydag ymweliadau â chlybiau yn eu hetholaethau.




**Ymweliadau Aelodau:**

Yn dilyn y digwyddiad ym mis Medi, mae sawl Aelod wedi **ymwneud** ag ymweliadau â chlybiau lleol ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys clwb bocsio yng Ngogledd Caerdydd, clwb tennis yn Arfon a chlwb gymnasteg yn Rhuthun. Mae pob ymweliad wedi cael adborth hynod gadarnhaol gan y ddau AS, a'r clybiau dan sylw. Mae'n rhoi profiad uniongyrchol i'r aelodau o'r gwahaniaeth cadarnhaol y mae buddsoddiad Chwaraeon Cymru yn ei wneud yn eu hardal leol ac yn rhoi cyfle i'r clybiau ymgysylltu'n rhagweithiol â'u haelod lleol a hefyd arddangos blaenoriaethau'r dyfodol.

**Datblygu perthnasoedd pwyllgor:**

Eleni hefyd ehangwyd ein perthynas ag ystod o bwyllgorau yn y Senedd. Gydag effaith chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn bellgyrhaeddol, gwnaethom benderfyniad ymwybodol i gynnwys nifer o bwyllgorau'r Senedd eu hunain er mwyn sicrhau bod chwaraeon yn cael eu hystyried ar gyfer y **tymor hir** wrth lansio ymchwiliadau newydd posibl. Yn ogystal â'n cysylltiad â'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol (CCWLSIR), buom hefyd yn ymgysylltu â'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a chyfrannu at sawl ymchwiliad.

Yn ogystal â datblygu perthnasoedd, cawsom hefyd nifer o gyfleoedd i ymddangos gerbron pwyllgorau fel ein sesiwn graffu flynyddol gyda phwyllgor CCWLSIR a gwahoddiad i roi tystiolaeth i Bwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Senedd ar gyfer eu hymchwiliad i ganolfannau hamdden a llyfrgelloedd lleol. Roedd yr adroddiad terfynol a'r ddadl yn nodi pwysigrwydd aruthrol canolfannau hamdden i weithgarwch corfforol cymunedau.

## Sefydliad Gwyddorau Perfformio Cymru (WIPS)

Mae Sefydliad Gwyddorau Perfformio Cymru (WIPS) yn bartneriaeth tair ffordd rhwng Chwaraeon Cymru, prif wyddonwyr chwaraeon academaidd Cymru a phartneriaid perthnasol yn y diwydiant. Diben WIPS yw cynnal prosiectau gwyddor perfformiad cymhwysol, amlddisgyblaethol sy'n flaenllaw yn y byd yn unol â strategaethau Chwaraeon Cymru i wella perfformiad athletwyr a busnesau Cymru, gwella'r llwybr perfformiad, a meithrin gallu yn y meysydd hyn ar gyfer y dyfodol. Yn ogystal, nod WIPS yw hyfforddi gwyddonwyr y dyfodol, a chynyddu **cydweithredu** strategol rhwng chwaraeon, y byd academaidd a busnesau yng Nghymru yn y **tymor hir**.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae WIPS wedi gweithio ar brosiectau gyda chwaraeon ledled Cymru, fel:

- **Y WISGYR (Goruchwylio Anafiadau mewn Rygbi Ieuenctid Merched yng Nghymru) –** mewn **cydweithrediad** â World Rugby ac Undeb Rygbi Cymru, mae'r prosiect ymchwil yn un o'r astudiaethau cyntaf yn fyd-eang i fynd i'r afael â'r diffyg gwybodaeth am risg o anafiadau sydd ar gael mewn rygbi i ferched ifanc, yn benodol yn y gêm gymunedol. Bydd yr ymchwil yn cael effaith fawr ar draws y byd rygbi: gwneud y gêm yn fwy diogel ac **atal** anafiadau; nodi risgiau lles i chwaraewyr benywaidd ifanc; ymchwilio i ffyrdd o leihau'r risgiau hyn ac wedyn datblygu a rhannu canllawiau arfer gorau.
- **Lles ac iechyd meddwl athletwyr elitaidd: astudiaeth achos gyfunol –** Ers yr Adroddiad Dyletswydd o Ofal mewn Chwaraeon, a ryddhawyd yn 2017 gan Tanni Grey-Thompson, bu sylw cynyddol i les ac iechyd meddwl athletwyr yn y DU. Bu'r prosiect ymchwil hwn yn gweithio gyda Jiwdo Cymru a Beicio Cymru i ddeall ffactorau allweddol sy'n effeithio ar les ac iechyd meddwl athletwyr perfformiad. Wedyn defnyddiodd y tîm o arbenigwyr y wybodaeth hon i greu adnoddau gyda'r nod o gefnogi a diogelu lles ac iechyd meddwl athletwyr.



SYLW I

# Y Rhaglen Cyfathrebu, Dysgu a Dirnadaeth (CLIP)

Eleni, mae CLIP wedi parhau i gynnig cyfleoedd dysgu llawn gwybodaeth a chraff i arweinwyr cyfathrebu yn y sector. Mae'r prosiect pwysig hwn yn cynnig cyfleoedd dysgu ac adnoddau am ddim i bartneriaid i gefnogi eu cyfathrebu, ochr yn ochr â rhannu canfyddiadau ymchwil a arweinir gan Chwaraeon Cymru.

Cynhaliwyd gwerthusiad blynyddol o'r rhaglen ym mis Ionawr 2023 i sicrhau ei bod yn diwallu anghenion ein partneriaid. Gofynnodd y rhwydwaith am fwy o gyfleoedd i gydweithredu a rhannu'r hyn a ddysgwyd ar draws y sector, cyfleoedd adborth un i un, a sicrhau bod pynciau'r sesiynau'n adlewyrchu'r sgiliau a'r wybodaeth y mae galw amdanynt gan y sector. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys sesiynau ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, cynaliadwyedd a digideiddio.

Eleni, roedd mwy na 400 yn bresennol ar draws 16 o sesiynau dysgu, gyda 90% yn dweud wrthym bod y sesiynau wedi bodloni neu ragori ar eu disgwyliadau. Cynhaliwyd tri digwyddiad dysgu 'hybrid' dwyieithog ar draws y wlad, gyda'r cyfranogwyr yn cael cyfle prin i siarad a herio ei gilydd o amgylch eu gwaith.

Yn fwyaf diweddar, rhoddodd ein Harddangosfa CLIP gyfle i'r rhwydwaith ddathlu eu gwaith ac edrych ymlaen at flwyddyn gyffrous iawn i chwaraeon. Bydd arweinwyr cyfathrebu'r sector yn parhau i chwarae rhan bwysig wrth eiriol dros y gwerth a'r buddion y mae chwaraeon yn eu sicrhau i gymdeithas yn ystod 2024-25.

Mae'r rhaglen hon yn ddull gwirioneddol **gydweithredol** o ddysgu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r tri maes - y wefan, cylchlythyr bob pythefnos a digwyddiadau dysgu – yn cael eu llunio ar sail mewnbwn ac anghenion y rhai sy'n defnyddio CLIP. Mae defnyddio dadansoddeg ddigidol, data digwyddiadau ac adborth ansoddol yn galluogi Chwaraeon Cymru i adeiladu ar enw da ac ansawdd y rhaglen. Boed yn dempled ar sut i ysgrifennu datganiad i'r wasg, mynediad i eirfa Gymraeg, nodiadau atgoffa am ddyddiau ac wythnosau ymwybyddiaeth pwysig neu fore o ddysgu mewn digwyddiad ar-lein – mae'r rhwydwaith yn gwerthfawrogi holl gefnogaeth am ddim CLIP i'r sector, ac mae hyn yn amlwg o ran faint o ymgysylltu mae'r rhaglen yn ei gael yn gyson dros y **tymor hir.**

## Arolwg Cenedlaethol Cymru – Chwaraeon a Ffyrdd o Fyw Actif

Yn hanesyddol mae Arolwg Cenedlaethol Cymru (ACC) wedi cynnwys tua 12,000 o bobl bob blwyddyn yn cael eu harolygu ar ystod eang o bynciau. Mae'n rhedeg drwy gydol y flwyddyn, ledled Cymru.

Fe wnaethom gyhoeddi canlyniadau manwl diwethaf ACC ar y pwnc 'chwaraeon a ffyrdd o fyw actif' ym mis Tachwedd 2023. Mae'r canfyddiadau'n datgelu ffactorau sy'n effeithio ar lefelau gweithgarwch oedolion a sut mae hyn yn newid gydag oedran neu oherwydd demograffeg.

**Mae'r canlyniadau diweddaraf wedi dangos:**

**2 filltir**

Mae'r rhan fwyaf o oedolion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ffitrwydd fel rhedeg neu loncian, beicio, nofio, neu gerdded mwy na 2 filltir.

Pa mor aml mae pobl yn actif (39% wedi cymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgarwch corfforol deirgwaith neu fwy yr wythnos).

**39%**

o bobl yn cymryd rhan mewn chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos. (I fyny o 34% yn 2021-22).

Mae'r canfyddiadau hefyd yn cyfeirio at y mathau o weithgareddau y mae pobl eisiau eu gwneud yn amlach, a all ein helpu ni i ddeall sut gallwn gael mwy o bobl i fod yn actif yn y dyfodol. Maent yn cael eu defnyddio i gefnogi buddsoddiad Chwaraeon Cymru sy'n cael ei 'sbarduno gan ddata' mewn chwaraeon ledled Cymru, a chyhoeddir y canlyniadau fel Ystadegau Swyddogol ac fel Dangosydd Cenedlaethau'r Dyfodol cenedlaethol.



Wrth symud ymlaen, bydd yr arolwg hefyd yn cynnwys cwestiynau am agweddau tuag at weithgarwch corfforol, gwirfoddoli mewn chwaraeon, rhwystrau i gyfranogiad yn y dyfodol, lefel y cyfranogiad (hamdden, amatur, lled-broffesiynol / proffesiynol), mynediad at gyfleusterau chwaraeon addas, a phresenoldeb mewn digwyddiadau chwaraeon fel gwyliwr. Cyhoeddir y canlyniadau o Haf 2025 ymlaen.

**Roedd cyfranogiad cyson mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn gysylltiedig â lefelau uwch o les meddyliol.**



# Dadansoddiad

Gydag adnewyddu ymchwil SROI a rhaglen ymgysylltu sylweddol ag Aelodau'r Senedd ac eiriolaeth polisi, mae Chwaraeon Cymru wedi rhoi sylw i ddau ddarn mawr o waith a ddylai fod o fudd i'r gwaith hwn dros y flwyddyn sydd i ddod.

Gofynnodd y cylch adolygu am enghreifftiau o negeseuon Chwaraeon Cymru yn cael eu defnyddio gan sefydliadau eraill fel arwydd bod y sefydliadau hynny'n gwerthfawrogi chwaraeon a bod ein gwaith arddangos ac eiriolaeth wedi bod yn effeithiol. Hyrwyddodd Cymdeithas Chwaraeon Cymru ymchwil SROI yn gadarn drwy ei rhwydweithiau gyda datganiad i'r wasg manwl ar yr adroddiad.

Mae adroddiad Llywodraeth Cymru: Llesiant meddwl (Arolwg Cenedlaethol Cymru): Ebrill 2022 - Mawrth 2023 yn dangos rôl gadarnhaol cyfranogiad chwaraeon rheolaidd mewn gwell lles meddyliol.

## Pethau y mae angen i ni eu hystyried a lle mae angen i ni fynd ymhellach

Gallwn fod yn rhy ostyngedig, ac weithiau nid ydym yn hyderus i awgrymu ein gwaith i bartneriaid neu randdeiliaid fel gwaith rhagorol a allai fod o fudd i'w rhwydweithiau.

# #6 Sefydliad O Werth Mawr

Mae Chwaraeon Cymru yn sefydliad uchel ei barch, sy'n ymdrechu i orgyflawni drwy ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf drwy ein staff gwerthfawr.

## Cydweithio ar gyfer y tymor hir

Yn haf 2023, cynhaliodd WRAP Cymru Adolygiad Aeddfedrwydd Caffael Cynaliadwy o'n gwaith caffael. Roedd argymhellion o dan chwe thema yn nodi gwaith y gallwn ei wneud i ymgorffori cynaliadwyedd yn ein gweithgarwch caffael.

Mae fersiwn wedi'i hadnewyddu o Strategaeth Gaffael Chwaraeon Cymru yn cael ei datblygu i adlewyrchu ein huchelgeisiau ynghylch caffael gwasanaethau, cyflenwyr a gwaith sy'n gymdeithasol gyfrifol ac yn gynaliadwy.

Mae diwygiadau sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd i'w gwneud i'r Polisi Caffael a'r templed tendro, yn barod i'w rhoi ar waith yn 2024.

Ar hyn o bryd rydym yn rhan o **gydweithrediad** gydag Amgueddfa Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro sydd â'r nod o ddatblygu canllawiau sy'n cefnogi caffael mwy cynaliadwy, yn enwedig mewn meysydd gwariant uchel yn y tri sefydliad. Unwaith bydd y prosiect wedi dod i ben, byddwn yn gweithredu'r canllawiau drwy gynnwys staff fel sail i'r dull gorau o roi pethau ar waith.



## Lansio Pecyn Adnoddau'r Gyngres Chwaraeon, yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd (SECC) ar gyfer y Sector Chwaraeon

Mae Chwaraeon Cymru yn aelod o'r Gyngres Chwaraeon, yr Amgylchedd a'r Hinsawdd (SECC) gydag amrywiaeth o bartneriaid o bob rhan o'r DU. Yn ystod y flwyddyn, bu Chwaraeon Cymru yn **cydweithredu** ag aelodau'r grŵp hwn i ddatblygu pecyn adnoddau dwyieithog gyda'r nod o gefnogi'r sector gyda chynaliadwyedd yn y **tymor hir**. Mae'r cynnwys hwn ar gael am ddim ar wefan BASIS, gan alluogi defnyddwyr i 'gael cipolwg' ar gynnwys sy'n briodol iddynt yn unol â'u blaenoriaethau a lefel eu profiad. Mae data'n dangos bod y cynnwys yn cael ei ddarllen, gan gynnwys drwy gyfrwng y Gymraeg. O ystyried cyflymder y newid yn y maes hwn, mae grŵp SECC wedi ymrwymo i adolygu'r ddogfen unwaith y flwyddyn o leiaf.

## Darparu darpariaeth gyflogres gyda chymhorthdal i'n CRhC

Yn ystod 2023-24, aildendrodd Chwaraeon Cymru am ddarparwr ar gyfer ei ddarpariaeth gyflogres gyda chymhorthdal. Mae'r ddarpariaeth hon yn enghraifft o wasanaeth a rennir, sy'n cael ei gyllido gan Chwaraeon Cymru, sydd ar gael i Gyrff Rheoli Cenedlaethol (CRhC). Ar hyn o bryd mae 20 CRhC yn elwa o'r gwasanaeth hwn, sy'n cwmpasu tua 350 o gyflogeion.

Mae'r gwasanaeth a rennir yma'n sicrhau bod ein partneriaid yn elwa o gyngor ac arweiniad ynghylch materion fel cofrestru awtomatig, Tâl Salwch Statudol, Tâl Mamolaeth Statudol ac ati. Mae'r gwasanaeth hwn yn cefnogi ein partneriaid i fod yn sefydliadau o werth mawr, cydymffurfio â'u gofynion statudol ac mae'n lleihau baich gweinyddol ac ariannol y gyflogres.

Cafodd y gwasanaeth a rennir hwn sy'n rhagweithiol ac yn **ataliol** ei dendro ar gontract 5 mlynedd cychwynnol o fis Tachwedd 2023 ymlaen, a hyd yma mae gwahanol ffyrdd o weithio wedi cael eu cyflwyno, ynghyd â mireinio holl ddata'r CRhC, gan arwain at gofnodion cyflogres symlach a chywirach heb unrhyw gost i'n CRhC.

## Ceir Cronfa Cerbydau Trydan - Cost ac Ôl Troed Carbon

Mae Chwaraeon Cymru wedi buddsoddi mewn fflyd fechan o gerbydau hybrid neu gwbl drydanol. Mae data ar gyfer cyfnod sampl o bedwar mis yn dangos bod hyn wedi sicrhau gostyngiad mewn costau rhedeg ac allyriadau carbon.

**Costau -** Gostyngwyd cost rhedeg Car Cronfa y filltir o 52%. Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 62% mewn costau o gymharu â hawliadau teithio a chynhaliaeth cyfredol ar gyfer siwrneiau a wneir mewn ceir sy'n eiddo i'r staff.

**Carbon -** Gostyngiad mewn $CO_2$ o 15,597.56Kg$CO_2$e wrth gymharu'r un cyfnodau.

# Gwerthfawrogi ein staff ac arwain drwy esiampl

### Sefydlu rhwydwaith o Hyrwyddwyr Menopos ar draws Chwaraeon Cymru

Mae hyrwyddwyr menopos ymroddedig wedi cael hyfforddiant **cydweithredol** mewn meysydd fel addasiadau gweithlu, maeth, hormonau ac ymarfer corff i gefnogi staff Chwaraeon Cymru yn well. Rydym hefyd wedi darparu sesiynau hyfforddi pwrpasol i'r holl staff drwy gydol Mis Ymwybyddiaeth y Menopos.

### Cynhyrchion mislif am ddim ar gael ym mhob rhan o Ganolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru

Buom yn gweithio gyda Hey Girls i osod peiriannau dosbarthu cynhyrchion mislif yn yr holl doiledau ac ystafelloedd newid yng Nghanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru. Y nod oedd cefnogi staff a defnyddwyr y Ganolfan a chwarae rhan wrth fynd i'r afael â thlodi mislif yn y **tymor hir**. Does dim plastig yn y cynhyrchion ac maent wedi dod o ffynonellau cyfrifol.

### Fframwaith Perfformiad Sefydliadol

Cynhaliwyd adolygiad mawr o'n Fframwaith Perfformiad eleni er mwyn cefnogi a datblygu pobl yn well i'w galluogi i gyflawni eu perfformiad gorau yn y gwaith. Y nod oedd sicrhau cydbwysedd priodol rhwng strwythur a hyblygrwydd.

Lansiwyd y Fframwaith Perfformiad newydd ym mis Mai 2023. Defnyddiwyd fideo a sesiynau Holi ac Ateb fel ffordd o gynnwys staff yn y dull newydd o weithredu a darparwyd adnoddau a thempledi ategol drwy fewnrwyd y staff.

Mae'r Fframwaith yn defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o weithredu, gan alluogi unigolion i deilwra'r trafodaethau perfformiad i anghenion a dyheadau unigol. Mae'n dibynnu ar sgyrsiau adlewyrchol rheolaidd (yn hytrach nag arfarniad unwaith y flwyddyn) ynghylch lles, pennu amcanion, adborth, ymddygiad a datblygiad personol parhaus. Mae gan bob un o'r meysydd hyn dempled ategol gydag awgrymiadau sgwrsio a disgwylir i bob maes gael sylw yn ystod y flwyddyn. Yn unol â'n hymrwymiad i fod yn sefydliad sy'n dysgu, cynhelir adolygiad o'r Fframwaith.

### Cyfathrebu Materion Cyhoeddus

Yn ystod y flwyddyn mae ein gwybodaeth fewnol a'n diweddariad polisi wedi cael eu haddasu a'u symleiddio, ac am y tro cyntaf cafodd diweddariad allanol ei dreialu gyda phartneriaid dethol. Mae'r diweddariadau hyn yn canolbwyntio ar rai o'r materion allweddol sydd wedi bod yn effeithio ar y sector yn y byd gwleidyddol, pam ei bod yn bwysig i bartneriaid fod yn ymwybodol ac unrhyw gamau nesaf allweddol. Rydym hefyd wedi estyn allan at Aelodau Cymru yn Senedd y DU a Thŷ'r Arglwyddi i'w cynnwys yng ngwaith Chwaraeon Cymru sy'n effeithio ar eu hetholwyr.




SYLW I

# Arolwg a fforwm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Staff

Cynhaliwyd ein harolwg diwethaf yn 2021 a defnyddiwyd yr un cwestiynau a methodoleg gyda rhai ychwanegiadau. Cynhaliwyd yr arolwg hwn yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2023 a thynnodd sylw at gynnydd sylweddol o ran sicrhau bod Chwaraeon Cymru yn lle cynhwysol i weithio ynddo. Nododd hefyd fod staff bellach yn llawer mwy tebygol o roi gwybod am weithredoedd o wahaniaethu ac yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i herio cydweithwyr neu gontractwyr eraill pe bai sylwadau neu ymddygiad amhriodol.

Roedd yr arolwg hefyd yn nodi bod angen mwy o waith i fabwysiadu agwedd gynhwysol at ddigwyddiadau cymdeithasol staff, i wella amrywiaeth mewn swyddi arwain, i ymateb i anghenion staff fel darparu ystafell ffydd (agorwyd ystafell o'r fath ym mis Mawrth 2024) ac i greu amgylchedd cefnogol a diogel lle gall pobl ddysgu. Cwblhaodd 77 o'n 151 aelod o staff parhaol / tymor penodol ni yr arolwg, sy'n lefel dda o **ymwneud** gan y staff.

## Fforwm EDI - Hyfforddiant Gwylwyr Gweithredol

Roedd yr hyfforddiant hwn yn canolbwyntio ar ddatblygiad personol cydweithwyr i ystyried sut gallant fynd i'r afael â chamau gweithredu a sylwadau amhriodol yn y gweithle. I gefnogi **atal** ymddygiad amhriodol a gwahaniaethu, cyflwynwyd opsiynau gwahanol i gydweithwyr o ran sut gallent dynnu sylw, dirprwyo neu fynd i'r afael yn uniongyrchol â sylwadau neu gamau gweithredu a sicrhaodd hyn bod yr hyfforddiant yn berson-ganolog, oherwydd gallai'r staff ddefnyddio'r opsiwn oedd yn teimlo'n iawn iddyn nhw.

Darparwyd cyfleoedd i ymarfer y sgiliau mewn amgylchedd cefnogol a chafodd y cynnwys ei deilwra hefyd i gydweithwyr sy'n gweithio ar batrymau shifft, fel bod mwy na 60 o aelodau o staff yn cymryd rhan yn yr hyfforddiant hwn.




## Dysgu a chefnogaeth EDI staff: Sgyrsiau Caffi

Mae sesiynau trafod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant misol wedi cael eu datblygu ac maent yn cynnwys pynciau a godwyd gan gydweithwyr lle gwahoddir yr holl staff i gymryd rhan mewn trafodaeth a sgwrs am faterion cyfiawnder cymdeithasol perthnasol. Mae hyn wedi helpu i feithrin diwylliant o ddeialog agored, dadl, empathi a dealltwriaeth ac wedi annog **ymwneud** gan bawb yn y sefydliad â thrafodaethau EDI a dangos iddynt y gallant gyfrannu at bennu'r agenda.

Bydd y sesiwn Sgyrsiau Caffi yn parhau fel rhan allweddol o'r cynnig dysgu i'r gweithlu. Mae opsiynau gwahanol yn cael eu treialu i gydweithwyr ymuno â sesiynau o bell a chadw gofod cefnogol a diogel yn y cyfarfodydd.

## Lansio Canllaw Iaith Gynhwysol

Eleni rydym wedi tanlinellu ein hymrwymiad i feithrin amgylchedd chwaraeon cwbl gynhwysol gyda lansiad ein Canllaw Iaith Gynhwysol newydd. Gan gydnabod effaith cyfathrebu cyson a pharchus, mae'r canllaw yn rhoi sylw i anghysondebau blaenorol a nodwyd yn y sefydliad. Gallai'r anghysondebau hyn, yn enwedig o ran terminoleg ar gyfer hunaniaethau amrywiol, eithrio unigolion yn anfwriadol.

Wedi'i ddatblygu gan ystyried ymgynghoriadau **cydweithredol** â rhanddeiliaid ledled y wlad, mae'r Canllaw yn rhoi argymhellion ymarferol i staff ar gyfer cyfathrebu cynhwysol ar draws amrywiol ddemograffeg. Drwy roi'r canllawiau hyn ar waith, ein nod ni yw sicrhau bod pob rhyngweithio'n groesawgar ac yn hybu ymdeimlad cadarn o berthyn i bawb sy'n **ymwneud** â chwaraeon.

Roedd y lansiad yn ymestyn y tu hwnt i gyflwyno dogfen yn unig. Roedd gweithdai rhyngweithiol yn cynnwys staff ac yn hwyluso dealltwriaeth o egwyddorion y canllaw, gan feithrin cyfrifoldeb ar y cyd am greu amgylchedd mwy cynhwysol. Gan gydnabod natur esblygol iaith, rydym yn addo adolygu a diweddaru'r canllaw yn rheolaidd. Mae'r ymrwymiad hwn yn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn adnodd gwerthfawr ar gyfer meithrin tirlun chwaraeon sy'n groesawgar i bawb.





# Ar y trywydd iawn i ddarparu gwell cefnogaeth i athletwyr ifanc

Yn y cam diweddaraf tuag at system chwaraeon fwy cynhwysol, lansiodd ein tîm Cryfder a Chyflyru gwrs fforddiadwy newydd sbon a all wneud gwahaniaeth mawr yn ein barn ni i chwaraeon yng Nghymru – cymhwyster lefel mynediad, galwedigaethol mewn cryfder a chyflyru, ar gyfer hyfforddwyr chwaraeon, athrawon Addysg Gorfforol ac eraill sy'n gweithio gydag athletwyr ifanc.

Y pwrpas yw addysgu pobl ifanc am sut i symud eu cyrff yn effeithiol - neidio a glanio, cydbwyso, sbrintio a newid cyfeiriad. Mae'r rhain yn cael eu hystyried yn eilradd yn aml i ddysgu technegau a thactegau penodol i chwaraeon ar lefel llwybr ac ar lawr gwlad yn y byd chwaraeon. Fodd bynnag, pan fyddwch hefyd yn ystyried dylanwad negyddol gemau fideo a chyfryngau cymdeithasol ar allu athletig pobl ifanc heddiw, mae hyn yn arwain at lawer o athletwyr ifanc yn trosglwyddo i chwaraeon perfformiad heb y sgiliau symud sylfaenol sydd arnynt eu hangen i ffynnu.

Yn ogystal, mae gofynion chwaraeon lefel uchel yn rhoi pwysau cynyddol ar hyfforddwyr ac athletwyr i hyfforddi'n galetach ac am gyfnod hwy, felly mae cyfraddau anafiadau a'r rhai sy'n rhoi'r gorau iddi yn uwch nag erioed. Mae athletwyr ifanc benywaidd yn arbennig mewn mwy o berygl o anafiadau sy'n bygwth gyrfa, fel rhwygo ligament y pen-glin ACL - un o'r prif resymau dros roi'r gorau i chwaraeon.

Mae'r cymhwyster galwedigaethol Lefel 3, a sefydlwyd gan Gymdeithas Cryfder a Chyflyru y DU, yn galluogi'r ymgeisydd llwyddiannus i gael yswiriant llawn i ddarparu hyfforddiant cryfder a chyflyru er mwyn gwella perfformiad ac **atal** anafiadau.



# Dadansoddiad

Mae Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru yng Nghaerdydd wedi parhau i geisio asesiad annibynnol o'i gweithrediadau. Ar gyfer 2023-24, roedd hyn yn cynnwys ymwelydd dirgel bob deufis, yn newid rhwng aros yn y llety ac ymuno fel aelod a defnyddio'r cyfleusterau. Graddiodd y cwmni allanol, Proinsight, y gwasanaethau ar gyfartaledd o 95% ar draws y 6 ymweliad.

Archwilio Mewnol: Mae Chwaraeon Cymru wedi cael sgôr Sicrwydd Sylweddol flynyddol gyffredinol bob blwyddyn ers 2015-16. O ran ennill gradd Sicrwydd Sylweddol flynyddol gyffredinol, mae hyn yn anodd iawn ei gyflawni, yn fwy fyth felly dros gyfnod mor estynedig o amser.

Mae UK Sport wedi cydnabod arweinyddiaeth meddwl ac ymarfer Chwaraeon Cymru mewn perthynas ag iechyd athletwyr benywaidd a pherfformiad ac iechyd Paralympaidd.

## Pethau y mae angen i ni eu hystyried a lle mae angen i ni fynd ymhellach

Mae rhai timau a swyddogaethau yn ceisio adborth strwythuredig ar eu gwaith neu wasanaethau; a ddylai hyn fod yn angenrheidiol ar gyfer pob tîm / swyddogaeth? Fel arall, a ddylid ystyried arolwg annibynnol rheolaidd o farnau ar sut caiff Chwaraeon Cymru yn ei gyfanrwydd ei werthfawrogi?

# Adrodd ar Safonau'r Gymraeg

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sefydlu fframwaith cyfreithiol i bennu dyletswyddau i bersonau gydymffurfio â safonau statudol mewn perthynas â'r Gymraeg. Disodlodd y Safonau Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Ar ôl cyfnod o ymgynghori rhwng Chwaraeon Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg, daeth Safonau Cymraeg newydd i rym ar gyfer Chwaraeon Cymru ar 25ain Ionawr 2017.

Mae'r adran hon yn asesu ein perfformiad yn erbyn ein Safonau Cymraeg, ac yn rhoi manylion y gwaith partneriaeth rydym wedi'i gwblhau dros y 12 mis diwethaf. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn cyflawni'r dyletswyddau sy'n cael eu pennu i ni ac yn cydnabod y rôl bwysig y gall chwaraeon ei chwarae wrth gefnogi datblygiad yr iaith Gymraeg yn y gymuned.

## Y Gymraeg mewn Chwaraeon

Mae Chwaraeon Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg (CIG) wedi parhau â'u partneriaeth i gefnogi ac annog sefydliadau cenedlaethol yn y sector chwaraeon i ehangu eu cynigion Cymraeg. Mae Chwaraeon Cymru yn gweld y gwaith hwn fel rhan bwysig o'n dyletswyddau iaith Gymraeg drwy annog datblygu a hyrwyddo mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg i gymryd rhan mewn chwaraeon.

Sicrhaodd Cyrff Rheoli Chwaraeon Cenedlaethol (CRhC) cyntaf Cymru gydnabyddiaeth Cynnig Cymraeg Comisiynydd y Gymraeg yn 2023.

Sicrhaodd Triathlon Cymru ac Undeb Rygbi Cymru y dyfarniad i nodi eu hymrwymiad i'r Gymraeg ac i ymestyn eu gwasanaethau Cymraeg. Mae CRhC eraill a Phartneriaid Cenedlaethol yn gweithio tuag at yr achrediad hwn ac mae staff Chwaraeon Cymru yn defnyddio'r broses Beth Sy'n Bwysig gyda'n partneriaid i dracio parodrwydd a gweithio mewn partneriaeth gyda'n cydweithwyr yn swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

**Yr Urdd:** Fel rhan allweddol o'n hymrwymiad i'r Gymraeg mae Chwaraeon Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â'r Urdd ac yn buddsoddi yn rhaglenni helaeth y mudiad i gyflwyno cyfleoedd Cymraeg mewn chwaraeon a hamdden. Mae crynodeb o rai o lwyddiannau'r Urdd yn 2023-24 yn cynnwys:

- Darpariaeth allgyrsiol o glybiau a gweithgareddau.
- Darpariaeth gymunedol drwy gydweithredu â nifer o bartneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Clybiau cymunedol penodol i chwaraeon; Clybiau aml-chwaraeon; Ymgysylltu â theuluoedd drwy chwaraeon a Llythrennedd Corfforol; #FelMerch – prosiectau cyfranogiad merched a genethod; Prosiectau gwaddol – ar ôl digwyddiadau cenedlaethol fel rygbi 7 bob ochr yn cyflwyno prosiectau gyda ffocws cymunedol; Prosiectau wedi'u targedu yn **ymwneud** ag amrywiaeth, cynhwysiant ac iaith.
- Darpariaeth genedlaethol o weithgareddau gwyliau, gan gynnwys: Gwersylloedd aml-chwaraeon wythnosol; Gwersylloedd chwaraeon penodol yn gweithio ar ddatblygu sgiliau; Ymgysylltu â theuluoedd – amrywiaeth o weithgareddau mewn Canolfannau Hamdden a Pharciau; fforymau a gweithgareddau #FelMerch; Prosiectau partneriaeth h.y. Fit, Fed and Fun gydag URC.
- **Cydweithredu** ar brosiectau Cynhwysiant gyda Chwaraeon Anabledd Cymru a phartneriaid eraill ledled Cymru.
- Darpariaeth Dysgu Nofio Cyfrwng Cymraeg yn cael ei chyflwyno ar draws Caerdydd a'r Fro a RhCT, a gyda ffocws i ddatblygu'r ddarpariaeth ymhellach ar draws Pen-y-bont ar Ogwr, Casnewydd a Wrecsam.
- Cystadlaethau a Digwyddiadau: Digwyddiadau Rhanbarthol – Ysgolion Cynradd; Digwyddiadau cenedlaethol a rhanbarthol – Ysgolion Uwchradd a Cholegau; Cyfleoedd dysgu rhyngwladol; Partneriaeth Chwarae yn y Gymraeg / Cwpan Rygbi'r Byd.

Mae Chwaraeon Cymru wedi helpu Mentrau Iaith Cymru i gysylltu â phartneriaid darparu i roi menter newydd ar waith i gefnogi cyflogadwyedd pobl ifanc mewn ardaloedd lle mae dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg er mwyn darparu cyfleoedd chwaraeon.

## Marchnata, cyfathrebu a digidol

Mae ein holl gynnwys e-gyfathrebu a chyfryngau cyhoeddus yn parhau i gael ei gynhyrchu'n ddwyieithog, gyda newidiadau diweddar yn ei wneud yn fwy apelgar i gynulleidfa Gymraeg, fel newidiadau fformatio i wneud i gynnwys Cymraeg fod yn amlwg ar amrywiaeth o ddyfeisiau. Cynhyrchir unrhyw gylchlythyrau i bartneriaid yn gwbl ddwyieithog hefyd.

Mae ein cyfrifon Twitter a Facebook Cymraeg wedi gweld cynnydd sylweddol mewn rhyngweithio ac ymgysylltu.

Ar gyfryngau cymdeithasol rydym hefyd yn integreiddio ymadroddion Cymraeg, fel 'Llongyfarchiadau' a 'Pob Lwc' yn ein cynnwys Saesneg er mwyn annog eraill i ddefnyddio'r iaith wrth ddathlu chwaraeon yng Nghymru.

Cynhyrchodd tîm Cyfathrebu Chwaraeon Cymru gynnwys o ansawdd uchel (fideo ac erthyglau ar gyfer ein gwefan a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol) am Glwb Pêl Rwyd Llewesau Llambed. Gyda mwy na 75% o'u haelodau yn siaradwyr Cymraeg a 10% arall yn dysgu, mae Llewesau Llambed yn cynnig pêl rwyd yn y Gymraeg a'r Saesneg. Er mwyn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yr ardal yn gallu cael mynediad at bêl rwyd yn eu hiaith gyntaf, gwnaeth y clwb gais llwyddiannus i Gronfa Cymru Actif Chwaraeon Cymru i gynyddu nifer eu hyfforddwyr a'u dyfarnwyr sy'n siarad Cymraeg drwy gyrsiau hyfforddi.

Yn ein cyfathrebu mewnol, rydym yn parhau i integreiddio ymadroddion Cymraeg, fel 'sgwrs tîm' yn ein cylchlythyrau wythnosol a misol er mwyn annog y staff i ddefnyddio'r iaith. Rydym hefyd wedi cynnwys y 'Clwb Cymraeg' sydd wedi'i ffurfio yn ddiweddar gan aelodau o staff sy'n dysgu Cymraeg er mwyn rhoi cyfle i ddysgwyr a siaradwyr rhugl ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg yn anffurfiol.

Rydym yn parhau i ddysgu llawer am ein defnyddwyr CLIP (y Rhaglen Cyfathrebu, Dysgu a Dirnadaeth) a sut mae'n nhw'n ffafrio dysgu a sut dylem gyfathrebu â hwy.

Mae'r camau a gymerwyd eleni i wella'r gwasanaeth Cymraeg yn y rhaglen yn cynnwys y canlynol:

- Mae ein cylchlythyr bellach yn gwbl ddwyieithog, dim ots beth yw'r dewis iaith a nodir wrth gofrestru.
- Rydym wrthi'n sicrhau bod ein holl adnoddau rhaglen ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ar dudalennau gwe CLIP (dim ots beth yw'r dewis iaith a nodir wrth gofrestru) gan gynnwys fideos wedi'u recordio o sesiynau dysgu.
- Rydym wedi gwella'r cynnig Cymraeg ar gyfer digwyddiadau CLIP gan ddefnyddio hwyluswyr dwyieithog a chyfieithu ar y pryd yn ôl yr angen. Rydym hefyd yn recordio'r ddwy iaith ac yn dosbarthu'r ffilm i'r mynychwyr a defnyddwyr ehangach, i'w gwylio'n ôl. Mae'r cam hwn wedi cael croeso da gan y mynychwyr, sydd wedi nodi eu bod yn gwerthfawrogi'r cynnig mewn egwyddor oherwydd eu bod yn teimlo'n fwy cyfforddus yn defnyddio ac yn gwrando yn y Gymraeg.
- Fe wnaethom dreialu model cyflwyno newydd mewn digwyddiad CLIP hybrid yn Wrecsam ym mis Tachwedd 2023. Roedd mwyafrif y panel yn siarad Cymraeg gan gynnwys y cyflwynydd. Yn ogystal, mae llawer o'r rhai sy'n ymuno ar-lein ac wyneb yn wyneb yn gofyn am brofi'r digwyddiad yn y Gymraeg. Felly, fe wnaethom dreialu sesiwn ddwyieithog. Byddai'r cyflwynydd yn newid y sgwrs o'r Saesneg i'r Gymraeg ac i'r gwrthwyneb, yn dibynnu ar bwy oedd yn siarad.

## Cyllid Grant

Rydym yn gweithio'n rhagweithiol i ddatblygu chwaraeon i bobl yn ddwyieithog drwy ein cynlluniau buddsoddi.

## Cronfa Cymru Actif

O blith y 589 o ddyfarniadau a wnaed o Gronfa Cymru Actif, roedd 21 i sefydliadau a ddywedodd eu bod yn darparu eu gweithgarwch chwaraeon yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg, a dywedodd 158 o sefydliadau pellach eu bod yn defnyddio'r Gymraeg yn rhannol.

Dangosir effaith gyfunol y 179 o ddyfarniadau ar y clybiau a oedd yn bwriadu naill ai dechrau neu gynyddu eu darpariaeth o gyfleoedd chwaraeon gan ddefnyddio'r Iaith Gymraeg yn y tabl isod:

| Gweithgarwch yn y Gymraeg mewn ceisiadau a ddyfarnwyd yn 2023-24: | |
|---|---|
| Nifer y sesiynau a gyflwynwyd yn y Gymraeg (yn gyfan gwbl) | **1,536** |
| Nifer yr Hyfforddwyr Cymraeg (llwyr) | **309** |
| Nifer y sesiynau a gyflwynwyd yn y Gymraeg (yn rhannol) | **309** |
| Nifer yr Hyfforddwyr Cymraeg (rhannol) | **807** |

## Ein dyletswyddau

Mae'r effaith bosibl ar y rhai sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn cael ei hystyried a'i chrynhoi fel adran safonol o Asesiad Effaith Chwaraeon Cymru a thempledi papurau'r Bwrdd. Mae hyn yn golygu bod angen ystyried yr effeithiau hyn fel rhan o bob newid newydd, neu newid arwyddocaol, mewn polisi ac fel rhan o ysgrifennu pob papur bwrdd.

Mae Chwaraeon Cymru yn rhan o Bartneriaeth Cydraddoldeb Cyrff Cyhoeddus Cymru, sef grŵp o sefydliadau sector cyhoeddus (gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg) sydd wedi ymrwymo i gydweithio ar faterion cydraddoldeb. Mae Chwaraeon Cymru wedi datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer y cyfnod 2024-2028, gan ymgysylltu'n weithredol â'r Bartneriaeth. Mae ein hamcanion wedi'u teilwra i anghenion penodol Chwaraeon Cymru a'n cymunedau ond maent yn parhau i fod yn gysylltiedig ag amcanion cyffredinol y Bartneriaeth. Bydd gweithredu'r amcanion hyn hefyd yn cynnwys camau gweithredu cadarnhaol ar gyfer yr Iaith Gymraeg i gynyddu amrywiaeth, yn ogystal â'r naw nodwedd warchodedig.

## Cydymffurfio â'r safonau

At ddiben yr adroddiad hwn, byddwn yn darparu crynodeb o'r camau a gymerwyd i gadw at 'Ddosbarth o Safonau' fel Darparu Gwasanaethau, Llunio Polisïau a Gweithredol. Nid yw'r adroddiad hwn yn hollgynhwysfawr o gwbl ac nid yw'n darparu diweddariad am sut rydym yn cadw at bob safon sy'n berthnasol i ni ond ei nod yw rhoi cipolwg i'r cyhoedd a'r Comisiynydd ar y camau sydd wedi'u cymryd i gydymffurfio â'r safonau.

## Darparu gwasanaethau

Mae'r holl arwyddion yn ein dwy Ganolfan Genedlaethol ac yn ein digwyddiadau yn ddwyieithog. Mae arwyddion pwrpasol newydd wedi'u prynu i sicrhau y bydd y Gymraeg yn cael ei darllen yn gyntaf. Rydym wedi ychwanegu arwyddion proffil uchel ar gyfer ystafelloedd, cyfleusterau a mapiau graddfa fawr o'r adeilad ar gyfer 2023-24.

Rydym wedi datblygu proses i bob aelod o staff ar sut i weithredu ynghylch ymholiadau yn y Gymraeg a manylir ar y broses hon ar dudalennau Cymraeg ein mewnrwyd corfforaethol.

Bydd y system archebu newydd ar gyfer Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru sydd i gael ei chyflwyno yn 2024 yn cynnwys adnoddau ar-lein a fydd yn gwbl ddwyieithog.

## Llunio polisïau

Mae'r tîm Dirnadaeth, Polisi a Materion Cyhoeddus yn sicrhau bod ein hymatebion ysgrifenedig i ymgynghoriadau'r Llywodraeth a'r Senedd yn cael eu cyflwyno yn y Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd.

Mae diwygiadau i'r templed Asesiad Effaith yn cael eu gwneud i adlewyrchu penderfyniad diweddar Tribiwnlys y Gymraeg ar y safonau llunio polisïau. Rydym wedi dechrau ar waith i godi ymwybyddiaeth y staff o'r newid hwn ac mae hyfforddiant staff wedi'i gynllunio, ochr yn ochr â'r templed diwygiedig.

## Gweithredol

Yn ystod 2023-24, ar gyfer pob swydd wag heblaw am ddwy, nodwyd sgiliau dwyieithog / amlieithog fel maen prawf dymunol ar ddisgrifiadau'r swyddi. Roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y ddwy rôl arall, ac arweiniodd y ddwy at benodi siaradwyr Cymraeg yn llwyddiannus. Ymunodd cyfanswm o 24 o staff newydd â Chwaraeon Cymru yn ystod 2023-24 ar gontractau parhaol neu dymor penodol ac, o blith y staff newydd yma, disgrifiodd 8 ohonynt eu hunain fel siaradwyr rhugl, rhannol neu ddechreuwyr. Yn 2023-24, gofynnwyd i'r holl staff a oeddent yn dymuno derbyn gohebiaeth ysgrifenedig ynghylch eu cyflogaeth yn y Gymraeg.

Mae ein llawlyfr staff sy'n manylu ar ein polisïau corfforaethol sy'n **ymwneud** â phopeth o iechyd a diogelwch i berfformiad; rheoli absenoldebau a buddion yn y gweithle yn ddwyieithog.

Mae'r holl staff yn ymwybodol o'r cyfle i wneud cwynion drwy gyfrwng y Gymraeg ac y bydd yr holl broses gwyno'n cael ei chwblhau yn yr iaith o'u dewis.

Mae ein holl hysbysebion swyddi yn ddwyieithog ac mae'r holl ddeunyddiau ategol ar gyfer swyddi gwag, fel ffurflenni cais a manylebau swyddi, yn ddwyieithog. Rhoddir y dewis i bob ymgeisydd gael cyfweliad yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

Gall pob aelod o staff dderbyn hyfforddiant Cymraeg yn ystod oriau gwaith, os mai dyma sut maent yn dewis dysgu. Yn ystod 2023-24, mae wyth o bobl wedi mynychu cyrsiau Cymraeg.

Wedi'i ysgogi gan y Seminar Safonau Recriwtio ym mis Gorffennaf 2023, a ddarparwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg ar arfer da, adolygodd ein tîm Adnoddau Dynol ein dulliau gweithredu presennol. Yr un adolygiad oedd ei angen oedd ffurfioli'r asesiad o sgiliau Cymraeg ar gyfer ein swyddi yn y cyfnod recriwtio. Mae siart llif wedi cael ei ychwanegu at ein ffurflen caffael staff i helpu rheolwyr i benderfynu a ddylai'r Gymraeg fod yn hanfodol neu'n ddymunol.

Rheolir pob llofnod e-bost yn ganolog gan ein hadran Datrysiadau Technoleg ac maent yn ddwyieithog.

## Cadw cofnodion

Rydym yn cadw cofnod o nifer y siaradwyr Cymraeg yng ngweithlu Chwaraeon Cymru. Yn 2023-24 roedd ein data yn dangos y canlynol:

| Lefel y Gymraeg | % (nifer y cydweithwyr) |
|---|---|
| Rhugl | **9%** (15) |
| Rhannol | **7%** (12) |
| Dechreuwr | **17%** (27) |
| Di-Gymraeg | **49%** (80) |
| Heb ddatgan | **17%** (28) |

Mae'r data uchod yn dangos cynnydd parhaus mewn datganiadau drwy ymgysylltu â staff i wella'r system fonitro hon (cynnydd i 83% o 77% yn 2022-23 a 73% yn 2021-2022). Bu cynnydd o 31% o aelodau o staff a oedd yn siarad Cymraeg yn 2022-23 i 33% eleni.

Rydym yn cadw cofnod bob blwyddyn o gwynion yn **ymwneud** â'n dull o gadw at Safonau'r Gymraeg.

Yn ystod 2023-24 ni chawsom unrhyw gwynion newydd. Daeth y gŵyn ffurfiol a gyflwynwyd yn 2022-23 am weithredu Plas Menai a'r broses asesu effaith a ddefnyddiwyd yn ystod y broses dendro ar gyfer y bartneriaeth a gomisiynwyd i ben ym mis Rhagfyr 2023. Cadarnhaodd Comisiynydd y Gymraeg y gŵyn. Mae nifer o'r camau gweithredu gofynnol wedi cael eu rhoi ar waith eisoes ac mae Chwaraeon Cymru wedi ymrwymo i gyflawni pob un ohonynt o fewn terfynau amser y Comisiynydd.

## Ategol – darparu gwasanaethau / llunio polisïau / gweithredol / cadw cofnodion

Mae ein dogfen 'Cynllun Iaith Gymraeg' yn cynnwys ein holl safonau Iaith Gymraeg ac mae ar gael ar ein gwefan. Mae'r ddogfen hon wrthi'n cael ei gwella a'i diweddaru. Mae hyn wedi cynnwys trafodaethau gyda chydweithwyr o swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau ac arfer da, gydag aelodau o staff Chwaraeon Cymru sy'n siarad Cymraeg a'n cyfieithydd mewnol ar gontract yn cymryd rhan. Cyn bo hir byddwn yn cwblhau'r broses ymgynghori â sefydliadau partner allanol ac yn cyhoeddi'r ddogfen ddiwygiedig yn 2024.

Mae manylion am sut byddem yn rheoli cwyn sy'n **ymwneud** â'r iaith Gymraeg wedi'u cynnwys yn y Cynllun Iaith Gymraeg a grybwyllir uchod.

Er ein bod wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran datblygu a hyrwyddo'r Gymraeg, rydym yn uchelgeisiol ac mae llawer o feysydd rydym eisiau parhau i fwrw ymlaen â hwy. Byddwn yn gweithio'n rhagweithiol ar y rhain yn ein cynllunio ac yn adrodd ar gynnydd yn rheolaidd.



**Astudiaeth Achos:**

# Plas Menai

Yn 2023, comisiynodd Chwaraeon Cymru Parkwood Leisure fel ein partner i weithredu Plas Menai, Canolfan Awyr Agored Genedlaethol Cymru.

Ers mis Chwefror 2023, mae ymgyrch recriwtio helaeth wedi bod ar waith i ddatblygu rhaglen nofio achrededig Nofio Cymru yn gwbl ddwyieithog, yn weithredol 7 diwrnod yr wythnos, drwy gydol y flwyddyn ym Mhlas Menai. Mae'r athrawon / hyfforddwyr nofio sy'n gweithio ym Mhlas Menai ar hyn o bryd yn siarad Cymraeg a chyflwynir y gwersi nofio yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd y buddsoddiad parhaus hwn yn rhaglen y pwll yn cyflogi dau aelod ychwanegol o staff yn ystod y misoedd nesaf. Datblygwyd cyfle i berson ifanc lleol, yn gweithio fel gwirfoddolwr, gwblhau hyfforddiant perthnasol. Mae bellach yn achubwr bywyd cymwys sy'n gweithio tuag at ei gymwysterau addysgu ac mae wedi gwella'r ddarpariaeth Gymraeg ym Mhlas Menai.

Mae staff Plas Menai yn parhau i gwrdd â sefydliadau partner fel RYA Cymru Wales i ddatblygu cyfleoedd i hyfforddwyr Cymraeg eu hiaith gael cymorth datblygu i sicrhau cyflogaeth ac i allu cyflwyno ystod ehangach o gymwysterau. Yn dilyn cyfarfodydd gyda Chlybiau Hwylio lleol, mae staff Plas Menai wedi cysylltu ag ysgolion i ennyn diddordeb pobl ifanc yn y posibiliadau hyfforddi sydd yn y ganolfan, a'r llwybrau niferus i'r diwydiant morol yng Nghymru. Cynigir hyn drwy gyrsiau hyfforddi ar y tir a theori.

Mae prentisiaethau newydd wedi dechrau ym Mhlas Menai, wedi'u targedu at siaradwyr Cymraeg o ardal Gwynedd. Mae rhaglen Hyfforddwyr Dan Hyfforddiant 2024 wedi cael ei lansio ac mae'n opsiwn i ieuenctid lleol sy'n gadael yr ysgol, neu rywun sy'n chwilio am newid gyrfa. Mae hwn yn llwybr carlam i mewn i'r diwydiant. Mae cyfle prentisiaeth ychwanegol wedi cael ei gynnig fel aelod o'r tîm arlwyo i siaradwr Cymraeg lleol a fydd yn cael ei hyfforddi gan ein rheolwr arlwyo ac a fydd yn aros gyda Phlas Menai am y 15 mis nesaf.

Mae Plas Menai bellach yn cyflogi staff hyfforddi sy'n siarad Cymraeg ar gontractau 12 mis parhaol ac mae'r aelodau hyn o staff wedi cael eu huwchsgilio dros aeaf 2023-24, gan eu galluogi i gyflwyno rhaglenni Achub o Ddŵr a rhaglenni eraill. Byddai'r staff hyn wedi bod yn dymhorol yn flaenorol, felly mae hwn yn ychwanegiad gwych at y ddarpariaeth Gymraeg ym Mhlas Menai.


Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu'r ddarpariaeth Gymraeg ymhellach ar draws pob platfform. Mae'r wefan wedi cael gwedd newydd a bydd "tudalen sblash" ddwyieithog sy'n galluogi cwsmeriaid i symud ymlaen yn eu dewis iaith yn cael ei hychwanegu ym mis Mai 2024. Mae gwelliannau i'r broses archebu ar y gweill hefyd.


BISHOP

# Ystadegau Cydraddoldeb Cyfredol - Gweithlu Chwaraeon Cymru

## Ar 31 Mawrth 2024, roedd Chwaraeon Cymru yn cyflogi 162 o bobl mewn swyddi parhaol a thymor penodol.

Ffigur 1: Ystadegau Cydraddoldeb ar gyfer Gweithlu Chwaraeon Cymru 2023 -2024.




* Nid oes labeli data wedi'u cynnwys lle mae llai na phump o ymatebion, i sicrhau ein bod yn gwarchod cyfrinachedd ac yn sicrhau bod pawb yn anhysbys.

## Dynion a merched a gyflogir yn ôl graddfa, oriau gwaith a math o gontract.

Mae Ffigur 2 yn dangos nifer y dynion a'r merched a gyflogwyd yn ôl graddfa, oriau gwaith a math o gontract yn ystod 2023-24.


| **Graddfa** | **Gwryw** | **Benyw** |
|---|---|---|
| Graddfa 1 | **0%** | **100%** |
| Graddfa 2 | **58%** | **42%** |
| Graddfa 3 | **56%** | **44%** |
| Graddfa 4 | **36%** | **64%** |
| Graddfa 5 | **67%** | **33%** |
| Graddfa 6 | **40%** | **60%** |
| Graddfa 7 | **53%** | **47%** |
| Graddfa 8 | **62%** | **38%** |
| Graddfa 9 | **35%** | **65%** |
| Graddfa 10 | **40%** | **60%** |
| Graddfa 11 | **50%** | **50%** |
| Graddfa 12 | **50%** | **50%** |
| Graddfa 13 | **100%** | **0%** |
| Graddfa 14 | **100%** | **0%** |
| **Oriau gwaith** | **Gwryw** | **Benyw** |
| Llawn amser | **50%** | **50%** |
| Rhan amser | **28%** | **72%** |
| **Math o Gontract** | **Gwryw** | **Benyw** |
| Tymor Penodol | **50%** | **50%** |
| Parhaol | **44%** | **56%** |
| **Rhywedd yn ôl Chwartel Cyflog** | **Gwryw** | **Benyw** |
| Chwartel 1 | **39%** | **61%** |
| Chwartel 2 | **43%** | **57%** |
| Chwartel 3 | **60%** | **40%** |
| Chwartel 4 | **38%** | **62%** |

Y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn Chwaraeon Cymru ar 31 Mawrth 2024 oedd 7.3% (Cymedr) neu 8% (Canolrif). Mae hyn yn ostyngiad o 9% (Cymedr) ond yn gynnydd o 7% (Canolrif) o gymharu â 31 Mawrth 2023.

# Ystadegau Cydraddoldeb - Bwrdd

## Ystadegau Cydraddoldeb ar gyfer Bwrdd Chwaraeon Cymru 2023-2024

Mae Ffigur 3 yn dangos yr ystadegau cydraddoldeb ar gyfer aelodau bwrdd Chwaraeon Cymru yn ystod 2023-24.





* Nid oes labeli data wedi'u cynnwys lle mae llai na phump o ymatebion, i sicrhau ein bod yn gwarchod cyfrinachedd ac yn sicrhau bod pawb yn anhysbys.

# Recriwtio

## Ystadegau Cydraddoldeb ar gyfer recriwtio 2023-24.

Yn 2023-2024 derbyniodd Chwaraeon Cymru 901 o geisiadau gan unigolion yn gwneud cais am swyddi gyda Chwaraeon Cymru. Mae Ffigur 4 yn dangos y wybodaeth cydraddoldeb ar gyfer yr ymgeiswyr.





* Nid oes labeli data wedi'u cynnwys lle mae llai na phump o ymatebion, i sicrhau ein bod yn gwarchod cyfrinachedd ac yn sicrhau bod pawb yn anhysbys.

# Staff yn dechrau o'r newydd

## Ystadegau Cydraddoldeb ar gyfer Staff yn dechrau o'r newydd yn Chwaraeon Cymru 2023-2024.

Fe wnaeth 24 aelod o staff ddechrau o'r newydd (ar gontract tymor penodol neu barhaol) rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024. Mae Ffigur 5 yn dangos y wybodaeth cydraddoldeb ar gyfer y staff yn dechrau o'r newydd.





* Nid oes labeli data wedi'u cynnwys lle mae llai na phump o ymatebion, i sicrhau ein bod yn gwarchod cyfrinachedd ac yn sicrhau bod pawb yn anhysbys.

# Staff yn Gadael

## Ystadegau Cydraddoldeb ar gyfer Staff Wnaeth Adael Chwaraeon Cymru yn 2023-2024.

Fe wnaeth 16 aelod o staff (ar gontract tymor penodol neu barhaol) adael yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2023-31 Mawrth 2024. Mae Ffigur 5 yn dangos y wybodaeth cydraddoldeb ar gyfer y staff yn gadael.




* Nid oes labeli data wedi'u cynnwys lle mae llai na phump o ymatebion, i sicrhau ein bod yn gwarchod cyfrinachedd ac yn sicrhau bod pawb yn anhysbys.

## Cwynion, Anfodlonrwydd, Disgyblu

Mae gan Chwaraeon Cymru bolisi Gwrth-fwlio, Aflonyddu, Gwahaniaethu ac Erledigaeth sy’n datgan safonau ymddygiad yn glir, gan fanylu ar y rhai y mae’r sefydliad yn eu hystyried yn annerbyniol a’r canlyniadau tebygol os bydd sail i unrhyw achos o fynd yn groes i’r ymddygiadau hyn. Mae prosesau ar gael hefyd ar gyfer cwynion a wneir gan y cyhoedd. Yn ystod y flwyddyn adrodd roedd un anfodlonrwydd a bu’n rhaid disgyblu dair gwaith.

## Hyfforddiant Cydraddoldeb Penodol

Mae pob aelod o staff sy’n dechrau o’r newydd yn cael hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth ar-lein. Darperir sesiwn sefydlu ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i staff sy’n dechrau o’r newydd. Rydym wedi parhau â’n rhaglen eang o hyfforddiant EDI, ac mae cymorth wedi’i gynnig i’r holl staff a’i ddarparu yn 2023-24. Mae gennym ni gynrychiolwyr ein hunain ar ein Rhaglen Arweinyddiaeth Gynhwysol ac Arwain Gweithredu Cadarnhaol.

## Adroddiad ar Gyfranogiad Chwaraeon

| Nodwedd | Plant: Arolwg Chwaraeon Ysgol 2022 | Oedolion: Arolwg Cenedlaethol Cymru 2022/23 | Nodiadau: |
|---|---|---|---|
| | Cymryd rhan mewn chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos | | Dim ond lleoliadau Allgyrsiol neu Glybiau Cymunedol mae'r Arolwg Chwaraeon Ysgol yn eu cynnwys yn y diffiniad hwn o gyfranogiad. |
| Cyffredinol (pawb) | 39.5% | 39.1% | |
| Genethod; Merched | 36.4% | 35.2% | |
| Bechgyn; Dynion | 43.2% | 43.0% | |
| Rhywedd arall | 28.1% | - | Rydym yn cadw data am blant nad ydynt yn uniaethu â rhywedd 'bachgen' neu 'ferch'. |
| Pobl o Leiafrif Ethnig | 35.9% | 47.4% | Mae'r gallu i archwilio ethnigrwydd yn dibynnu ar faint y sampl. Gallwn ddarparu llawer mwy o fanylion am blant oherwydd maint y sampl (tua 115,000 o bobl). Mae dadansoddiad pellach ar gyfer oedolion yn gyfyngedig oherwydd maint y sampl mwyaf y gellir ei sicrhau (12,000 o bobl). |
| Asiaidd / Asiaidd Cymreig / Asiaidd Prydeinig | 30.1% | - | |
| Grwpiau Ethnig Cymysg / Niferus | 42.8% | - | |
| Du / Du Cymreig / Du Prydeinig | 38.3% | - | |
| Grŵp Ethnig Arall | 33.1% | - | |
| Gwyn (Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig o Ogledd Iwerddon, Prydeinig) | 41.1% | 38.5% | |
| Gwyn Arall (yn cynnwys Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig, Gwyddelig, Roma, ac unrhyw gefndir Gwyn arall) | 36.0% | 41.7% | |
| Amddifadedd economaidd-gymdeithasol | 32.3% | - | Ystyrir bod plant sy'n mynychu ysgolion sydd â'r lefelau cymhwysedd uchaf am brydau ysgol am ddim yn 'ddifreintiedig'; defnyddir mesur gwahanol ar gyfer oedolion sy'n byw mewn amddifadedd materol. |
| Amddifadedd materol | - | 30.6% | |
| Anabledd neu nam | 34.9% | 26.3% | Cwestiwn oedolyn: 'Ydi eich cyflwr iechyd neu salwch yn lleihau eich gallu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd naill ai ychydig neu yn fawr?'. |
| Siaradwyr Cymraeg | 46.3% | 45.5% | |

# Adroddiad Buddsoddi

## Cynllun Cronfa Cymru Actif (BAWF):

Gwnaeth Chwaraeon Cymru newidiadau a gwelliannau mawr i'n proses fuddsoddi BAWF yn ystod 2023-24 i wella'r profiad i ymgeiswyr, gan leihau'r fiwrocratiaeth a llenwi ffurflenni. Un newid arall rhwng y ddwy broses yw ein bod yn gofyn yn flaenorol i ymgeiswyr nodi pa feysydd blaenoriaeth fyddai'n cael eu cefnogi gan y buddsoddiad ar gais. O dan y broses newydd, mae tîm buddsoddi Chwaraeon Cymru yn penderfynu ar hyn ar sail craffu ar y cais a chyswllt â'r ymgeisydd. Mae'r newid hwn yn golygu na ddylid cymharu'r data rhwng y cyfnodau cyn ac ar ôl y newid. Mae'r cyfnod pontio o newid o un broses i'r llall wedi golygu na all lleiafrif o ddyfarniadau (llai na 10%) yn 2023-24 gael eu dosbarthu i grwpiau blaenoriaeth.

**Gwnaed 589 o ddyfarniadau ar gyfer ceisiadau a gyflwynwyd o dan y dull blaenorol a'u cymeradwyo o fis Ebrill i fis Rhagfyr 2023, cyfanswm y dyfarniadau hyn ar y cyd oedd £2,857,509.**

Mae dadansoddiad o'r dyfarniadau a'r buddsoddiad mewn meysydd blaenoriaeth wedi'u nodi isod:

| Maes Blaenoriaeth | Nifer y Ceisiadau | Cyfanswm a Ddyfarnwyd |
|---|---|---|
| Merched a genethod | 389 | £3,152,574.00 |
| Pobl o Leiafrifoedd Ethnig | 147 | £1,176,445.00 |
| Pobl ag anabledd | 180 | £1,677,781.00 |
| Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol | 82 | £745,771.00 |
| Trawsryweddol | 43 | £380,644.00 |
| Amddifadedd Economaidd Cymdeithasol | 356 | £2,857,509.00 |
| Yr Iaith Gymraeg | 120 | £1,208,230.00 |
| Creu Cynaliadwyedd Tymor Hir | 490 | £4,063,244.00 |

Nododd yr ymgeiswyr destun i nodi pa flaenoriaethau roedd eu prosiectau'n mynd i'r afael â hwy. Nid oedd raid i brosiectau gyfeirio at un maes blaenoriaeth yn unig, felly ni fydd cyfanswm y ceisiadau a'r buddsoddiad ar gyfer pob maes blaenoriaeth yn cyfateb i gyfanswm nifer y dyfarniadau a chyfanswm y buddsoddiad.

## Newid i Brosesau Buddsoddi:

Yn seiliedig ar wybodaeth ac adborth helaeth ac amrywiol, gweithredodd Chwaraeon Cymru welliannau sylfaenol i'n system fuddsoddi i'w gwneud yn haws i sefydliadau wneud cais.

Nifer y ceisiadau lle nad yw data maes blaenoriaeth ar gael oherwydd y newid i'r broses newydd yw 85 gyda'r dyfarniadau'n dod i gyfanswm o £1,231,090.

**Ceisiadau a gyflwynwyd gan ddefnyddio'r broses newydd (data 3 mis, Rhagfyr 2023 - Chwefror 2024). Nifer y ceisiadau i'r system newydd oedd 257 gyda'r dyfarniadau'n dod i gyfanswm o £2,380,018.**

| Maes Blaenoriaeth | Nifer y Ceisiadau | Cyfanswm a Ddyfarnwyd |
|---|---|---|
| Merched a genethod | 124 | £935,505.00 |
| Pobl o Leiafrifoedd Ethnig | 11 | £53,998.00 |
| Pobl ag anabledd | 45 | £90,010.00 |
| Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol | 3 | £21,958.00 |
| Trawsryweddol | 1 | £7,018.00 |
| Amddifadedd Economaidd Cymdeithasol | 89 | £648,833.00 |
| Yr Iaith Gymraeg | 17 | £142,962.00 |
| Creu Cynaliadwyedd Tymor Hir | 278 | £1,963,034.00 |

Mae tîm buddsoddi Chwaraeon Cymru yn pennu'r meysydd blaenoriaeth y mae'r dyfarniadau'n rhoi sylw iddynt ar sail craffu ar y cais a chyswllt â'r ymgeisydd. Gall y prosiectau fynd i'r afael â mwy nag un maes blaenoriaeth, felly ni fydd cyfanswm y ceisiadau a'r buddsoddiad ar gyfer pob maes blaenoriaeth yn cyfateb i gyfanswm y dyfarniadau a chyfanswm y buddsoddiad.

Cyfanswm cyfunol y dyfarniadau a wnaed yn 2023-24 ar draws y broses flaenorol; y dyfarniadau hynny lle nad oes data maes blaenoriaeth ar gael; a'r broses newydd yw 931 gyda chyfanswm cyllid o £6,468,617. Mae hyn yn gynnydd sylweddol ar y dyfarniadau a chyfanswm y buddsoddiad yn 2022-23.

# Dadansoddi Data

## Gweithlu:

Mae'r duedd ddiweddar tuag at weithlu Chwaraeon Cymru yn datgan nodweddion gwarchodedig yn llawn wedi parhau. Bellach dim ond dwy nodwedd sydd lle nad yw mwy nag 20% o'r staff wedi datgan (anabledd ar 21% ac ailbennu rhywedd ar 22%) ac mae 6 allan o'r 9 nodwedd warchodedig ar 10% neu lai. Mae'r cynnydd a wnaed y llynedd o ran cynyddu amrywiaeth y gweithlu o ran ethnigrwydd a chyfeiriadedd rhywiol wedi'i gynnal, er na fu cynnydd sylweddol o ran cynyddu amrywiaeth mewn perthynas ag anabledd.

Mae bylchau cyflog rhwng y rhywiau Chwaraeon Cymru wedi sefydlogi ar ôl cynyddu yn ystod 2022-2023 gyda'r cymedr yn gostwng o 9% i 7.3% a'r canolrif yn codi o 7% i 8%. Cyhoeddodd Chwaraeon Cymru ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer 2024-2028 ym mis Mawrth 2024, ac mae un o'r 4 amcan cydraddoldeb yn canolbwyntio ar fylchau cyflog. Mae'r ddogfen yn cynnwys cynlluniau gweithredu bwlch cyflog gan Chwaraeon Cymru sydd, yn ogystal â chamau i fynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, yn cynnwys, am y tro cyntaf, ystyriaeth i fylchau cyflog ar gyfer anabledd, ethnigrwydd a chyfeiriadedd rhywiol.

## Cyfranogiad Chwaraeon:

Mae ein canfyddiadau am gyfranogiad chwaraeon plant yn parhau i fod yn berthnasol i'r adroddiad blynyddol hwn. I'ch atgoffa, dangosodd **Arolwg Chwaraeon Ysgol 2022** ostyngiad brawychus yn nifer cyffredinol y rhai sy'n cymryd rhan o leiaf deirgwaith yr wythnos – gan ostwng 8.1 pwynt canran i 39.5% o bobl ifanc. Mae'r newid hwn mewn ymddygiad yn debygol o fod wedi'i effeithio'n fawr gan ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â phandemig Covid-19. Roedd yr arolwg blaenorol yn 2018.

Mae'r grwpiau y mae eu data yn dangos y lefelau mwyaf o anfantais yn cynnwys:

**Ethnigrwydd**

- Disgyblion Asiaidd / Asiaidd Cymreig / Asiaidd Prydeinig (9.4 pwynt canran yn is na'r cyfartaledd cyffredinol a gostyngiad o 9.5 pwynt canran o gymharu â'r data blaenorol yn 2018).
- Disgyblion Du / Du Cymreig / Du Prydeinig (gostyngiad o 12.2 pwynt canran o gymharu â'r data blaenorol yn 2018. Mae hyn wedi symud y grŵp o un a oedd yn flaenorol 2.9 pwynt canran yn uwch na'r cyfartaledd cyffredinol i fod nawr 1.2 pwynt canran yn is).
- Grwpiau Ethnig eraill (fel y diffinnir yng Nghyfrifiad 2021) (6.4 pwynt canran yn is na'r cyfartaledd cyffredinol a gostyngiad o 12.6 pwynt canran o gymharu â 2018).

**Anabledd**

- Unigolion ag anabledd neu nam (4.6 pwynt canran yn is na'r cyfartaledd cyffredinol a gostyngiad o 11.7 pwynt canran o gymharu â 2018).

**Amddifadedd economaidd-gymdeithasol**

- Y plant hynny sy'n mynychu ysgolion sydd â'r cymhwysedd uchaf i gael prydau ysgol am ddim. (7.2 pwynt canran yn is na'r cyfartaledd cyffredinol a gostyngiad o 9.9 pwynt canran o gymharu â 2018).

**Hunaniaeth o ran Rhywedd**

- Cyfranogiad merched (3.1 pwynt canran yn is na'r cyfartaledd cyffredinol a gostyngiad o 9.3 pwynt canran o gymharu â 2018).

Cwblhaodd tua thraean o'r holl ddisgyblion yng Nghymru yr arolwg, ac felly gallai newidiadau bach ers 2018 gael eu hesbonio gan amrywiad ystadegol, gan na wnaeth pob disgybl yng Nghymru gymryd rhan. Fodd bynnag, mae'r newidiadau mwy yn debygol o adlewyrchu gwahaniaethau gwirioneddol yn ymddygiad y boblogaeth.

**Arolwg Cenedlaethol Cymru:** Oherwydd gwahaniaethau yn y fethodoleg a ddefnyddiwyd, ni ddylid cymharu canlyniadau adran Chwaraeon a Ffyrdd o Fyw Actif Arolwg Cenedlaethol Cymru yn 2021-22 yn uniongyrchol â chanlyniadau fersiynau blaenorol Arolwg Cenedlaethol Cymru.

Er bod cyfranogiad oedolion wedi cynyddu ledled Cymru rhwng 2021-22 a 2022-23, mae'r canlyniadau diweddaraf wedi dangos bod y lefelau mwyaf o anfantais o ran cyfranogiad ym meysydd anabledd a nam (12.8 pwynt canran yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol cyffredinol, bwlch sydd wedi cynyddu ers 2021-22) ac amddifadedd economaidd-gymdeithasol (8.5 pwynt canran yn is na'r cyfartaledd cyffredinol, mae'r bwlch wedi cau ers 2021-22). Mae'r ffigurau ar gyfer cyfranogiad merched yn bryder hefyd ar 3.9 pwynt canran yn is na'r cyfartaledd cyffredinol (gwahaniaeth sydd heb newid ers 2021-22). Ar nodyn mwy cadarnhaol, mae siarad Cymraeg yn parhau i gael ei gysylltu'n gadarnhaol â chyfranogiad oedolion a phlant (AChY: 6.8 pwynt canran yn uwch na'r cyfartaledd ac ACC: 6.4 pwynt canran yn uwch na'r cyfartaledd).

Sefydlwyd cyfres o becynnau gwaith yn Chwaraeon Cymru i archwilio'r canfyddiadau hyn ymhellach a phenderfynu ar y ffordd orau i Chwaraeon Cymru a phartneriaid gydweithio i wneud gwahaniaeth yn seiliedig ar y canfyddiadau hyn.

# Nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol

## Y camau mae'r awdurdod wedi'u cymryd i nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol.

Mae Chwaraeon Cymru wedi ymrwymo i ddefnyddio ymchwil o ansawdd uchel fel sail i bolisi a strategaeth a, lle mae hynny'n bosibl, mae'n ymdrechu i ddefnyddio dirnadaeth i gynghori'r sector chwaraeon, partneriaid, rhanddeiliaid yn Llywodraeth Cymru, y Loteri Genedlaethol, ac eraill ar draws y sector cyhoeddus a thu hwnt.

## Arolygon Cymdeithasol:

Bob tro bydd Chwaraeon Cymru yn cynnal yr Arolwg Chwaraeon Ysgol (AChY) cynhelir cylch adolygu ac ymgynghori eang. Mae'r broses hon eisoes wedi dechrau wrth baratoi ar gyfer Arolwg Chwaraeon Ysgol 2026. Drwy holi am farn a gweithio gyda rhanddeiliaid ac arbenigwyr niferus, mae'r arolwg yn cael ei wella'n barhaus a'i gadw'n berthnasol. Does dim modd gwneud pob newid o fewn pob cylch arolygu, ond rydym yn ymdrechu i wneud newidiadau graddol i'r cyfeiriad cywir i roi arfer da ar waith yn y **tymor hir**. Mae newid yr arolwg i fod yn 'hawdd ei ddarllen' yn enghraifft gadarnhaol o sut mae'r arolwg wedi'i wella'n flaenorol. Mae angen sicrhau cydbwysedd gofalus bob amser rhwng sicrhau cydweddoldeb a chymaroldeb dangosyddion allweddol dros amser ynghyd â sicrhau bod y cwestiynau'n cynrychioli'r wybodaeth ddiweddaraf am gymdeithas a sut dylid gofyn cwestiynau mewn arolwg.

Bydd datblygiad yr AChY nesaf yn cynnwys proses ymgynghori ffurfiol a threialu'r arolwg i ddeall y math o wybodaeth y mae angen i ni ei chasglu, ac ym mha ffyrdd. Hefyd, bydd cynllun cynnwys yr Arolwg Chwaraeon Ysgol nesaf wedi bod drwy broses drylwyr o brofi gwybyddol helaeth. Gan adeiladu ar ymchwil blaenorol, bydd y diweddariad hwn yn helpu i asesu dealltwriaeth a dehongliad pobl ifanc – o rai lluniadau, cwestiynau ac opsiynau ymateb yn yr arolwg. Nod y gwaith hwn yn y pen draw fydd cryfhau gallu'r arolwg ymhellach i ddarparu tystiolaeth fanwl gywir a pherthnasol i ddeall pobl ifanc yn well, gwella prosesau gwneud penderfyniadau ar draws y sector, a thargedu buddsoddiad.

Er mwyn parhau i fod yn wybodus am faterion cyfoes sy'n effeithio ar ymddygiadau cyfranogiad oedolion, mae un ar ddeg o gylchoedd **'Traciwr Gweithgarwch Cymru' (TGC)** wedi cael eu cynnal ers mis Mai 2020. Dyma arolwg tracio poblogaeth o 1,000 o oedolion yng Nghymru, a gynhaliwyd mewn partneriaeth â Savanta ComRes. Gofynnir cwestiynau ar wahanol adegau o'r flwyddyn, gan roi cipolwg ar weithgarwch corfforol a chwaraeon, yn ogystal ag agwedd pobl Cymru tuag at ymarfer corff. Mae'r data sy'n cael eu casglu'n gynrychioliadol o'r genedl yn ôl rhyw, oedran, anabledd, ethnigrwydd a statws economaidd-gymdeithasol. Wrth i wybodaeth cod post gael ei chasglu, gellir cysylltu'r canfyddiadau hefyd â mesurau ar gyfer natur wledig a Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC). Galluogodd Traciwr Gweithgarwch Cymru i dueddiadau cenedlaethol ac anghydraddoldebau mewn agweddau ac ymddygiadau

oedolion gael eu monitro drwy gydol pandemig Covid-19 (pan gafodd arolygon wyneb yn wyneb rheolaidd eu hatal) ac mae wedi parhau i dracio'r prif dueddiadau hyn ers hynny.

Mae **Arolwg Cenedlaethol Cymru (ACC)** yn arolwg cenedlaethol gynrychiadol o aelwydydd o 12,000[1] o oedolion yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae'n cynnwys mwy na deuddeg gwaith yn fwy o bobl na TGC sy'n galluogi plymio'n ddyfnach i bynciau yn ôl nodweddion gwarchodedig, fodd bynnag, mae hefyd ddeg gwaith yn llai na'r Arolwg Chwaraeon Ysgol ac felly mae dyfnder y dadansoddiad yn gyfyngedig ar gyfer rhai nodweddion a phynciau. Mae adran Chwaraeon a Ffyrdd o Fyw Actif yr arolwg yn cynnwys canfyddiadau ystadegol gadarn am gyfranogiad oedolion mewn chwaraeon a hamdden corfforol, gwirfoddoli mewn chwaraeon, cyfleusterau chwaraeon, ac agweddau tuag at weithgarwch corfforol a chyfranogiad mewn gweithgareddau chwaraeon yn y dyfodol. Llywodraeth Cymru sy'n rheoli'r gyfres graidd o gwestiynau yn yr arolwg a chynnwys unrhyw fodiwlau pwnc-benodol ychwanegol a gynhwysir bob blwyddyn y cynhelir yr arolwg (e.e. yr Amgylchedd, Iechyd, Lles, Gofal Cymdeithasol, Diwylliant a Chwaraeon). Mae'r cwestiynau craidd yn cynnwys oedran; rhyw; ethnigrwydd; cyflyrau neu salwch corfforol neu feddyliol; amddifadedd materol; a'r defnydd o'r iaith Gymraeg.

Mae'r arolwg yn aml yn cynnwys canfyddiadau yn ôl cyfansoddiad aelwydydd, statws priodasol / partneriaeth sifil, cenedligrwydd, crefydd a chyfeiriadedd rhywiol a llawer mwy. Mae cyfres lawn o bynciau i'w gweld ar dudalen we ACC. Mae canlyniadau'r arolwg ar gael ar gyfer amrywiaeth o ardaloedd daearyddol (gan gynnwys ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru) ac ar gyfer dosbarthiadau ar sail ardaloedd bach fel MALlC, a dosbarthiad trefol / gwledig. Defnyddir yr arolwg fel sail i Ddangosydd 38 Cenedlaethau'r Dyfodol – 'Canran y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith yr wythnos neu fwy'.

Mae meini prawf gwrthrychol, sy'n seiliedig ar Ystadegau Swyddogol o arolygon cenedlaethol a data perfformiad, yn cael eu defnyddio'n benodol gan Chwaraeon Cymru i ddyrannu buddsoddiad i Gyrff Rheoli Cenedlaethol a Phartneriaethau Chwaraeon. Mae hyn yn galluogi dull tryloyw a gwrthrychol o fuddsoddi ac yn lleihau'r baich biwrocrataidd ar bartneriaid i ddarparu data a thystiolaeth i Chwaraeon Cymru.

Rhennir meini prawf cyllido yn elfennau cyfranogiad a pherfformiad, gyda sgôr cyllido cyffredinol ar gyfer pob Corff Rheoli Cenedlaethol yn cael ei sefydlu pan ddaw'r ddwy adran ynghyd. Defnyddir cyfrif poblogaeth, oedran, rhywedd, ethnigrwydd, anabledd ac amddifadedd i greu sgôr cyffredinol ar gyfer pob camp.

[1]Bydd toriadau cyllideb, cyllideb sefydlog, a chwyddiant yn arwain at ostyngiad ym maint y sampl yn y dyfodol, a bydd hyn yn effeithio ar y mathau o ffactorau y gellir adrodd arnynt yn hyderus. Fodd bynnag, gellir goresgyn gostyngiad ym maint y sampl drwy gyfuno gwerth dwy flynedd o ganlyniadau, a dyblu'r sampl a gyflawnir i bob pwrpas.

Defnyddir meini prawf ar wahân i bennu'r cyllid ar gyfer Partneriaethau Chwaraeon, yn seiliedig ar boblogaeth, ffactorau economaidd-gymdeithasol a natur wledig. Mae dadansoddiad llawn o'r data a ddefnyddir i'w weld yn yr adran Adnoddau ar wefan Chwaraeon Cymru.

Bydd system fuddsoddi newydd, sydd wedi'i chynllunio drwy weithio mewn partneriaeth â'r Ganolfan ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol, hefyd yn ein helpu i gasglu ac arddangos ein data buddsoddi cymunedol yn well, gan ein galluogi i wneud buddsoddiadau sy'n cael eu sbarduno gan ddirnadaeth yn y dyfodol.

## Unrhyw resymau dros beidio â chasglu gwybodaeth berthnasol.

Mae angen samplu a phwysoli'r Arolwg Chwaraeon Ysgol yn seiliedig ar ffynonellau data cenedlaethol (fel y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion PLASC sy'n cyfrif nodweddion disgyblion fesul ysgol). Nid yw pob nodwedd wedi'i chynnwys yn y ffynonellau data eilaidd hyn felly efallai nad ydynt yn gwbl gynrychioliadol. Mae'r dull samplu'n cael ei gyfyngu yn y pen draw gan y derminoleg a ddefnyddir yn y ffynonellau eilaidd hyn.

Mae angen cynllunio rhai cwestiynau'n ofalus hefyd i sicrhau eu bod yn gweithio i bob plentyn ac ar gyfer cwestiynau newydd mae angen amser ychwanegol i ymgynghori, profi a threialu. Nid yw rhai cwestiynau yn briodol i'w gofyn i bawb.

Mae maint y sampl hefyd yn cyfyngu ar yr hyn y gellir ei adrodd yn ystadegol hyderus, hyd yn oed os bydd y wybodaeth yn cael ei chasglu fel rhan o'r arolwg.

## Datganiad ar effeithiolrwydd trefniadau'r awdurdod ar gyfer nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol.

Fel sefydliad, rydym yn casglu gwybodaeth ddemograffig hanfodol ar gyfer elfennau cydraddoldeb allweddol gyda ffocws penodol ar rywedd, anabledd, oedran, ethnigrwydd ac amddifadedd. Mae'r data hyn yn cael eu casglu'n bennaf drwy ein hadnoddau arolygu cenedlaethol (Arolwg Chwaraeon Ysgol; Arolwg Cenedlaethol Cymru; Traciwr Gweithgarwch Cymru) sy'n cael eu gweithredu'n achlysurol i gyd. Mae'r adnoddau casglu data hyn yn rhoi data pwysig i ni ar gyfer monitro tueddiadau cyfranogiad ac agwedd a, gyda'i gilydd, yn cwmpasu trigolion Cymru sy'n saith oed a hŷn. Os nad yw meintiau samplau'r arolygon yn ddigonol, ein nod ni yw cynnal ymchwil ansoddol gyda grwpiau penodol ar bynciau manwl i gael gwybodaeth bellach. Rydym yn casglu ac yn cadw data cyfyngedig am y canlynol: priodas neu bartneriaeth sifil (nodwedd warchodedig mewn cyflogaeth yn unig); beichiogrwydd a mamolaeth; crefydd neu gred; cyfeiriadedd rhywiol. Fodd bynnag, mae modd ymchwilio ymhellach drwy Arolwg Cenedlaethol Cymru.

Nid yw'n cael ei ystyried yn briodol ar hyn o bryd i gasglu rhywfaint o'r wybodaeth sensitif hon drwy ein Harolwg Chwaraeon Ysgol. Mae maint y sampl hefyd yn cyfyngu ar yr hyn y gellir ei gynrychioli mewn arolygon tracio llai. Hefyd mae natur dymhorol chwaraeon yn gofyn am gwmpasu data yn ystod y flwyddyn gyfan i gynrychioli pob math o weithgarwch ac ymddygiad yn llawn. Yn yr ystyr hwn mae'r canfyddiadau wedi'u cyfyngu gan ddull yr arolwg a gallu'r ymatebydd i gofio gwybodaeth.

Rydym wedi ein cyfyngu mewn rhai ffyrdd gan waith Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill. Er enghraifft, y gallu i newid cwestiynau mewn arolygon aml-randdeiliaid. Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cwestiynau arolwg yn cael eu cysoni a'u trawsnewid yn seiliedig ar y dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael o arfer da, lle bynnag y bo modd, ac yn hyrwyddo cyswllt ac ymgynghori ar ddata a materion ystadegol rhwng sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Rydym yn casglu ystod ehangach o wybodaeth drwy arolygon llai a rhai adroddiadau pwrpasol. Mae lefel y manylder y gellir ei ddarparu yn dibynnu ar faint y sampl (sydd yn ei dro yn dibynnu ar y gyllideb) neu'n canolbwyntio ar faterion thematig penodol yn fanwl, gan wneud rhai canlyniadau yn archwiliadol yn hytrach na chynrychioliadol. Mae gwallau o fewn dulliau sy'n seiliedig ar arolygon yn gwneud cymariaethau'n anodd yn aml, ac mae angen dadbacio data ar gyfer dimensiynau dadansoddi niferus.

Gall hyn gyfyngu ar ddadansoddiad ar sail thema a chroestoriad pellach y themâu hyn. Gall dadansoddiad is-genedlaethol o'r wybodaeth hon fod yn anodd hefyd gyda daearyddiaeth lai.

Rydym yn ymdrechu i ailadrodd a gwella ein dulliau gweithredu lle bo modd. Roedd datblygiad nifer o ddatganiadau sefyllfa polisi Chwaraeon Cymru yn cynnwys ymarfer o gasglu at ei gilydd ein holl wybodaeth er mwyn cael golwg gyffredinol ar y data rydym yn eu casglu o safbwynt cydraddoldeb. Yn ogystal, nod Chwaraeon Cymru yw creu 'Llyn Data' lle gellir dod â'n holl ddata o arolygon a mannau eraill at ei gilydd, eu cysoni, eu safoni a'u gwneud yn amlieithog. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu darlun cyffredinol o'r hyn sydd gennym, yr hyn y gellir ei wella, a lle mae bylchau yn y dystiolaeth.

Mae'r Tîm Dirnadaeth wedi datblygu dull dangosfwrdd o weithredu a fyddai'n helpu i ddarparu'r math hwn o drosolwg gan ddefnyddio meddalwedd Power BI. Mae hwn wedi cael ei brofi gan ddefnyddwyr ac rydym yn disgwyl ei lansio i staff ei ddefnyddio yn Chwaraeon Cymru yn 2024. Bydd cwestiynau'r arolwg yn cael eu hadolygu'n fanwl wrth baratoi ar gyfer yr Arolwg Chwaraeon Ysgol nesaf a bydd dangosfwrdd ystadegol wedi'i ddiweddaru i gyd-fynd ag ef, gan alluogi archwilio canfyddiadau manwl ar groestoriad o bynciau ymhellach.

# Amcanion Cydraddoldeb Strategol – Adolygu Ein Cynnydd

Fel sail i ddatblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer y cyfnod 2024-28, fe wnaethom fanteisio ar y cyfle i adlewyrchu ar y cynnydd a wnaethom gyda'n hamcanion a'r meysydd ffocws pellach. Mae'r crynodeb isod yn amlinellu rhai o'r cyflawniadau penodol yn ystod 2023-24, yn adlewyrchu ar yr hyn sydd wedi gweithio'n dda, lle gallwn wella ymhellach ac, yn bwysig iawn, lle mae angen i ni ganolbwyntio ein hymdrechion yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.

## Cynyddu Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu

### Dangosyddion Cadarnhaol yr amcan hwn:

**Data Amrywiaeth y Gweithlu:** nododd ein data gweithlu a adroddwyd ar 31 Mawrth 2024 bod cyfran y cyflogeion o leiafrifoedd ethnig ac LGBTQ+ yn uwch na chyfartaledd y boblogaeth genedlaethol.

**Arolwg Staff 2023:** Roedd 84% o'r ymatebwyr yn cytuno'n llwyr neu'n cytuno bod Chwaraeon Cymru yn lle cynhwysol i weithio ynddo. Teimlai 97% o'r staff bod llawer o gyfleoedd wedi bod i ddysgu a thrafod mwy am gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y gweithle.

**Gweithlu'r Dyfodol:** Mae Chwaraeon Cymru wedi **cydweithredu** ag ysgolion lleol mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd-gymdeithasol i siarad am gyfleoedd gyrfa mewn chwaraeon gyda dyddiau agored yng Nghanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru.

**Rhaglen Graddedigion Gwyddoniaeth Chwaraeon:** yn darparu cyflog graddfa mynediad ochr yn ochr â ffioedd dysgu a gyllidir ar gyfer cwrs MSc. Nod y cyfle hwn oedd cynyddu cynrychiolaeth o gymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol.

### Pethau y mae angen i ni eu hystyried a lle mae angen i ni fynd ymhellach

Mae mwy i'w wneud i wella amrywiaeth ar lefel arweinyddiaeth o fewn Chwaraeon Cymru ac i sicrhau bod pobl ag anabledd yn cael eu cynrychioli'n well yn ein gweithlu.

Nododd ein harolwg staff hefyd fod angen gwneud mwy o waith i fabwysiadu agwedd gynhwysol at ddigwyddiadau staff, i wella amrywiaeth mewn swyddi arwain, i ymateb i anghenion staff fel darparu ystafell ffydd ac i greu amgylchedd cefnogol a diogel lle gall pobl ddysgu.

### Dadansoddiad

Mae Chwaraeon Cymru wedi mabwysiadu amrywiaeth o wahanol ddulliau i wella amrywiaeth ein gweithlu ein hunain a gweithlu'r sector yn y tymor byr a'r **tymor hir**. Mae prosesau ac arferion recriwtio wedi cael eu mireinio i sicrhau ein bod yn hyrwyddo cyfleoedd i grŵp ehangach a mwy amrywiol o ymgeiswyr. Mae Chwaraeon Cymru hefyd yn ceisio datblygu diwylliant o berthyn, gan feithrin amgylchedd croesawgar, diogel a chynhwysol i'r holl staff. Mae cyfleoedd hyfforddi a datblygu i ddysgu am wahanol agweddau ar amrywiaeth a chynhwysiant yn ogystal â deunyddiau dysgu ategol yn cyfrannu at yr ymdrech hon.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028 yn cadarnhau ein hymrwymiad ni i ymgorffori gwerthoedd cydraddoldeb yn niwylliant sefydliadol Chwaraeon Cymru, gan gydnabod bod diwylliant cadarn o gydraddoldeb yn sicrhau triniaeth deg i'r holl staff, yn meithrin ymdeimlad o berthyn ac yn denu ac yn cadw talent amrywiol.

# Dileu Bylchau Cyflog

### Dangosyddion Cadarnhaol yr amcan hwn:

**Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau:** Y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn Chwaraeon Cymru ar 31 Mawrth 2024 oedd 7.3% (Cymedr) neu 8% (Canolrif). Mae hyn yn ostyngiad o 9% (Cymedr) ond yn gynnydd o 7% (Canolrif) ar 31 Mawrth 2023.

**Cyflog Byw:** Mae Chwaraeon Cymru yn gyflogwr Cyflog Byw achrededig.

### Pethau y mae angen i ni eu hystyried a lle mae angen i ni fynd ymhellach

Mae angen ystyried bylchau cyflog ar draws ystod o nodweddion gwarchodedig.

### Dadansoddiad

Mae Chwaraeon Cymru wedi cyfrifo ei fylchau cyflog ethnigrwydd, anabledd a chyfeiriadedd rhywiol am y tro cyntaf a bydd yn edrych ar adrodd ar y bylchau cyflog hynny ochr yn ochr â chynnal ei adroddiadau ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, gan gydnabod nad yw'r data hyn yn bodloni'r lefelau adrodd ystadegol gofynnol eto.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer y cyfnod 2024-2028 yn nodi uchelgais i ddileu bylchau cyflog a gyda chynllun gweithredu tymor byr i annog ymgeiswyr benywaidd, lleiafrifoedd ethnig ac anabl ar gyfer uwch swyddi arwain pan fyddant yn codi.

# Ymgysylltu â'r Gymuned

## Dangosyddion Cadarnhaol yr amcan hwn:

**Ramadan Hanner Nos:** yn 2023-24, gweithredwyd y rhaglen am yr ail flwyddyn, gan ehangu i gynnwys cynnig llawn i gyfranogwyr benywaidd. Datblygwyd y rhaglen gan ddefnyddio gwybodaeth o arolygon a arweiniwyd gan Foundation for Sports Coaching o'r gweithgareddau roedd y cyfranogwyr eisiau cymryd rhan ynddynt a sut gellid strwythuro'r sesiynau i ddiwallu anghenion diwylliannol a chrefyddol amrywiol y cyfranogwyr.

**Cynllun Hamdden Actif 60+ (ALS):** mae'r rhaglen hon wedi bod yn gweithredu ers dechrau 2021 ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru gyda dulliau cydweithredol awdurdodau lleol yn dibynnu ar anghenion y gymuned leol e.e. pobl o leiafrifoedd ethnig neu'r rhai o gymunedau sydd ddim yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd-gymdeithasol.

**Arwain Gweithredu Cadarnhaol:** yn ogystal â datblygu gweithlu'r sector chwaraeon, mae PAL wedi galluogi cyfranogwyr i gyd-greu'r rhaglen, gan rymuso ac ymgysylltu â'r grŵp. Mae hefyd wedi creu rhwydwaith o unigolion a sefydliadau sy'n gallu cynnig arweiniad, meithrin cysylltiadau ac ymgysylltu'n weithredol ar draws y sector chwaraeon yng Nghymru.

**Datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028:** wrth i ni ddatblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, buom yn gweithio gydag amrywiaeth o gyfeillion beirniadol gyda chynrychiolaeth o amrywiaeth o nodweddion gwarchodedig i helpu i lunio ein Cynllun, amcanion a chamau gweithredu.

## Pethau y mae angen i ni eu hystyried a lle mae angen i ni fynd ymhellach

Rydym wedi gwneud cynnydd yn y maes hwn ond mae angen parhau i ganolbwyntio'n ddi-baid ar ymgysylltu â'r gymuned i siapio a llywio cynlluniau'r dyfodol a phrosiectau a rhaglenni unigol.

## Dadansoddiad

Mae ymgysylltu â'r gymuned wedi parhau i fod yn brif nodwedd a ffordd o weithio o fewn rhaglenni ar draws Chwaraeon Cymru ac mae'n hollbwysig i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru. Mae hyn wedi'i ymgorffori yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028 drwy'r amcan i feithrin diwylliant o welliant parhaus o fewn Chwaraeon Cymru a gyda sefydliadau partner. Bydd y camau gweithredu allweddol yn cynnwys defnyddwyr yn profi'r Arolwg Chwaraeon Ysgol i sicrhau cynhwysiant a hygyrchedd i bob person ifanc, defnyddio data a dirnadaeth o arolygon staff a chynnwys cymunedau wrth ddatblygu a chyflwyno rhaglenni.

# Sicrhau bod y ddarpariaeth o wasanaethau'n adlewyrchu anghenion unigol

### Dangosydd Cadarnhaol yr amcan hwn:

**Hyrwyddwyr Menopos:** Mae hyrwyddwyr ymroddedig o fewn Chwaraeon Cymru wedi cael hyfforddiant mewn meysydd fel addasiadau gweithlu, maeth, hormonau ac ymarfer corff i gefnogi staff yn well. Darparwyd sesiynau hyfforddi i'r holl staff drwy gydol Mis Ymwybyddiaeth y Menopos, gan roi cyfleoedd i ddarparu ar gyfer anghenion unigol y staff yn seiliedig ar yr ystod o wybodaeth oedd ar gael.

**Recriwtio:** bu enghreifftiau o arfer da yn sgil yr amser ychwanegol a gymerwyd gan dimau i ddeall anghenion unigol, yn enwedig mewn perthynas ag agweddau ar nodweddion gwarchodedig.

**Rhaglen Crowdfunder:** yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus, mae'r Rhaglen Crowdfunder yn galluogi clybiau a sefydliadau cymunedol i wneud cais am gyllid ar gyfer gwelliannau 'oddi ar y cae'. Mae Chwaraeon Cymru yn cyfateb cyfran o gostau'r prosiect (gyda mwy o gyllid yn cael ei ddarparu i'r sefydliadau hynny mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd-gymdeithasol), gan sicrhau bod cyllid yn cael ei gyfeirio at brosiectau sydd â chefnogaeth leol sylweddol.

### Pethau y mae angen i ni eu hystyried a lle mae angen i ni fynd ymhellach

Mae esiamplau da o ble rydym yn gwneud cynnydd gyda darparu gwasanaethau sy'n adlewyrchu angen unigol.

### Dadansoddiad

Mae ein datganiadau bwriad strategol yn cynnwys dyhead i fod yn berson-ganolog, gan ystyried anghenion a chymhellion unigolyn, os yw'n dechrau arni neu'n anelu at ragoriaeth ar lwyfan y byd. Mae hyn yr un mor bwysig wrth ystyried anghenion ein staff. Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 yn crisialu hyn yn yr amcan ynghylch ymgorffori gwerthoedd cydraddoldeb yn niwylliant sefydliadol Chwaraeon Cymru.

# Sicrhau bod cydraddoldeb wedi'i ymgorffori yn y broses gaffael / comisiynu a'i fod yn cael ei reoli drwy gydol y cyfnod cyflawni

### Dangosyddion Cadarnhaol yr amcan hwn:

**Cyflog Byw:** Mae Chwaraeon Cymru yn gyflogwr Cyflog Byw achrededig ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr dalu i staff yn unol â'r cyfraddau hyn.

**Caffael Cynaliadwy:** Mae Chwaraeon Cymru yn **cydweithredu** â WRAP Cymru ochr yn ochr ag Amgueddfa Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro i gefnogi datblygiad meini prawf caffael cynaliadwy mewn meysydd gwariant uchel penodol.

## Pethau y mae angen i ni eu hystyried a lle mae angen i ni fynd ymhellach

Mae mwy y gallwn ni ei wneud i ymgorffori'r dull hwn o weithredu yn ein prosesau caffael a defnyddio ein dylanwad i ysgogi caffael cyfrifol.

## Dadansoddiad

Mae Chwaraeon Cymru wedi cadw amcan i ymgorffori caffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer y cyfnod 2024-2028. Y camau allweddol yn y tymor byr fydd adolygu ein prosesau presennol i'w gwneud yn haws i fusnesau bach weithio gyda ni; cynhyrchu Strategaeth Gaffael sy'n ymgorffori gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd; hyfforddi staff ar y dull newydd o weithio; a chydweithio a rhannu arfer da wrth adolygu.

# Canlyniadau Ariannol ar gyfer y Flwyddyn

Roedd cyfanswm gwariant cynhwysfawr Chwaraeon Cymru ar ôl trethiant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 yn £32,098,000 (2022/23 £33,543,000). Roedd y symudiad net ar y gronfa gyffredinol ar gyfer y flwyddyn (tudalen 139), ar ôl y cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, yn £2,455,000 (2022/23 £1,633,000). Sicrhawyd y cynnydd o £2,455,000 ar ôl codi dibrisiant o £667,000 (2022/23 £634,00).

Mae canlyniadau'r Ymddiriedolaeth wedi'u cyfuno yn y datganiadau ariannol hyn.

## Cynaliadwyedd (Yn cynnwys yr Adroddiad Bioamrywiaeth)

Yn ystod blwyddyn lawn gyntaf gweithredu Cynllun Cynaliadwyedd Amgylcheddol Chwaraeon Cymru, parhaodd y pwnc fel un o 7 blaenoriaeth Cynllun Busnes y sefydliad.

Ar ôl treialu cynlluniau cyllido yn 2022-23 mewn partneriaeth â phêl droed a rygbi, roedd cynllun cyllido cynaliadwyedd cenedlaethol cyntaf Chwaraeon Cymru yn ganolbwynt i waith y flwyddyn. Arweiniodd y cynllun Grantiau Arbed Ynni newydd at 79 o glybiau chwaraeon yn derbyn dyfarniadau gwerth cyfanswm o bron i £1.4m yn ystod 2023-24 i helpu i wneud eu cyfleusterau yn fwy ynni-effeithlon.

Roedd y clybiau a dderbyniodd gymorth yn dod o bob un o'r 22 o Awdurdodau Lleol yng Nghymru ac o 12 o wahanol chwaraeon. Roedd y mathau o brosiectau a gefnogwyd yn cynnwys (mae rhai clybiau'n cynllunio mwy nag un o'r canlynol): 47 o glybiau - paneli solar; 26 o glybiau - goleuadau LED; 22 o glybiau - gosod systemau gwresogi neu eu huwchraddio; 11 o glybiau - gosod deunydd inswleiddio ar eu hadeilad neu ei uwchraddio.

Mae Chwaraeon Cymru wedi ymestyn ein dull cydweithredol o fynd i'r afael â chynaliadwyedd gyda dau brosiect pwysig fel rhan o'n haelodaeth o'r Gynghrair Chwaraeon, yr Amgylchedd a'r Hinsawdd (SECC). SECC yw ymateb ar y cyd y sector chwaraeon ledled y DU sy'n cynnwys y Cynghorau Chwaraeon a sefydliadau cynrychioliadol ac arbenigol eraill.

Yn dilyn lansio ein Cynllun Cynaliadwyedd Amgylcheddol, roedd Chwaraeon Cymru eisiau deall yn well gan y sector chwaraeon a gweithgarwch corfforol yr hyn sydd ei angen i gyflymu camau gweithredu ar gynaliadwyedd amgylcheddol.

Fe wnaethom ymgymryd â darn o waith ar y cyd gyda Sport England a sportscotland i gasglu gwybodaeth am y camau gweithredu presennol, yr heriau a'r gefnogaeth sydd ei hangen. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad gan Useful Group a gynhaliodd gyfweliadau a grwpiau ffocws gydag amrywiaeth o sefydliadau (gan gynnwys cyrff rheoli, partneriaid system a chyrff ymbarél) a datblygodd arolwg ar-lein ar gyfer clybiau ar lawr gwlad.

Datgelodd yr ymgynghoriad uchelgais a rennir i fynd i'r afael ag effaith newid yn yr hinsawdd ond nododd fod y gallu i weithredu yn aml yn cael ei lesteirio gan ddiffyg cyllid a'r capasiti i roi newidiadau ar waith. Amlygodd yr arolwg hefyd yr angen am gyngor cyson ar gynaliadwyedd. Nodwyd meysydd allweddol o gyfleoedd fel ynni a charbon, teithio, lleihau gwastraff ac ailgylchu.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r ymgynghoriad, mae Chwaraeon Cymru wedi gweithio gyda phartner SECC i ddatblygu Hwb Adnoddau SECC. Mae'r pecyn adnoddau ar-lein dwyieithog hwn yn cynnwys fideos, erthyglau a chanllawiau i gefnogi clybiau a sefydliadau ledled Cymru a'r DU, dim ots ble maen nhw ar eu siwrnai gynaliadwyedd.

Mae cyfathrebu â sector chwaraeon Cymru wedi bod yn elfen hanfodol o'n gwaith ar gynaliadwyedd. Mae'r tair eitem uchod wedi cael sylw manwl gydag erthyglau gwefan, datganiadau i'r cyfryngau a chyfathrebu'n uniongyrchol â'n cysylltiadau yn y sector. Hefyd mae ein tîm Cyfathrebu wedi cynnwys erthyglau ar ystod eang o bynciau cynaliadwyedd, o ailgylchu cit ac offer chwaraeon fel rhan o'r Wythnos Ailgylchu i newid i bŵer solar. Mae erthyglau wedi rhoi cyngor a help ymarferol i glybiau chwaraeon drwy hyrwyddo awgrymiadau da ar gyfer dod yn glybiau chwaraeon amgylcheddol gyfeillgar a thynnu sylw at fanteision hyn. Cynhyrchwyd cyfanswm o 16 o erthyglau gwahanol a'u cyfathrebu drwy 9 dull cyfathrebu gwahanol (gwefan Chwaraeon Cymru; Cylchlythyr Partneriaid; diweddariad i'r holl Staff; Cylchlythyr Clybiau Cymunedol gyda chynulleidfa o 6,000 a phum sianel cyfryngau cymdeithasol).

Yn y Canolfannau Cenedlaethol mae'r gwaith cynaliadwyedd yn parhau gyda Phwmp Gwres Ffynhonnell Daear (GSHP) a Phwmp Gwresogi Ffynhonnell Aer Plas Menai yn dod yn weithredol. Mae'r GSHP wedi bod yn darparu gwres a dŵr poeth i'r adeilad am y 12 mis diwethaf. Mae safle Plas Menai, sy'n cael ei reoli gan ein partner a gomisiynwyd, Parkwood Leisure, yn cynllunio ar gyfer cynaliadwyedd yn y dyfodol drwy adnewyddu'r tai llety ar y safle ac mae opsiynau ar gyfer system wresogi werdd yn cael eu hystyried.

Mae Plas Menai a Chanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru wedi gweithredu polisi gwahanu gwastraff newydd Llywodraeth Cymru ac mae biniau newydd wedi cael eu gosod ar draws y canolfannau. Yng Nghanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru, mae contractwr gwastraff bwyd lleol newydd wedi cael ei gyflwyno i leihau ôl troed carbon. Cyflwynwyd y dull Leanpath i leihau gwastraff cegin a chwsmeriaid ac i wella'r gwaith o gynllunio bwydlenni.

Mae mentrau newydd gyda Fairshare a Huggard Volunteering ochr yn ochr â gwirfoddoli gan gydweithwyr Chwaraeon Cymru yn gwneud defnydd pwysig o fwyd dros ben ac yn lleihau gwastraff, gyda chynlluniau i fynd â hyn ymhellach yn 2024-25. Y tu allan i'r adeilad fe wnaeth ein tîm tiroedd gefnogi Mai Di Dor a'n gardd flodau gwyllt.

Fel arwydd o'r diddordeb cynyddol yn y sector chwaraeon, cynhaliodd Cymdeithas Chwaraeon Cymru y gynhadledd Cynaliadwyedd mewn Chwaraeon gyntaf yn Stadiwm Principality, Caerdydd ym mis Tachwedd 2023.

Mae adrodd ar allyriadau carbon wedi'i sefydlu fel proses flynyddol bellach. Mae hyn yn amlygu bod y rhan fwyaf o allyriadau Chwaraeon Cymru yn gysylltiedig â phrynu nwyddau a gwasanaethau. Gyda hyn mewn golwg, mae Chwaraeon Cymru wedi gweithio ar y cyd â WRAP Cymru a phartneriaid eraill i ddatblygu a gweithredu argymhellion i ymgorffori cynaliadwyedd yn ein prosesau caffael. Mae'r gwaith cychwynnol wedi canolbwyntio ar sut gellir cynnwys meini prawf cynaliadwyedd yn ein prosesau. Rydym hefyd yn datblygu Strategaeth Gaffael sy'n cyd-fynd â'n huchelgeisiau cynaliadwyedd a Deddf Partneriaethau Cymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru).

Mae Chwaraeon Cymru yn annog y cynllun Beicio i'r Gwaith drwy ei hyrwyddo drwy gyfathrebu mewnol a datblygu fideo deniadol i rannu manteision teithio llesol. Mae uchafswm gwerth y cynllun wedi'i gynyddu i £2,000.

Mae Chwaraeon Cymru wedi sefydlu cynaliadwyedd fel blaenoriaeth cynllun busnes yn 2024-25 gyda chamau gweithredu allweddol yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Ymgorffori cynaliadwyedd yn ein proses gaffael mewn partneriaeth â WRAP Cymru.
- Deall y cyflenwadau gwerth uchel rydym yn eu prynu a'u heffaith ar allyriadau carbon gyda'r bwriad o'u lleihau o bosibl.
- Rhannu cynnydd a straeon gan arloeswyr yn y maes hwn i ddangos yr hyn y gellir ei gyflawni a lledaenu arfer da yn y sector.
- Datblygu Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol i gefnogi'r achos busnes ar gyfer Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru.
- Parhau i fynd ar drywydd cyfleoedd cydweithio ag eraill, yn enwedig drwy'r Gynghrair Chwaraeon, yr Amgylchedd a'r Hinsawdd (SECC).
- Gweithredu canfyddiadau adolygiad o'r llwybr bwyd.
- Mabwysiadu'r hyn a ddysgwyd o'r broses fuddsoddi yn 2023-24 a chyflwyno ail don o Grantiau Arbed Ynni i gefnogi'r sector.

# Cynaliadwyedd Amgylcheddol

Mae'r tablau canlynol yn cynnwys data holl swyddfeydd Chwaraeon Cymru a'r costau cysylltiedig.

| Gwastraff | | 2023/24* | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| Heb fod yn ariannol (tunelli) | Cyfanswm KG | 13,418 | 44,370 | 21,800 |

| Nwy Tŷ Gwydr | | 2023/24* | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| $CO_2$ | Cyfanswm allyriadau crynswth ($CO_2$) | 411,413 | 439,439 | 613,428 |
| | Cyfanswm allyriadau net ($CO_2$) | 411,413 | 439,439 | 613,428 |
| | Allyriadau crynswth, sgôp 1 (uniongyrchol) | 189,988 | 191,753 | 367,960 |
| | Allyriadau crynswth, sgôp 2 | 221,425 | 247,686 | 245,468 |
| Defnydd o ynni kWh | Trydan (heb fod yn adnewyddadwy) | 1,080,333 | 1,280,826 | 1,156,067 |
| | Trydan (adnewyddadwy) | 0 | 79,450 | 0 |
| | Nwy | 1,032,823 | 965,688 | 1,024,685 |
| | Olew Nwy | 0 | 64,800 | 707,389 |
| Dangosyddion Ariannol (£) | Gwariant – ynni | 251,458 | 253,118 | 261,933 |

| Adnoddau y mae pen draw iddynt | Dŵr | 2023/24* | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| Heb fod yn ariannol ($M^3$) | Cyflenwyd | 15,046 | 13,514 | 7,081 |
| | Tynnwyd | 1,318 | 1,981 | 3,591 |
| Dangosyddion Ariannol (£) | Costau cyflenwi dŵr | 52,259 | 40,221 | 17,908 |

| Teithio | | 2023/24* | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| $CO_2$ | Rheilffordd | 3,185 | 2,235 | 777 |
| | Awyr | 2,306 | 8,304 | 251 |
| | Cwch | 0 | 0 | 0 |
| | Car (Tacsi / Bws ac ati) | 238 | 123 | 12 |
| | Defnydd o Gar Personol | 10,640 | 12,575 | 5,235 |
| | **Cyfanswm** | **16,369** | **23,237** | **6,275** |
| Cost | Rheilffordd | 22,050 | 15,004 | 4,960 |
| | Awyr | 1,447 | 3,488 | 119 |
| | Cwch | 0 | 0 | 0 |
| | Car (Tacsi / Bws ac ati) | 1,020 | 568 | 116 |
| | Defnydd o Gar Personol | 18,829 | 21,735 | 8,820 |
| | **Cyfanswm** | **43,346** | **40,795** | **14,015** |
| Milltiroedd | Rheilffordd | 56,721 | 39,361 | 13,683 |
| | Awyr | 5,457 | 30,881 | 638 |
| | Cwch | 0 | 0 | 0 |
| | Car (Tacsi / Bws ac ati) | 1,007 | 641 | 50 |
| | Defnydd o Gar Personol | 41,525 | 47,702 | 19,451 |
| | **Cyfanswm** | **104,710** | **118,585** | **33,822** |

*Data Plas Menai heb eu cynnwys yn dilyn cytundeb partneriaeth gyda Parkwood sy'n rheoli'r gwaith o redeg y safle o ddydd i ddydd ers mis Chwefror 2023.

## Allyriadau $CO_2$

| Blwyddyn | Cwmpas 1 Nwy / Olew |
|---|---|
| 2023/24 | **189,988** |
| 2022/23 | **191,753** |
| 2021/22 | **367,960** |

| Blwyddyn | Cwmpas 2 Trydan |
|---|---|
| 2023/24 | **221,425** |
| 2022/23 | **247,686** |
| 2021/22 | **245,468** |

| Blwyddyn | Cwmpas 3 Teithio |
|---|---|
| 2023/24 | **16,369** |
| 2022/23 | **23,237** |
| 2021/22 | **6,275** |

| Blwyddyn | Cyfanswm |
|---|---|
| 2023/24 | **427,782** |
| 2022/23 | **462,676** |
| 2021/22 | **619,703** |

## Dangosyddion Ariannol

| Blwyddyn | Cwmpas 1 Nwy / Olew |
|---|---|
| 2023/24 | **40,480** |
| 2022/23 | **46,388** |
| 2021/22 | **78,045** |

| Blwyddyn | Cwmpas 2 Trydan |
|---|---|
| 2023/24 | **210,978** |
| 2022/23 | **206,730** |
| 2021/22 | **183,888** |

| Blwyddyn | Cwmpas 3 Teithio |
|---|---|
| 2023/24 | **43,346** |
| 2022/23 | **40,795** |
| 2021/22 | **14,105** |

| Blwyddyn | Cyfanswm |
|---|---|
| 2023/24 | **294,804** |
| 2022/23 | **293,913** |
| 2021/22 | **275,948** |

## Adroddiad Bioamrywiaeth

Er mwyn cyflawni'r uchelgeisiau bioamrywiaeth yng nghynllun Cynaliadwyedd Amgylcheddol Chwaraeon Cymru, mae angen i Chwaraeon Cymru feithrin ein capasiti a'n gallu mewnol. Cwblhaodd 17 o gydweithwyr Chwaraeon Cymru y cwrs Nature-wise ar ecoleg a'r amgylchedd a ddarparwyd gan Cynnal Cymru. Roedd y cwrs yn cynnwys gwybodaeth a thrafodaeth ar y wyddoniaeth y tu ôl i ecoleg a newid hinsawdd; y newidiadau sy'n digwydd i fyd natur yng Nghymru; a'r camau y gall sefydliadau ac unigolion eu cymryd i atal colli bioamrywiaeth ac i gynnal a gwella ecosystemau. Bydd y cwrs yn galluogi Chwaraeon Cymru i ddatblygu camau gweithredu effeithiol i fynd i'r afael â bioamrywiaeth. Cafodd gwybodaeth allweddol o'r cwrs ei rhaeadru'n ehangach i'n gweithlu hefyd, drwy eitem cinio a dysgu, cyflwyniadau i dimau perthnasol a chyfathrebu â'r holl staff.

Ar hyn o bryd mae Chwaraeon Cymru yn adolygu ein proses asesu effaith gyda'r bwriad o gynnwys bioamrywiaeth fel ystyriaeth wrth ddatblygu polisïau a phrosiectau.

Dyfarnwyd Dyfarniad Aur i Blas Menai gan Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru fel rhan o'u Menter Hyrwyddwyr Busnes. Mae hyn yn cydnabod y gwaith parhaus sy'n cael ei wneud ym Mhlas Menai i warchod yr amgylchedd a gweithredu'n gynaliadwy, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth a darparu addysg am fioamrywiaeth. Mae tîm Plas Menai bellach yn gweithio tuag at y Safonau Platinwm a Diemwnt yn eu hymgais barhaus i fod yn fwy cynaliadwy fel busnes ac i warchod yr amgylchedd.

Mae dwy enghraifft isod yn tynnu sylw at rywfaint o'r gwaith sy'n cael ei wneud yn y sector chwaraeon ac yn dangos y potensial wrth godi ymwybyddiaeth ac wrth i addysg gael ei darparu'n ehangach:

Mae Golff Cymru yn parhau i gynnwys bioamrywiaeth a chynaliadwyedd wrth galon eu strategaeth. Roedd eu sioe deithiol i Glybiau yn 2023 o amgylch Cymru yn rhoi sylw mawr i fioamrywiaeth gyda siaradwyr arbenigol ac astudiaethau achos o arfer da o wahanol fathau o gyrsiau yng Nghymru.

Mae Canŵio Cymru wedi parhau i gynyddu effaith clybiau Cymru yn y Big Paddle Clean-Up blynyddol, gyda thua 30 o glybiau'n cymryd rhan fel arfer. Mae'r fenter pythefnos yn cael effaith werthfawr ar fioamrywiaeth gyda thua 60km o afonydd, glannau a thraethlinau'n cael eu clirio a'u gwella ar gyfer bywyd gwyllt a byd natur. Mae'r fenter yn ategu Cod Rhwyfwyr y corff rheoli sy'n cynnig cyngor ar sut i rwyfo'n gyfrifol a sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r gamp.

**SWYDDOG CYFRIFO:**
B Davies
20 Medi 2024

# Adroddiad Atebolrwydd

## Adroddiadau Llywodraethu Corfforaethol

### Adroddiad Y Cyfarwyddwyr

### Y Bwrdd

Yn ystod 2023-24, roedd Chwaraeon Cymru yn cynnwys yr aelodau Bwrdd canlynol;

| Aelod Bwrdd | Tymor | Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg | Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant | Pwyllgor Tâl |
|---|---|---|---|---|
| **Cadeirydd** Y Farwnes Tanni Grey Thompson DBE DL | 1 Gorffennaf 2022 – 30 Mehefin 2025 | - | - | Aelod |
| **Is Gadeirydd** Pippa Britton OBE | 1 Hydref 2020 – 30 Medi 2023 | - | Aelod | Aelod |
| **Is Gadeirydd** Ian Bancroft | 1 Hydref 2023 – 30 Medi 2026 | - | - | Aelod |
| Ashok Ahir | 1 Hydref 2020 – 30 Medi 2023 | Aelod | Aelod | - |
| Ian Bancroft[1] | 1 Hydref 2020 – 30 Medi 2023 | - | - | - |
| Rajma Begum | 1 Medi 2022 – 31 Awst 2025 | - | Aelod | - |
| Hannah Bruce (Murphy gynt) | 1 Medi 2022 – 31 Awst 2025 | - | - | - |
| Dafydd Trystan Davies[2] | 1 Medi 2022 – 31 Awst 2025 | - | - | - |

[1] Gwasanaethodd Ian Bancroft fel aelod Bwrdd am gyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 30 Medi 2023. Yn dilyn proses benodi gyhoeddus, penodwyd Ian Bancroft fel yr Is Gadeirydd am gyfnod o dair blynedd a ddechreuodd ar 1 Hydref 2023.

[2] Mae Dafydd Trystan Davies wedi cymryd cyfnod sabothol o bum mis o'r Bwrdd, a ddechreuodd ar 12 Chwefror 2024.

| Aelod Bwrdd | Tymor | Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg | Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant | Pwyllgor Tâl |
|---|---|---|---|---|
| Delyth Evans | 1 Medi 2022 – 31 Awst 2025 | Aelod | - | - |
| Rhian Gibson | 1 Hydref 2023 – 30 Medi 2026 | - | Aelod | - |
| Chris Jenkins OBE | 1 Hydref 2023 – 30 Medi 2026 | Aelod | - | - |
| Nicola Mead-Batten | 1 Medi 2022 – 31 Awst 2025 | Aelod | - | - |
| Judi Rhys MBE | 1 Medi 2021 – 31 Awst 2024 | - | Aelod | - |
| Yr Athro Leigh Robinson | 1 Medi 2021 – 31 Awst 2024 | - | Aelod | - |
| Alison Thorne | 1 Hydref 2020 – 30 Medi 2023 | Aelod | Aelod | - |
| Phil Tilley | 1 Medi 2021 – 31 Awst 2024 | - | - | - |
| Martin Veale YH | 1 Medi 2021 – 31 Awst 2024 | Aelod | Aelod | Aelod |
| Nuria Zolle | 1 Hydref 2023 – 30 Medi 2026 | Aelod | Aelod | - |

Prif Weithredwr
Brian Davies OBE
(Yn weithredol o 27.03.23)

Penodir holl aelodau'r Bwrdd am dymor cychwynnol o dair blynedd a gallant wasanaethu am uchafswm o ddau dymor.

## Datgan Buddiannau

Mae holl Aelodau Bwrdd ac uwch staff Chwaraeon Cymru wedi cwblhau datganiad buddiannau cynhwysfawr, gan gynnwys manylion am unrhyw fuddiannau sydd ganddynt mewn sefydliadau sy'n darparu, neu'n ceisio darparu, gwasanaethau masnachol i Chwaraeon Cymru ar gyfer 2023-24. Mae'r wybodaeth a ddarperir, sy'n galw am ddatgeliad yn unol â Safon Gyfrifo Ryngwladol 24 ('Datgeliadau Partïon Cysylltiedig') yn cael ei datgelu yn Nodyn 17 y datganiadau ariannol hyn.

## Digwyddiadau Cysylltiedig â Data Personol

Mae gan Chwaraeon Cymru fesurau rheoli a pholisïau yn eu lle i sicrhau integriti'r data. Mae'r systemau Technoleg Gwybodaeth yn sicrhau mesurau llym o ran rheoli diogelwch ffisegol data. Hefyd mae gan Chwaraeon Cymru drefniadau diogelwch seibr priodol yn eu lle i atal mynediad heb awdurdod o bell at y data. Cyn belled ag y gwyddom ni, ni chollwyd unrhyw ddata yn ystod y cyfnod sy'n cael ei adolygu.

## Canfod a Rheoli Risg

Ceir manylion am Reoli Risg yn adran Rheoli Risg y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar dudalen 116.

## Polisi Talu Cyflenwyr a'r Perfformiad a Gyflawnwyd

O dan Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998 ac yn unol â'r Cod Ymarfer Talu Gwell (sydd ar gael yn www.payontime.co.uk), mae'n ofynnol i Chwaraeon Cymru dalu anfonebau cyflenwyr nad oes anghydfod yn eu cylch o fewn 30 diwrnod i dderbyn y nwyddau neu'r gwasanaethau neu anfoneb ddilys, pa un bynnag yw'r hwyraf.

Nod Chwaraeon Cymru yw talu 100% o'i anfonebau, gan gynnwys yr anfonebau y mae anghydfod yn eu cylch, unwaith y mae'r anghydfod wedi cael ei setlo, yn unol â'r telerau hyn. Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024, talodd Chwaraeon Cymru 100% (2022-23: 100%) o'i holl anfonebau gan gadw at delerau ei bolisi talu. Ni chodwyd unrhyw log yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i daliadau hwyr. Mae Chwaraeon Cymru hefyd yn anelu at dalu i gyflenwyr, pan fo modd, o fewn 10 diwrnod yn unol â'r canllawiau Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016. Yn ystod 2023-24, talwyd 93% (2022-23: 95%) o'r trafodion o fewn yr amserlen hon.

## Offerynnau Ariannol

Ceir manylion yr offerynnau ariannol yn nodyn 1.12 y datganiadau ariannol.

## Tâl Archwilwyr

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn goruchwylio natur a maint y gwaith heb fod yn archwilio a wneir gan Archwilio Cymru a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ein harchwilwyr allanol. Yn ystod 2023-24, ni wnaed unrhyw waith heb fod yn waith archwilio gan ein harchwilwyr. Datgelir y ffi archwilio yn nodyn 7 yn y datganiadau ariannol.

Datganiad ar Ddatgelu Gwybodaeth Archwilio Berthnasol.

1. Cyn belled ag y gŵyr y Swyddog Cyfrifo, nid oes gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni, ac
2. Mae'r Swyddog Cyfrifo wedi cymryd pob cam angenrheidiol er mwyn sicrhau ei bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio ac er mwyn sefydlu bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

## Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr

O dan y Siarter Brenhinol, dyddiedig 4 Chwefror 1974 (a ddiwygiwyd ar 14 Mehefin 2017), mae'n ofynnol i Gyngor Chwaraeon Cymru (Chwaraeon Cymru) baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar sail a benderfynir gan Lywodraeth Cymru, gyda chaniatâd Trysorlys EM. Paratoir y datganiadau ariannol ar sail gronnol ac mae'n rhaid iddynt gyflwyno darlun cywir a theg o faterion Chwaraeon Cymru ar ddiwedd y flwyddyn, gan gynnwys ei wariant net, y newidiadau mewn ecwiti a llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i Chwaraeon Cymru gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Cofnodion Ariannol y Llywodraeth ac, yn benodol, cyflawni'r canlynol:

- Cadw at y cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru a'r Adran ar gyfer Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifo addas ar sail gyson;
- Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- Datgan a gadwyd at safonau cyfrifo priodol, a datgelu ac egluro unrhyw wyro sylfaenol yn y datganiadau ariannol;
- Paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol rhagdybio y bydd yr endid yn parhau i weithredu; a
- Sicrhau bod yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol yn deg, cytbwys a dealladwy.

Mae'r Prif Swyddog Cyfrifo ar gyfer Gweinidogion Cymru wedi penodi'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifo Chwaraeon Cymru. Mae'r cyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys y cyfrifoldeb am briodolrwydd a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifo yn atebol amdano, ac am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau Chwaraeon Cymru, wedi'u datgan ym Memorandwm y Swyddogion Cyfrifo a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

**SWYDDOG CYFRIFO:**
B Davies
20 Medi 2024

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023-24

## Cyflwyniad

Mae'r Datganiad Llywodraethu'n dwyn at ei gilydd bob datgeliad am faterion perthnasol i lywodraethu, risg a rheolaeth sefydliad.
Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf i'n bersonol gyfrifol am y Datganiad Llywodraethu sy'n amlinellu sut rwyf wedi defnyddio fy nghyfrifoldeb i reoli adnoddau Chwaraeon Cymru yn ystod y flwyddyn.

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf wedi adolygu Llywodraethu Corfforaethol mewn Adrannau Llywodraeth Ganolog: Cod Ymarfer Da 2017 ac yn credu bod Chwaraeon Cymru wedi cydymffurfio'n llawn ag elfennau perthnasol y cod mewn perthynas â'i swyddogaethau Trysorlys a Loteri.

## Llywodraethu Corfforaethol

### Y Bwrdd

Llywodraethu Corfforaethol yw'r system ar gyfer cyfarwyddo a rheoli sefydliadau. Mae Bwrdd Chwaraeon Cymru yn gyfrifol am lywodraethu Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru. Rôl y Bwrdd yw ei fodloni ei hun bod strwythur llywodraethu priodol yn ei le a chraffu ar berfformiad y Weithrediaeth a gwaith y sefydliad yn cyflawni Strategaeth Chwaraeon Cymru.

Mae Bwrdd Chwaraeon Cymru yn cynnwys Cadeirydd, Is Gadeirydd a hyd at ddeuddeg aelod arall ac fe'u penodir i gyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae cyfansoddiad y Bwrdd yn cynnwys cynrychiolaeth o ystod eang o wahanol broffesiynau ac aelodau sydd ag arbenigedd a phrofiad perthnasol i chwaraeon cymunedol ac elitaidd, yn ogystal â'r gyfres ehangach o sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer rôl o'r natur hon. Cedwir matrics sgiliau'r Bwrdd i sicrhau bod gan y Bwrdd y cyfuniad cywir o sgiliau a phrofiad.

Cyrhaeddodd pedwar aelod o'r Bwrdd ddiwedd eu hail dymor o dair blynedd yn ystod y flwyddyn. Hoffai Chwaraeon Cymru gofnodi ei ddiolch yn ffurfiol i Pippa Britton OBE, Ashok Ahir, Ian Bancroft ac Alison Thorne am eu gwasanaeth ymroddedig a'u cyfraniad at gyflawni'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru. Yn dilyn proses benodi gyhoeddus, penododd Llywodraeth Cymru Ian Bancroft yn is-gadeirydd am dymor o dair blynedd gan ddechrau ym mis Hydref 2023 ochr yn ochr â Chris Jenkins OBE, Rhian Gibson a Nuria Zolle fel aelodau newydd o'r Bwrdd.

Er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau a chael y sicrwydd sy'n ofynnol bod arferion llywodraethu da yn eu lle, mae tri phwyllgor parhaol wedi cael eu sefydlu; Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, y Pwyllgor Tâl a'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, a phob un yn cael eu cadeirio gan aelod Bwrdd. Adolygwyd cylch gorchwyl pob pwyllgor yn ystod y flwyddyn.

Dangosir y presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'i bwyllgorau parhaol yn y tabl isod.

| **Aelod Bwrdd** | **Cyfarfod Bwrdd** (Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd allan o 7[1]) | **Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg** (Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd allan o 4) | **Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant** (Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd allan o 3) | **Pwyllgor Tâl** (Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd allan o 2) |
|---|---|---|---|---|
| Y Farwnes Tanni Grey-Thompson, DBE, DL (Cadeirydd) | 7 / 7 | Amherthnasol | Amherthnasol | 2 / 2 |
| Pippa Britton OBE (Is Gadeirydd) | 3 / 3 | Amherthnasol | 1 / 2 | 1 / 2 |
| Ian Bancroft (Is Gadeirydd) | 4 / 4 | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Ashok Ahir | 2 / 3 | 2 / 2 | 1 / 2 | Amherthnasol |
| Ian Bancroft | 4 / 4 | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Rajma Begum | 5 / 7 | Amherthnasol | 2 / 3 | Amherthnasol |
| Hannah Bruce (Murphy gynt) | 6 / 7 | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Delyth Evans | 7 / 7 | 2 / 2 | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Rhian Gibson | 4 / 4 | Amherthnasol | 1 / 1 | Amherthnasol |
| Chris Jenkins OBE | 4 / 4 | 1 / 2 | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Nicola Mead-Batten | 5 / 7 | 4 / 4 | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Judi Rhys MBE | 5 / 7 | Amherthnasol | 2 / 3 | Amherthnasol |
| Yr Athro Leigh Robinson | 7 / 7 | Amherthnasol | 3 / 3 | Amherthnasol |
| Alison Thorne | 3 / 3 | 2 / 2 | 1 / 2 | Amherthnasol |
| Phil Tilley | 6 / 7 | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |

[1] Cynhaliwyd dau gyfarfod Bwrdd arbennig ym mis Rhagfyr 2023 a mis Ionawr 2024.

| **Aelod Bwrdd** | **Cyfarfod Bwrdd** (Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd allan o 7[1]) | **Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg** (Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd allan o 4) | **Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant** (Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd allan o 3) | **Pwyllgor Tâl** (Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd allan o 2) |
|---|---|---|---|---|
| Dafydd Trystan Davies[2] | 6 / 6 | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Martin Veale YH | 5 / 7 | 4 / 4 | 3 / 3 | 2 / 2 |
| Nuria Zolle | 4 / 4 | 2 / 2 | 1 / 1 | Amherthnasol |
| **(Aelodau annibynnol – Pwyllgor Archwilio yn unig)** | | | | |
| Robert Williams[3] | Amherthnasol | 3 / 3 | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Hywel Tudor | Amherthnasol | 4 / 4 | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Canran Gyffredinol y Gyfradd Bresenoldeb** | **89%** | **96%** | **75%** | **83%** |

[2] Dechreuodd Dafydd Trystan Davies ar gyfnod sabothol o bum mis o'r Bwrdd ar 12 Chwefror 2024.

[3] Cyrhaeddodd Robert Williams ddiwedd ei dymor fel aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Rhagfyr 2023. Mae Chwaraeon Cymru yn ddiolchgar i Robert am ei gyfraniad at ein trefniadau craffu.

## Polisi Chwythu'r Chwiban

Mae gan Chwaraeon Cymru Bolisi Chwythu'r Chwiban sydd wedi'i sefydlu a'i gymeradwyo gan y Bwrdd. Tynnir sylw at y Polisi hwn wrth groesawu staff ac aelodau i'r sefydliad ac mae'r manylion i'w gweld yn Llawlyfr y Staff. Yn ystod 2023-24, ni roddwyd gwybod am unrhyw ddigwyddiadau.

Rydym yn credu bod y polisi'n effeithiol ac mae gan y staff fynediad llawn iddo, os oes angen. Mae'r polisi'n cael ei adolygu'n achlysurol, yn unol â Llawlyfr y Staff. Ymdrinnir â chwythu'r chwiban allanol drwy ein Polisi Cwynion, sydd ar gael ar ein gwefan. Ni adroddwyd am unrhyw ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn.

## Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i'w gefnogi yn benodol gyda chyflawni ei gyfrifoldebau ym maes risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu, drwy gyfrwng y canlynol:

- Adolygu pa mor gynhwysfawr yw'r prosesau, y mesurau rheoli a'r mesurau eraill cyfredol o ran diwallu anghenion sicrwydd y Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifo a sut maent yn cael eu gweithredu.
- Adolygu dibynadwyedd ac integriti'r sicrwydd a ddarperir gan y weithrediaeth a'r archwilwyr mewnol ac allanol.
- Cyflwyno barn ar ba mor dda mae'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifo'n cael eu cefnogi wrth wneud penderfyniadau ac wrth gyflawni eu rhwymedigaethau atebolrwydd (yn enwedig o ran Cofnodion Ariannol).
- Sicrhau bod y risgiau y tynnir sylw atynt yn cael eu neilltuo i aelodau'r Tîm Arweinyddiaeth ac y manylir ar gamau gweithredu priodol i liniaru ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cynnwys hyd at saith aelod, gyda dau'n gallu bod yn annibynnol, ac mae angen o leiaf un aelod annibynnol. Cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith yn ystod y flwyddyn a chafwyd cyfradd bresenoldeb gyffredinol o 96% gan yr aelodau.

Yn ystod y flwyddyn, roedd meysydd ffocws y Pwyllgor yn cynnwys (ond nid oeddent yn gyfyngedig i) y canlynol:

- Gweithredu ac effeithiolrwydd y trefniadau rheoli risg sydd yn eu lle yn Chwaraeon Cymru, gan gynnwys ystyriaeth reolaidd i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.
- Adolygu'r trefniadau sydd yn eu lle ar gyfer GDPR a seibrddiogelwch.
- Ystyried y trefniadau gwrth-dwyll sydd yn eu lle yn Chwaraeon Cymru.
- Cytuno ar y Cynllun Archwilio Mewnol.
- Adroddiadau archwilio mewnol yn cwmpasu meysydd busnes penodol a'r Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol.
- Penodi archwilwyr mewnol newydd drwy ymarfer caffael cystadleuol.
- Y Cynllun Archwilio Allanol a'i gyflawni, gan gynnwys ystyried adroddiad ISA 260.
- Monitro perfformiad archwilio mewnol ac allanol.
- Yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol a'u fformat.
- Materion cydymffurfio rheoleiddiol, gan gynnwys ystyried dyletswyddau cyhoeddus Chwaraeon Cymru.
- Adolygu treuliau aelodau'r Bwrdd.
- Adolygiad o'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch.
- Adolygu unrhyw wyro oddi wrth weithdrefnau caffael safonol.

Mae'r systemau TG yn sicrhau bod diogelwch ffisegol data yn cael ei reoli. Yn 2023-24 ni nodwyd unrhyw faterion risg gwybodaeth, na gwendidau rheoli sylweddol, ac roedd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn fodlon bod lefel y risg yn dderbyniol ac yn cael ei rheoli mewn dull priodol.

Cynhaliodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg adolygiad blynyddol o'r Strategaeth Atal Twyll a'r Cynllun Gweithredu yn ystod y flwyddyn. Roedd y rhain yn amlinellu cynnydd y camau gweithredu allweddol sydd ar droed yn dilyn adolygiad o Safon Swyddogaethol y Llywodraeth ar gyfer Twyll (13) a gynhaliwyd yn 2022-23. Roedd y diweddariad yn amlinellu'r trefniadau sydd ar waith gan gynnwys y Polisi Gwrth Dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd, gofynion ar gyfer datgan buddiannau, gwahanu dyletswyddau, defnyddio technoleg a meddalwedd i ganfod twyll (gan gynnwys trefniadau seibrddiogelwch), y gofrestr lletygarwch a hyfforddiant. Nododd y Pwyllgor y trefniadau sydd yn eu lle ac mae'r aelodau hefyd wedi cyfrannu at y gwaith o ddatblygu Polisi Gwrth Dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd diwygiedig, a fydd yn cael ei gwblhau yn derfynol yn 2024-25.

Derbyniodd y Bwrdd gofnodion y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mhob cyfarfod ac mae'n cael cyngor Cadeirydd y Pwyllgor mewn perthynas ag unrhyw faterion arwyddocaol. Hefyd mae Cadeirydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad blynyddol ffurfiol ar waith y Pwyllgor i'r Bwrdd.

## Y Pwyllgor Tâl

Mae'r Pwyllgor Tâl yn cyfarfod i adolygu ac argymell ar gyfer cymeradwyaeth i Lywodraeth Cymru gyflog y Prif Weithredwr a'r dyfarniad tâl blynyddol ar gyfer y staff i gyd drwy gyfrwng proses cylch gwaith tâl Llywodraeth Cymru. Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr Adroddiad Tâl a Staff ar dudalen 119. Cyfarfu'r pwyllgor ddwywaith yn ystod y flwyddyn ac roedd y gyfradd presenoldeb yn 83%.

## Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Sefydlwyd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i herio, cefnogi a goruchwylio gwaith Chwaraeon Cymru wrth gyflawni ei Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb yn fewnol ac o ran ei gefnogaeth i'r sector. Cyfarfu'r pwyllgor dair gwaith yn ystod y flwyddyn ac roedd y gyfradd presenoldeb yn 75%.

Un maes ffocws allweddol i'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn oedd goruchwylio a chyfrannu at ddatblygiad Cynllun Cydraddoldeb Strategol diwygiedig ar gyfer y cyfnod 2024-28.

## Yr Uwch Dîm Rheoli Gweithredol

Mae'r Weithrediaeth, o dan arweiniad y Prif Weithredwr, yn atebol i'r Bwrdd am ddatblygu a gweithredu strategaethau a pholisïau ac adrodd yn ôl arnynt. Mae'r Weithrediaeth yn cynnwys y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes, y Cyfarwyddwr Deallusrwydd Chwaraeon a Datblygu Gwasanaethau a'r Cyfarwyddwr Systemau Chwaraeon.

Yn dilyn proses recriwtio gystadleuol, penodwyd Owen Lewis i swydd Cyfarwyddwr: System Chwaraeon, gan ddechrau ym mis Awst 2023. Tan yr amser hwn, roedd trefniadau interim ar waith gydag Owen Lewis a Joanne Nicholas yn ymuno â'r Tîm Gweithredol. Mae Chwaraeon Cymru yn ddiolchgar i'r ddau am eu cyfraniadau yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r Weithrediaeth yn cyfarfod yn wythnosol i ystyried materion o natur weithredol ac mae wedi cyflwyno cyfarfodydd misol i ystyried materion o bwysigrwydd strategol.

Mae'r cynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes yn cael ei adrodd a'i fonitro drwy gydol y flwyddyn ac ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd.

## Effeithiolrwydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau

Mae cyfarfodydd y Bwrdd yn parhau i gael eu cynnal mewn dull hybrid. Gofynnwyd yn rheolaidd i aelodau'r Bwrdd am eu barn am sut gellid gwella strwythur y cyfarfodydd hyn ac ymgorfforwyd newidiadau ymarferol i alluogi cynnal y cyfarfodydd yn fwy effeithiol. Bydd hyn yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd fel rhan o Atodlen Busnes y Bwrdd.

Mae'r Cadeirydd wedi ystyried effeithiolrwydd y Bwrdd yn ystod y flwyddyn drwy ymgymryd â'r canlynol:

- Adolygiad cynhwysfawr o'r Llawlyfr Llywodraethu Corfforaethol sy'n nodi'r trefniadau sydd ar waith yn Chwaraeon Cymru, gan gynnwys ymddygiadau disgwyliedig gan aelodau'r Bwrdd.
- Adolygu a gloywi Cylch Gorchwyl holl bwyllgorau'r Bwrdd.
- Cyflwyno rhaglen sefydlu gynhwysfawr ar gyfer aelodau newydd y Bwrdd.
- Casglu adborth ar feysydd o arfer da a meysydd i'w gwella gan yr aelodau sy'n gadael y Bwrdd.
- Datblygu matrics sgiliau Bwrdd cynhwysfawr i gynorthwyo datblygiad personol a chynllunio olyniaeth.

Gwnaed cynnydd hefyd gyda Chynllun Gweithredu Llywodraethu'r Bwrdd. Yn benodol, mae'r Matrics Sgiliau'r Bwrdd wedi helpu i gynllunio olyniaeth ar gyfer y Bwrdd, gan nodi sgiliau / profiad i'w blaenoriaethu wrth recriwtio yn y dyfodol.

Cynhaliwyd sesiwn Bwrdd wyneb yn wyneb yn Wrecsam, gan gysylltu aelodau'r Bwrdd â'i gilydd ac â sefydliadau chwaraeon lleol.

Cynhelir Adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd gan archwilwyr mewnol Chwaraeon Cymru yn ystod 2024-25.

Cynhaliwyd sesiwn datblygu Bwrdd hefyd i alluogi craffu manwl ar ddatblygiad Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru.

Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i gefnogi'r Tîm Gweithredol a phenderfynodd yn ystod y flwyddyn enwebu aelodau unigol o'r Bwrdd i weithio'n agos gydag aelodau o'r Weithrediaeth ar bob prosiect mawr, drwy sefydlu a / neu barhau â nifer o Grwpiau Gorchwyl a Gorffen.

Caiff penderfyniadau a wneir gan y Bwrdd a'i bwyllgorau eu seilio ar gyngor a ddarperir gan staff Chwaraeon Cymru. Disgwylir i bapurau ac adroddiadau a gynhyrchir gan swyddogion ddangos yn glir yr holl wybodaeth berthnasol sydd ei hangen er mwyn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus. Dosberthir papurau cyn pob cyfarfod o'r bwrdd a'r pwyllgorau; dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y derbynnir eitemau a gyflwynir ac adroddiadau llafar. Roedd y Bwrdd yn fodlon yn ystod y flwyddyn gydag amseroldeb ac ansawdd yr wybodaeth a ddarparwyd ar gyfer ei ddefnydd.

## Rheoli Risg

### Pwrpas y system o reolaeth fewnol

Pwrpas y system o reolaeth fewnol yw rheoli a chyfyngu ar risg ond ni all fyth ei dileu. Felly, dim ond sicrwydd rhesymol, ac nid absoliwt, y mae'n gallu ei ddarparu.

Seilir y system o reolaeth fewnol ar broses barhaus o ganfod a rhoi blaenoriaeth i'r risgiau o ran cyflawni polisïau, amcanion a nodau Chwaraeon Cymru, gwerthuso'r tebygolrwydd i'r risgiau hyn gael eu gwireddu, a'r effaith pe baent yn cael eu gwireddu, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd.

Mae'r system o reolaeth fewnol wedi bod yn ei lle yn Chwaraeon Cymru drwy gydol y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol, ac mae'n cyd-fynd â chanllawiau Trysorlys EM a Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

Yn olaf, mae'r system o reolaeth fewnol yn darparu sicrwydd rhesymol bod Chwaraeon Cymru wedi cydymffurfio â chyfarwyddiadau ariannol y Loteri Genedlaethol a bod prosesau digonol yn eu lle ar gyfer canfod gwrthdaro rhwng buddiannau a lleihau colledion o ran grantiau Loteri.

## Y gallu i ddelio â risg

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf yn bersonol gyfrifol am sicrhau bod gan Chwaraeon Cymru broses rheoli risg effeithiol yn ei lle. Goruchwylir y broses hon gan y Bwrdd, drwy gyfrwng y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Fel sefydliad, rydym yn monitro pob risg allweddol drwy ddefnydd priodol o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol. Rydym wedi cofnodi Dyhead Risg a Dull Rheoli Risg sy'n cynnwys diffiniadau perthnasol i reoli risg ac yn datgan sut dylid canfod, cofnodi, dadansoddi a rheoli risg.

Mae risgiau corfforaethol, a'r mesurau rheoli a weithredir i'w lliniaru, yn cael eu neilltuo i reolwr priodol neu aelod priodol o'r Weithrediaeth a'u rheoli ganddo, neu, mewn rhai achosion, gan y Swyddog Cyfrifo. Mae risgiau gweithredu yn gyfrifoldeb y penaethiaid adran perthnasol ac efallai y bydd y gwaith o reoli risg o ddydd i ddydd yn cael ei ddirprwyo i'r staff maent yn eu rheoli.

Canfyddir risgiau newydd gan swyddogion Chwaraeon Cymru, adran graffu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg neu'r Bwrdd ei hun. Ar ôl canfod risg newydd, mae'n cael ei gosod ar y Gofrestr Risg briodol, ei hasesu, ei sgorio a'i neilltuo i sylw aelod o'r tîm Gweithredol a / neu reolwr priodol

## Y fframwaith risg a rheoli

Mae rheoli risg wedi'i ymgorffori yn strwythurau rheoli Chwaraeon Cymru. Mae mwyafrif y risgiau a nodir yn deillio o nodau sefydliadol ac o broses cynllunio busnes Chwaraeon Cymru.

Mae'r Gofrestr Risg yn hygyrch i holl gyflogeion Chwaraeon Cymru drwy gyfrwng porthol ar-lein, gyda'r hawliau golygu wedi'u cyfyngu i reolwyr perthnasol. Mae trefniadau rheoli risg Chwaraeon Cymru yn destun archwiliad mewnol blynyddol ac yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae'r Gofrestr Risg yn cofnodi risgiau corfforaethol sylweddol, gan gynnwys risgiau i wybodaeth, asesiad cyffredinol o effaith debygol a thebygolrwydd, mesurau rheoli a, lle bo angen, rhestr o fesurau gweithredu yn y dyfodol. Adolygir y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn rheolaidd gan yr Uwch Reolwyr, y Grŵp Rheoli a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Hefyd mae'r rheolwyr yn rhoi cyflwyniad yn eu tro i'r Grŵp Rheoli a Sicrwydd Risg ar eu meysydd risg penodol a sut maent yn rheoli neu'n lliniaru'r risgiau hynny.

## Risgiau Allweddol

Mae risgiau i weithgareddau strategol a gweithredol allweddol yn cael eu datgan, eu gwerthuso a'u hystyried gan y Grŵp Rheoli a Sicrwydd Risg, a gweithredir yn briodol i'w lliniaru. Adolygir y Risgiau Corfforaethol a'r camau gweithredu i'w lliniaru yn rheolaidd. Dylanwedir ar y rhaglen archwilio fewnol gan y risgiau a gofnodir ar y Gofrestr Risg ac, os yw hynny'n briodol, mae'r archwilwyr yn cyflwyno argymhellion i roi sylw i unrhyw risgiau neu ganfod rhai newydd. Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn adolygu'r argymhellion hyn ym mhob cyfarfod pwyllgor, gan gynnwys y cynnydd sy'n cael ei wneud gyda gweithredu'r argymhellion. Mae'r eitemau'n cael eu trafod ac mae adborth yn cael ei roi i'r Tîm Gweithredol.

Yn ystod y flwyddyn, daeth risg sylweddol yn ymwneud ag effaith setliad cyllido gwael gan Lywodraeth Cymru i'r amlwg, gan ddod yn fater gweithredol i'w reoli. Yn dilyn cadarnhad y byddai cyllideb Llywodraeth Cymru i Chwaraeon Cymru ar gyfer 2024-25 yn gostwng 10.5%, cyfarfu'r Tîm Gweithredol a'r Bwrdd i drafod y mater a sut gellid rheoli a lliniaru'r effaith. Ystyriwyd hyn hefyd yng nghyd-destun cyfnod o bwysau costau chwyddiant uchel. Mae hyn yn parhau i gael ei ystyried gan fod ansicrwydd sylweddol ynghylch setliadau cyllidebol yn y dyfodol.

Mae risg sylweddol o hyd y gallai costau byw uwch effeithio'n niweidiol ar gyflawni strategaeth Chwaraeon Cymru, oherwydd gallai'r sector ymateb drwy leihau gweithgareddau, cwtogi ar oriau agor neu gynyddu costau. Mae hyn yn debygol o effeithio ar y rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, gan leihau hygyrchedd i chwaraeon.

Mae risg newydd wedi dod i'r amlwg o ganlyniad i setliad cyllidebol is y Trysorlys. Mae risg bosibl i gynaliadwyedd / gwytnwch ariannol parhaus partneriaid. Mae camau lliniaru sylweddol ar y gweill i gefnogi'r sector gyda chynaliadwyedd ariannol, gan gynnwys nodi arbedion effeithlonrwydd posibl a chamau lliniaru.

Mae risgiau eraill sy'n sgorio'n uwch ar y gofrestr risg gorfforaethol yn cynnwys seibrddiogelwch, ansicrwydd gwleidyddol, methiant i gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth, colli neu gyswllt â gwybodaeth sensitif a diffyg ymgysylltu ymhlith staff wrth i ni ddatblygu strategaeth hirdymor ar gyfer gweithio hybrid.

Mae gan Chwaraeon Cymru agwedd ddoeth a deallus at gymryd risg yn gyffredinol, er mwyn cyflawni ei flaenoriaethau. Y Bwrdd sy'n rheoli'r dyhead risg a chaiff ei adolygu'n flynyddol. Os oes risg sylweddol yn codi, bydd Chwaraeon Cymru yn gweithredu'n effeithiol i'w lleihau ac yn rheoli'r risgiau hyn i lefel briodol. Mae'r Weithrediaeth a'r Bwrdd yn ymwybodol o'r angen am arloesi ymhellach ac yn gyflymach yn y dyfodol ac, i'r diben hwn, mae'n edrych ar wahanol fecanweithiau a phartneriaid cyflawni. Bydd hyn yn creu risgiau newydd a gwahanol ac yn gallu cynyddu lefel y risg y mae Chwaraeon Cymru yn ei chymryd. Felly, efallai y bydd dyhead risg Chwaraeon Cymru yn codi, ond dim ond oddi mewn i amgylchedd risg doeth ac wedi'i reoli.

Mae'r Archwilwyr Mewnol wedi rhoi "sicrwydd sylweddol" cyffredinol i Chwaraeon Cymru fel gradd ar gyfer y flwyddyn. Hefyd maent wedi rhoi'r categori gradd uchaf i drefniadau llywodraethu corfforaethol a rheoli risg Chwaraeon Cymru.

Mae'n galonogol nodi nad oedd unrhyw ganfyddiadau a gafodd eu dosbarthu fel risg "uchel" yn codi o'r gwaith archwilio mewnol. Gwnaed cyfanswm o 7 argymhelliad ac, o blith y rhain, cafodd 1 ei ddosbarthu fel "blaenoriaeth ganolig" a'r 6 yn weddill eu dosbarthu fel "blaenoriaeth isel", ynghyd â 9 pwynt gweithredu o adroddiadau cynghori.

O ran gweithredu dilynol, roedd 5 allan o'r 6 argymhelliad blaenorol a wnaed wedi cael eu gweithredu yn llawn neu yn rhannol adeg yr archwiliad. Ailgodwyd yr argymhelliad oedd yn weddill a sefydlwyd amserlen wedi'i hadolygu ar gyfer gweithredu.

Mae'r holl argymhellion a wneir gan ein harchwilwyr mewnol ac allanol yn cael eu monitro gan ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n amserol.

## Monitro Grantiau

Mae mwyafrif cyllid Chwaraeon Cymru yn cael ei wario drwy ddyfarnu grantiau. Dyfernir grantiau ar sail meini prawf buddsoddi clir ar gyfer allbynnau a chanlyniadau chwaraeon allweddol. Mae Chwaraeon Cymru yn cymryd camau priodol i fonitro'r defnydd o ddyfarniadau o'r fath drwy ofyn am adroddiadau ffurfiol gan y rhai sy'n eu derbyn, yn ogystal â thrafod yn barhaus â phartneriaid allweddol er mwyn casglu gwybodaeth anffurfiol.

Hefyd, ceir meini prawf cysoni penodol ac os yw'r gwariant yn amrywio o lefel y grant sydd wedi'i ddyfarnu, mae Chwaraeon Cymru yn ymarfer ei hawl i ofyn am symiau o'r fath yn eu hôl.

Caiff y prosesau dyfarnu a monitro grantiau eu hadolygu'n flynyddol gan ein harchwilwyr mewnol. Hefyd mae archwilwyr allanol yn archwilio ein gweithgareddau dyfarnu grantiau o dan y Trysorlys a'r Loteri Genedlaethol bob blwyddyn.

## Rheolaeth Fewnol

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni polisïau, amcanion a nodau Chwaraeon Cymru. Hefyd, mae gennyf gyfrifoldeb personol am ddiogelu elw'r Loteri Genedlaethol a ddosberthir i Chwaraeon Cymru ac asedau Chwaraeon Cymru, yn unol â'r cyfrifoldebau sydd wedi'u neilltuo i mi wrth Reoli Arian Cyhoeddus Cymru.

Rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol. Goruchwylir hyn gan y Bwrdd, drwy gyfrwng y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Yn sail i'm hadolygiad mae gwaith yr archwilwyr mewnol ac allanol a'r cyflwyniadau staff i Grŵp Rheoli a Sicrwydd Risg Chwaraeon Cymru, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol. Rwyf yn bwriadu rhoi sylw i wendidau a sicrhau gwelliant parhaus y systemau hyn.

Darparwyd gwasanaeth archwilio mewnol Chwaraeon Cymru yn ystod 2023-24 gan Deloitte LLP, a weithredodd yn unol â'r safonau a ddiffinnir yn y Safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y Sector Cyhoeddus.

Cyflwynir adroddiadau rheolaidd fel rhan o'r archwilio mewnol, fel sail i farn flynyddol annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd systemau rheolaeth fewnol a rheoli risg Chwaraeon Cymru, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella.

Bob blwyddyn, mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn llunio Adroddiad Blynyddol ar ei waith i Fwrdd Chwaraeon Cymru.

## Datblygiadau Parhaus

Er bod y system gyfredol o reolaeth fewnol yn un gadarn, nid ydym yn gorffwys ar ein rhwyfau, ac fel rhan o'n hethos o welliant parhaus, rydym yn adolygu'r meysydd rydym yn credu y gallem eu gwella ac yn cymryd camau i greu newid.

Bydd y meysydd ffocws ar gyfer 2024-25 yn cynnwys y canlynol:

- Gwella trefniadau seibrddiogelwch ymhellach, yn enwedig yng nghyd-destun blwyddyn gemau Olympaidd a Pharalympaidd. Rydym yn parhau i ddisodli'r systemau a etifeddwyd ac yn rhagweld cyflawni achrediad Cyber Essentials Plus yn ystod y flwyddyn. Caiff ein trefniadau eu gwella ymhellach gan feddalwedd seibrddiogelwch, sy'n cyfuno dysgu peirianyddol a chefnogaeth barhaus i sicrhau gwytnwch.
- Ymateb Argyfwng i efelychu rheoli risgiau a materion sy'n dod i'r amlwg, gan brofi ein prosesau a nodi meysydd i'w gwella.

**SWYDDOG CYFRIFO:**
B Davies
20 Medi 2024

# Adroddiad Tâl a Staff

Mae gan Chwaraeon Cymru ystod helaeth o bolisïau sy'n adlewyrchu'r ddeddfwriaeth gyfredol ac sy'n anelu at sicrhau cadw a chymell. Adolygir y polisïau hyn yn rheolaidd gan gynnwys y staff drwy gytundeb cydnabod gyda'n Hundeb Llafur cydnabyddedig, Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS). Cynhelir asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer pob polisi fel rhan o'r broses hon. Mae Chwaraeon Cymru wedi ymrwymo i bolisi cyfle cyfartal yn ei arferion cyflogaeth. Yn benodol, mae Chwaraeon Cymru yn ceisio sicrhau nad oes unrhyw ddarpar gyflogai neu gyflogai presennol yn cael ei drin yn llai ffafriol ar sail oedran, anabledd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhywedd, statws priodasol neu fel rhiant, cenedligrwydd, cred wleidyddol, hil, crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol. Rydym yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd ar Lefel 2 ac rydym hefyd wedi llofnodi Siarter Hil yn y Gwaith Busnes yn y Gymuned.

Rydym yn parhau i fod yn gyflogwr Cyflog Byw gyda chyflog cychwynnol o £12.04 yr awr o leiaf. Dyfarnwyd dyfarniad tâl o 5% i'r holl staff yn ystod y flwyddyn i helpu gyda'r cynnydd mewn costau byw.

Yn ogystal, rhoddodd Chwaraeon Cymru ddyfarniad anghyfnerthedig, heb fod yn pro rata, o £1,500 i bob cyflogai. Roedd trosiant y staff ar gyfer 2023/24 yn 9.38% (34.96% yn 2022/23, 14.05% yn 2021/22). Cafwyd un diswyddiad yn ystod y flwyddyn.

## Data Absenoldeb Salwch

Mae data salwch cyflogeion y sefydliad cyfan ar gyfer 2023/24 (2022/2023) fel a ganlyn:

| Cyfanswm y Dyddiau a Gollwyd | Cyfanswm y Cyflogeion (Cyfwerth ag Amser Llawn) | Cyfanswm y Dyddiau o Salwch a Gollwyd y Pen |
|---|---|---|
| 828.00 (768.00) | 145.85 (159.62) | 5.68 (4.81) |

Y gyfradd absenoldeb gyffredinol ar gyfer 2023/24 yw 2.47%. Mae hwn yn gynnydd bychan ar gyfradd 2022/23 o 2.3%, ond yn parhau'n sylweddol is na'r gyfradd a adroddwyd gan yr ONS o 3.6% ar gyfer gweithwyr y sector cyhoeddus.

O blith y 2.47, cafodd 1.4% eu dosbarthu fel tymor hir a 1.07% fel tymor byr.

Mae Chwaraeon Cymru wedi parhau i roi blaenoriaeth uchel i iechyd meddwl a lles ei gyflogeion ac wedi cynnal nifer o fentrau i gefnogi'r gweithlu yn y cyswllt hwn.

## Cynllun Pensiwn

Mae Chwaraeon Cymru yn gweithredu dau gynllun pensiwn ar gyfer ei staff. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn aelodau o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae'r Gronfa'n gynllun pendant sy'n darparu buddiannau'n seiliedig ar Enillion Ailbrisio Cyfartalog Gyrfaol (CARE). Mae asedau'r Gronfa'n cael eu cadw ar wahân i rai Chwaraeon Cymru.

Bydd unrhyw bensiwn a gronnwyd cyn mis Ebrill 2008 yn cael ei gyfrif ar gyfradd o 1/80fed gyda chyfandaliad o deirgwaith y pensiwn. Yn unol â rheoliadau LGPS, caiff pensiwn sydd wedi cronni o 1 Ebrill 2008 ymlaen ei gyfrif ar gyfradd o 1/60ain a cheir opsiwn i gymryd cyfandaliad ychwanegol yn gyfnewid am bensiwn. Mae pensiwn sydd wedi cronni ers 1 Ebrill 2014 yn cael ei gyfrif ar gyfradd o 1/49ain gydag opsiwn i gymryd cyfandaliad ychwanegol yn gyfnewid am bensiwn. Mae cyfraniadau'r cyflogeion rhwng 5.5% a 10.5% yn seiliedig ar raddfa cyflog neu rhwng 2.75% a 5.25% os bydd y cyflogai'n dewis y cynllun pensiwn 50/50. Mae manylion pellach i'w gweld yn nodyn 1.7 a nodyn 18 y datganiadau ariannol. Hefyd mae Chwaraeon Cymru yn gweithredu cynllun pensiwn Cyfraniad Pendant gyda Scottish Widows, gyda Chwaraeon Cymru yn cyfrannu 6.5% a'r cyflogeion yn cyfrannu 1.5%.

## Polisi Tâl

Yn unol â Phennod 5 y Llawlyfr Cofnodion Ariannol, mae'n ofynnol i Chwaraeon Cymru ddatgelu'r canlynol mewn perthynas â thâl yn ystod y flwyddyn am Aelodau'r Bwrdd a'r uwch staff sydd â chyfrifoldebau am redeg adrannau llunio polisïau. Mae canllawiau'r Trysorlys yn datgan ei bod yn ofynnol i'r datganiadau ariannol ddatgelu gwerth trosglwyddo cyfatebol i arian parod y pensiynau ar gyfer Aelodau ac uwch staff Chwaraeon Cymru.

Telir i'r Cadeirydd, yr Is Gadeirydd ac Aelodau Chwaraeon Cymru yn unol â pholisi "Tâl a chostau Cadeiryddion ac Aelodau Cyrff Rheoli a Noddir gan Senedd Cymru a Chyrff y GIG" Llywodraeth Cymru. Mae'r Pwyllgor Tâl, sy'n cynnwys Cadeirydd Chwaraeon Cymru, yr Is Gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, a gefnogir gan gyflogeion Chwaraeon Cymru, yn cyfarfod i gytuno ar ddyfarniad tâl ar gyfer y staff i gyd, drwy gyfrwng proses cylch gorchwyl cyflog Llywodraeth Cymru. Cymeradwyir yr holl newidiadau i gyflog y Prif Swyddog Gweithredol gan y Pwyllgor Tâl, ac yn yr un modd rhaid i unrhyw gynnydd mewn tâl i staff gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

## Contractau Gwasanaeth

Cyflogir uwch staff Chwaraeon Cymru ar delerau ac amodau sy'n eithaf tebyg i delerau ac amodau Llywodraeth Cymru.

Penodir Aelodau Chwaraeon Cymru gan Weinidogion Cymru ar gontract am gyfnod o dair blynedd ac efallai y byddant yn cael eu hailbenodi am gyfnod o dair blynedd arall. Mae gan y Cadeirydd hawl i gyfradd ddyddiol o £337 ac mae'n cael contract i weithio tua deuddydd yr wythnos. Telir cyfradd ddyddiol o £311 i'r Is Gadeirydd ac mae'n cael contract i weithio tua tridiau y mis.

## Cyfnod Rhybudd

Mae gan y Prif Weithredwr hawl i rybudd o bedwar mis gan Chwaraeon Cymru os terfynir y contract ac mae gan weddill yr uwch staff hawl i rybudd o ddeuddeg wythnos o derfynu'r contract.

## Amser Cyfleuster yr Undeb Llafur

Mae Chwaraeon Cymru yn caniatáu i aelodau Pwyllgor Gweithredol Cangen undeb y PCS weithio ar faterion yr undeb, pan mae angen, yn ystod oriau gwaith a bydd y cyflogeion yn parhau i dderbyn eu hawl i gyflog llawn.

# Cyflog y Prif Swyddog Gweithredol

## Tâl

Mae "cyflog" yn cynnwys cyflog crynswth, lwfansau a bonws perfformiad, os yw hynny'n berthnasol. Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Prif Weithredwr £115,000 (2022/23 £108,000). Nid oes unrhyw aelod o staff yn gymwys i gael taliad bonws.

Mae cyfran o gostau cyflog yr Uwch Reolwyr yn cael ei neilltuo i'r loteri.

## Manteision mewn Nwyddau neu Gynnyrch

Nid oes unrhyw fanteision mewn nwyddau neu gynnyrch.

## Hawliadau Cyflog a Phensiwn

Mae'r adrannau canlynol yn cyflwyno manylion am dâl a llog pensiwn uwch reolwyr Chwaraeon Cymru. Gwelir manylion am y dyddiadau dechrau/gadael yn y tabl Buddiannau Pensiwn ar dudalen 127. Mae'r wybodaeth hon wedi cael ei harchwilio.

## Costau Staff (yn amodol ar archwiliad)

| Parhaol | 2023/2024<br>£'000 | 2022/2023<br>£'000 |
|---|---|---|
| Cyflogau a thâl | 6,373 | 6,190 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 667 | 688 |
| Costau Pensiwn eraill | 1,528 | 2,241 |
| Staff ar secondiad | - | - |
| | 8,568 | 9,119 |
| Staff Asiantaeth a Chyfarwyddo | 42 | 411 |
| | 8,610 | 9,530 |
| Addasiadau IAS19 | (610) | 880 |
| | 8,000 | 10,410 |
| Llai: Dyraniad i SPORTLOT | (3,210) | (3,428) |
| | 4,790 | 6,982 |

## TÂL (yn amodol ar archwiliad)

| Enw | Teitl | % a Neilltuwyd i'r Loteri 2023/24 (2022/23) | Cyflog £000 2023/24 (2022/23) | Budd Pensiwn i'r £1,000 agosaf 2023/24 (2022/23) | Cyfanswm £000 2023/24 (2022/23) |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Farwnes Tanni Grey-Thompson DBE, DL[1] | Cadeirydd | 50% (50%) | 35 - 40 (25 - 30) | - - | 35 - 40 (25 - 30) |
| Mr Ian Bancroft[2] | Is Gadeirydd / Aelod o'r Cyngor | 50% (50%) | 5 - 10 (5 - 10) | - - | 5 - 10 (5 - 10) |
| Ms Pippa Britton[3] | Is Gadeirydd | 50% (50%) | 5 - 10 (10 -15) | - - | 5 - 10 (10 - 15) |
| Mr Brian Davies OBE | Prif Swyddog Gweithredol | 25% (25%) | 110 - 115 (105 - 110) | 35,000 (5,000) | 145 - 150 (100 - 105) |
| Ms Emma Wilkins | Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Cyllid a Busnes | 25% (25%) | 75 - 80 (70 - 75) | 30,000 (28,000) | 110 - 115 (100 - 105) |
| Mr Graham Williams | Cyfarwyddwr – Gwybodaeth Chwaraeon a Datblygu Gwasanaethau | 25% (25%) | 85 - 90 (80 - 85) | 53,000 (81,000) | 140 - 145 (160 - 165) |
| Mr Craig Nowell[4] | Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Cyfleusterau Chwaraeon Cenedlaethol, Seilwaith a Chyfalaf | 0% (0%) | 65 - 70 (60 - 65) | 64,000 (352,000) | 130 - 135 (415 - 420) |
| Mr Owen Lewis[5] | Cyfarwyddwr - Strategaeth a Gwasanaethau'r System Chwaraeon / Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Strategaeth a Gwasanaethau'r System Chwaraeon | 100% (100%) | 75 - 80 (65 - 70) | 52,000 (51,000) | 125 - 130 (115 - 120) |

[1] Penodwyd 4ydd Gorffennaf 2022. Band cyflog cyfwerth ag amser llawn £35k - £40k
[2] Tymor fel aelod o'r cyngor wedi dod i ben ar 30ain Medi 2023. Is Gadeirydd o 1af Hydref 2023
[3] Tymor wedi dod i ben ar 30ain Medi 2023
[4] Trosglwyddo o fewn cronfa LGPS yn ystod 2022/23
[5] Gweithredu fel rhan o'r tîm Gweithredol o 18fed Medi 2021 tan 31ain Gorffennaf 2023. Cyfarwyddwr o 1af Awst 2023. Band cyflog FYE £70k - £75k

| Enw | Teitl | % a Neilltuwyd i'r Loteri 2023/24 (2022/23) | Cyflog £000 2023/24 (2022/23) | Budd Pensiwn i'r £1,000 agosaf 2023/24 (2022/23) | Cyfanswm £000 2023/24 (2022/23) |
|---|---|---|---|---|---|
| Mrs Joanne Nicholas[6] | Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Darpariaeth y System Chwaraeon a Pherthnasoedd | 50% (50%) | 70 - 75 (65 - 70) | 28,000 (32,000) | 95 - 100 (95 - 100) |
| Mr Ashok Ahir[7] | Aelod o'r Cyngor | 50% (50%) | 0 - 5 (5 - 10) | - - | 0 - 5 (5 - 10) |
| Ms Alison Thorne[8] | Aelod o'r Cyngor | 50% (50%) | 0 - 5 (5 - 10) | - - | 0 - 5 (5 - 10) |
| Ms Judi Rhys MBE | Aelod o'r Cyngor | 50% (50%) | 5 - 10 (5 - 10) | - - | 5 - 10 (5 - 10) |
| Yr Athro Leigh Robinson | Aelod o'r Cyngor | 50% (50%) | 5 - 10 (5 - 10) | - - | 5 - 10 (5 - 10) |
| Mr Phil Tilley | Aelod o'r Cyngor | 50% (50%) | 5 - 10 (5 - 10) | - - | 5 - 10 (5 - 10) |
| Mr Martin Veale YH | Aelod o'r Cyngor | 50% (50%) | 5 - 10 (5 - 10) | - - | 5 - 10 (5 - 10) |
| Ms Rajma Begum | Aelod o'r Cyngor | 50% (50%) | 5 - 10 (5 - 10) | - - | 5 - 10 (5 - 10) |
| Mr Dafydd T Davies[9] | Aelod o'r Cyngor | 50% (50%) | 5 - 10 (5 - 10) | - - | 5 - 10 (5 - 10) |
| Ms Delyth Evans | Aelod o'r Cyngor | 50% (50%) | 5 - 10 (5 - 10) | - - | 5 - 10 (5 - 10) |
| Ms Nicola Mead-Batten | Aelod o'r Cyngor | 50% (50%) | 5 - 10 (5 - 10) | - - | 5 - 10 (5 - 10) |
| Ms Hannah Bruce | Aelod o'r Cyngor | 50% (50%) | 5 - 10 (5 - 10) | - - | 5 - 10 (5 - 10) |
| Ms Rhian Gibson[10] | Aelod o'r Cyngor | 50% - | 0 - 5 - | - - | 0 - 5 - |
| Mr Chris Jenkins OBE[11] | Aelod o'r Cyngor | 50% - | 0 - 5 - | - - | 0 - 5 - |
| Ms Nuria Zolle[12] | Aelod o'r Cyngor | 50% - | 0 - 5 - | - - | 0 - 5 - |

[6] Gweithredu fel rhan o'r tîm Gweithredol o 18fed Medi 2021 tan 31ain Gorffennaf 2023
[7] Tymor wedi dod i ben ar 30ain Medi 2023
[8] Tymor wedi dod i ben ar 30ain Medi 2023
[9] Tâl sabothol / sero o 12fed Chwefror 2024
[10] Penodwyd 1af Hydref 2023
[11] Penodwyd 1af Hydref 2023
[12] Penodwyd 1af Hydref 2023

Mae'r Adroddiad Tâl yn datgan yn awr bod rhaid i Ffigur Cyfanswm Sengl ar gyfer Tâl gael ei ddangos. Mae'r tabl uchod yn debyg i'r un a ddefnyddid yn flaenorol ac mae'n dal i ddangos y cyflog a delir mewn bandiau. Caiff y ffigur budd pensiwn sy'n cyfrannu at y ffigur cyfanswm sengl ei gyfrif mewn ffordd newydd, fel a ganlyn:

(gwir gynnydd mewn pensiwn* x 20)
+ (gwir gynnydd mewn cyfandaliad*)
– (cyfraniadau gan y cyflogai)

*ac eithrio cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd/gostyngiad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn

Nid yw'r ffigur budd pensiwn yn swm sydd wedi cael ei dalu i'r cyflogai gan Chwaraeon Cymru yn ystod y flwyddyn. Mae'n fudd yn y dyfodol i'r cyflogai a dylanwedir arno gan sawl ffactor gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, newidiadau mewn cyflog ac unrhyw gyfraniadau ychwanegol a wneir gan y cyflogai.

## Buddiannau Pensiwn yr Uwch Reolwyr (yn amodol ar archwiliad)

| Enw | Gwir gynnydd mewn Pensiwn (a chyfandaliad) yn 65 oed ar gyfer 2023/24 £000 | Cyfanswm y pensiwn wedi cronni yn 65 oed ar 31 Mawrth 2024 £000 | CETV ar 31 Mawrth 2024 £000 | CETV ar 31 Mawrth 2023 £000 | Gwir Gynnydd/ (Gostyngiad) Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod yn y Flwyddyn £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Mr Brian Davies OBE Prif Swyddog Gweithredol | 2.0 - 2.5 (0.0 - 2.5) | 35 - 40 (25 - 30) | 693 | 624 | 64 |
| Mr Graham Williams<br><br>Cyfarwyddwr – Gwybodaeth Chwaraeon a Datblygu Gwasanaethau | 2.5 - 5.0 (0.0 - 2.5) | 40 - 45 (45 - 50) | 824 | 747 | 72 |
| Ms Emma Wilkins Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Cyllid a Busnes | 0.0 - 2.5 (0.0 - 2.5) | 5 - 10 (0 - 5) | 123 | 95 | 23 |

| Enw | Gwir gynnydd mewn Pensiwn (a chyfandaliad) yn 65 oed ar gyfer 2023/24 £000 | Cyfanswm y pensiwn wedi cronni yn 65 oed ar 31 Mawrth 2024 £000 | CETV ar 31 Mawrth 2024 £000 | CETV ar 31 Mawrth 2023 £000 | Gwir Gynnydd/ (Gostyngiad) Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod yn y Flwyddyn £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Mr Craig Nowell Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Cyfleusterau Chwaraeon Cenedlaethol, Seilwaith a Chyfalaf | 3.0 - 3.5 (0.0 - 2.5) | 20 - 25 (10 - 15) | 344 | 288 | 51 |
| Mr Owen Lewis Cyfarwyddwr - Strategaeth a Gwasanaethau'r System Chwaraeon / Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Strategaeth a Gwasanaethau'r System Chwaraeon | 2.5 - 5.0 (0.0 - 2.5) | 25 - 30 (15 - 20) | 394 | 339 | 50 |
| Mrs Joanne Nicholas Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Darpariaeth y System Chwaraeon a Pherthnasoedd | 0.0 - 2.5 (0.0 - 2.5) | 5 - 10 (0 - 5) | 80 | 55 | 20 |

Y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf buddiannau'r gronfa bensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol ac a aseswyd yn actwaraidd. Y buddiannau a brisir yw'r buddiannau sydd wedi'u cronni gan yr aelodau ac unrhyw bensiwn wrth gefn i gymar sy'n daladwy o'r cynllun. Mae'r Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn sicrhau buddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan mae aelodau'n gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau sydd wedi cronni yn eu cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn berthnasol i'r buddiannau sydd wedi cronni gan yr unigolyn o ganlyniad i aelodaeth lawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond eu gwasanaeth mewn swydd uwch, y mae datgeliad yn berthnasol iddi.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i gynllun pensiwn Chwaraeon Cymru. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiannau pensiwn ychwanegol sydd wedi cronni i'r aelod o ganlyniad i brynu buddiannau pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod oddi mewn i'r canllawiau a'r fframwaith a ragnodir gan y Sefydliad a'r Fframwaith Actwarïau ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosib mewn buddiannau o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes Gyfan, a all fod yn ddyledus pan dynnir buddiannau pensiwn o'r cynllun.

## Gwir Gynnydd mewn Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod

Mae hwn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod a gyllidir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn sydd wedi cronni oherwydd chwyddiant na chyfraniadau a delir gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddir o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredinol ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Staff (yn amodol ar archwiliad)

Roedd nifer y cyflogeion parhaol ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn, ar sail cyfwerth ag amser llawn, yn cynnwys y canlynol:

| Staff | 2023/2024 Nifer | 2022/2023 Nifer |
|---|---|---|
| Cyfanswm | 145.85 | 159.62 |

O 1af Chwefror 2023 ymlaen, cafodd holl gyflogeion Plas Menai eu TUPE i Parkwood / Legacy Leisure ac nid ydynt yn rhan o gyfrifiad staff Chwaraeon Cymru. Mae cyfansoddiad staff cyfredol y cyfarwyddwyr corfforaethol yn 60% gwryw a 40% benyw. O blith y cyflogeion parhaol sy'n weddill mae 44% yn wrywod a 56% yn fenywod.

## Polisi Treth ar gyfer y rhai a Benodir Oddi Ar y Gyflogres

Ar 31 Mawrth 2024, roedd 8 trefniant a oedd wedi bodoli (2022/23, 8 trefniant) ac yn eu lle am 4 blynedd neu fwy. Mae pob trefniant wedi cael eu hasesu ac wedi cael eu dosbarthu fel rhai'n gweithredu y tu allan i IR35. Mae Chwaraeon Cymru yn fodlon bod sicrwydd wedi'i geisio i gadarnhau bod unigolion wedi gwneud trefniadau priodol i dalu treth. Nid oes yr un unigolyn yn aelod o'r Bwrdd nac yn uwch swyddog gyda chyfrifoldeb ariannol sylweddol.

## Cynlluniau iawndal – pecynnau ymadael (yn amodol ar archwiliad)

| Band cost y pecyn ymadael | Nifer y diswyddiadau 2023-24 | Nifer y diswyddiadau 2022-23 |
|---|---|---|
| < £10,000 | 0 | 0 |
| £10,000 - £25,000 | 1 | 0 |
| £25,000 - £50,000 | 0 | 0 |
| £50,000 - £100,000 | 0 | 0 |
| £100,000 - £150,000 | 0 | 0 |
| Cyfanswm y pecynnau ymadael | 1 | 0 |
| Cyfanswm costau adnoddau (£) | 21 | 0 |

Telir taliadau diswyddo a chostau ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil. Cyfrifir am y costau ymadael yn llawn yn y flwyddyn ymadael. Os yw Chwaraeon Cymru wedi cytuno i ymddeoliad cynnar, telir y costau ychwanegol gan Chwaraeon Cymru.

## Datgeliadau Cyflog Teg (yn amodol ar archwiliad)

Mae'n ofynnol i gyrff sy'n adrodd yn ôl ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl mwyaf yn eu sefydliad a thâl 25ain canradd, canolrifol a 75ain canradd gweithlu'r sefydliad.

| Cymhareb Tâl Canradd | 2023/24 Prif Weithredwr (Cyfarwy-ddwr â'r Cyflog) £000 | 2023/24 Cyflogai £000 | 2023/24 Cymha-reb | 2022/23 Prif Weithredwr (Cyfarwy-ddwr â'r Cyflog Uchaf) £000 | 2022/23 Cyflogai £000 | 2022/23 Cymha-reb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 25ain | 112.5 | 28.7 | 3.9 | 107.5 | 28.9 | 3.7 |
| Canolrifol | 112.5 | 38.2 | 2.9 | 107.5 | 33.4 | 3.2 |
| 75ain | 112.5 | 45.5 | 2.5 | 107.5 | 43.3 | 2.5 |

Nid yw cyflogeion yn derbyn buddion mewn nwyddau na thâl perfformiad.

Cafodd y gymhareb ei chyfrif gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau canlynol:

1. Dim ond cyflogau'r staff a delir drwy'r gyflogres a staff asiantaeth sydd wedi cael eu defnyddio.
2. Nid yw'r ffigurau wedi cael eu haddasu i adlewyrchu unrhyw gyfran i gyfrifon Dosbarthu'r Loteri h.y. mae'r costau'n adlewyrchu'r holl staff a gyflogir gan Gyngor Chwaraeon Cymru ac a brosesir drwy'r gyflogres.

Mae cyfanswm y tâl yn cynnwys cyflog a lwfansau ond yn eithrio taliadau diswyddo. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn cyflogwyr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod y pensiynau.

Amrywiodd y tâl o £23,258 i £113,118 (amrywiodd tâl 2022/23 o £22,150 i £107,732). Mae modd priodoli'r symudiad bychan yn y gymhareb ganolrifol 25ain i gynnydd yn y tegwch cyflog i'r graddau isaf. Mae'r gymhareb cyflog canolrifol yn gyson â'r polisïau tâl a dyfarnu ar gyfer cyflogeion Chwaraeon Cymru yn ei gyfanrwydd.

Y newid canrannol o'r flwyddyn ariannol flaenorol mewn perthynas â'r cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf oedd 5%. Y newid canrannol cyfartalog o'r flwyddyn ariannol flaenorol mewn perthynas â chyflogeion Chwaraeon Cymru yn ei gyfanrwydd oedd 5%.

**SWYDDOG CYFRIFO:**
B Davies
20 Medi 2024

# Tystysgrif ac adroddiad archwilio annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

## Barn ar y datganiadau ariannol

Yr wyf yn tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 o dan baragraff 18(3) Atodlen 8 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Datganiad Cyfnerthedig o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Cyfnerthedig o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Cyfnerthedig o Lif Arian, y Datganiad Cyfnerthedig o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifo sylfaenol. Mae'r fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yn gyfraith berthnasol a safonau cyfrifo rhyngwladol sydd wedi'u mabwysiadu gan y DU fel y'u dehonglwyd a'u haddasu gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM.

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol, ym mhob cyswllt sylfaenol:

- Yn cyflwyno darlun cywir a theg o gyflwr materion Cyngor Chwaraeon Cymru ar 31 Mawrth 2024 ac o'i wariant net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- Wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifo rhyngwladol y DU fel y'u dehonglir a'u haddasu gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM; ac
- Wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob cyswllt sylfaenol, mae'r incwm a'r gwariant a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y pwrpas y'u bwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol sydd wedi'u cofnodi yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail y farn

Rwyf wedi cynnal fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar gyfer Archwilio yn y DU (ISAs (y DU)) a Nodyn Ymarfer 10 '*Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig*'.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r adran datganiadau ariannol ar fy nhystysgrif.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i fy archwiliad ar y datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys *Safon Foesegol y Cyngor Adroddiadau Ariannol*, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Rwyf yn credu bod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i sicrhau'n ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

## Casgliadau perthnasol i fusnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, deuthum i'r casgliad bod y defnydd o'r sail busnes gweithredol ar gyfer cyfrifo wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd sylfaenol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, daflu amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail cyfrifo busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mabwysiadir y sail cyfrifo busnes gweithredol ar gyfer Cyngor Chwaraeon Cymru wrth ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol Llywodraeth Trysorlys EM, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu sail cyfrifo busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol wrth ragweld y bydd y gwasanaethau maent yn eu darparu yn parhau i'r dyfodol.

## Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol, yr adroddiad tâl a staff na a fy adroddiad archwilio i ar y rheiny. Y Swyddog Cyfrifo sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn i ar y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw ffurf ar gasgliad sicrwydd mewn perthynas â hi. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall a, thrwy wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylfaenol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gefais wrth gynnal yr archwiliad neu'n ymddangos wedi'i chamddatgan yn sylfaenol fel arall. Os byddaf yn canfod anghysondebau sylfaenol o'r fath neu gamddatganiadau sylfaenol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad sylfaenol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os dof i'r casgliad, yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i wneud, bod unrhyw gamddatganiadau sylfaenol yn gysylltiedig â'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi roi gwybod am hynny.

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd yn ôl yn y cyswllt hwn.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad Tâl a Staff sydd i gael ei harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol, yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i wneud yn ystod fy archwiliad:

- Mae'r rhannau o'r Adroddiad Blynyddol sy'n destun archwiliad wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006; ac
- Mae'r wybodaeth sydd yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

## Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r corff a'i amgylchedd a sicrhawyd fel rhan o'r archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau sylfaenol yn yr Adroddiad Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd arno yng nghyswllt y materion canlynol, yr wyf yn adrodd arnynt i chi os yw'r canlynol, yn fy marn i, yn wir:

- Nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r holl esboniadau y mae arnaf eu hangen ar gyfer fy archwiliad;
- Nid oes cofnodion cyfrifo digonol wedi cael eu cadw ac nid oes ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad wedi cael eu derbyn o ganghennau na fu fy nhîm yn ymweld â hwy;
- Nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Tâl sydd wedi cael ei harchwilio'n cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifo;
- Nid yw gwybodaeth a nodir gan Weinidogion Cymru ynghylch tâl a thrafodion eraill wedi'i datgelu;
- Nid yw rhai datgeliadau am dâl a nodir gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Llywodraeth Trysorlys EM wedi'u gwneud neu nid yw rhannau o'r Adroddiad Tâl a Staff i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifo; neu
- Nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM.

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr, mae'r Swyddog Cyfrifo'n gyfrifol am y canlynol:

- Cadw cofnodion cyfrifo priodol;
- Paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol cymwys ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg;
- Sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- Sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol;

- Mesurau rheoli mewnol fel y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn penderfynu sy'n angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol i fod yn rhydd o gamddatganiadau sylfaenol, boed hynny oherwydd twyll neu wall; ac
- Asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion yn ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifo busnes gweithredol oni bai fod y Swyddog Cyfrifo'n rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan y corff yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd yn ôl ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Fy amcanion i yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o unrhyw gamddatganiad sylfaenol, boed yn cael ei achosi gan dwyll neu gamgymeriad, a chyflwyno adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (UK) bob amser yn canfod camddatganiad sylfaenol pan mae'n bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad a chânt eu hystyried yn sylfaenol os gellir disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o fethu cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.

Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau sylfaenol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- Ymchwilio i reolwyr, archwiliad mewnol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys sicrhau ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Cyngor Chwaraeon Cymru sy'n ymwneud â:
  - Nodi, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - Canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheus neu honedig; ac
  - Y mesurau rheoli mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais botensial am dwyll wrth bostio cyfnodolion anarferol;
- Sicrhau dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Cyngor Chwaraeon Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae'n gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyngor Chwaraeon Cymru;

- Sicrhau dealltwriaeth o berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- Adolygu datgeliadau datganiadau ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â'r deddfau a'r rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod;
- Holi rheolwyr am ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- Darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd;
- Wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy reolwyr yn diystyru mesurau rheoli, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifo'n arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Hefyd, cyfathrebais am ddeddfau a rheoliadau perthnasol a risgiau twyll posib i holl aelodau'r tîm archwilio a pharhau'n effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd mesurau rheoli Cyngor Chwaraeon Cymru, a natur, amseriad a graddfa'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir yn effeithio ar i ba raddau mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adroddiadau Ariannol [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities](www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities). Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad fel archwilydd.

## Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Rwyf yn sicrhau digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm sydd wedi'u cofnodi yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y pwrpas y'u bwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol sydd wedi'u cofnodi yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwyf yn cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad ac unrhyw ganfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol y dof ar eu traws yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Adrian Crompton
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
2 Hydref 2024

1 Capital Quarter
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

## Datganiad Cyfnerthedig o Wariant Net Cynhwysfawr ar Gyfer Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ar Gyfer y Flwyddyn a Ddaeth I Ben ar 31 Mawrth 2024

| Disgrifiad | Nodyn | 2023/24 £'000 | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | |
| Gwariant Grant | 5 | 23,772 | 24,125 |
| Costau Staff | 6 | 4,790 | 6,982 |
| Gwariant Arall | 7 | 4,780 | 4,165 |
| Dibrisiant | 9 | 662 | 629 |
| Dibrisiant ROU | 10 | 5 | 5 |
| | | 34,009 | 35,906 |
| **Incwm** | | | |
| Incwm o Weithgareddau | 3 | (1,837) | (2,434) |
| Incwm Arall | 3 | (72) | (95) |
| | | (1,909) | (2,529) |
| **Gwariant Net** | | **32,100** | **33,377** |
| Cost Cyllid Pensiwn | | 37 | 185 |
| (Gwarged) ar Waredu Eiddo, Peiriannau ac Offer | 8 | (3) | (3) |
| Llog Derbyniadwy | | (45) | (20) |
| | | (11) | 162 |
| **Gwariant Net ar ôl llog a chyn trethiant** | | **32,089** | **33,539** |
| Trethiant Taladwy | | 9 | 4 |
| **Gwariant Net ar ôl Trethiant** | | **32,098** | **33,543** |
| **Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | | |
| Colled / (enillion) net ar ailbrisio Eiddo, Peiriannau ac Offer | 9b | 355 | (769) |
| (Enillion) actwaraidd ar bensiwn | 18 | (664) | (6,867) |
| **Cyfanswm y Gwariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben** | | **31,789** | **25,907** |

### Gweithrediadau Sy'n Parhau

Ni sefydlwyd unrhyw weithgareddau newydd yn ystod y flwyddyn gyfredol na'r flwyddyn flaenorol na dod ag unrhyw weithgareddau i ben.

Roedd y Gwariant Net ar ôl Trethiant ar gyfer y flwyddyn ariannol ac y gellid ei briodoli i weithgareddau Chwaraeon Cymru yn £32,098,000 (2022/2023 £33,543,000).

Mae'r nodiadau ar dudalennau 143 i 172 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad o Sefyllfa Ariannol Cyngor Chwaraeon Cymru ar 31 Mawrth 2024

| Disgrifiad | Nodyn | Ar 31 Mawrth 2024 £'000 | Ar 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, Peiriannau ac Offer | 9(a) | 520 | 614 |
| **Cyfanswm yr asedau anghyfredol** | | 520 | 614 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Masnach ac elfennau derbyniadwy eraill | 11 | 5,733 | 3,016 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | | 242 | 540 |
| | | 5,975 | 3,556 |
| **Cyfanswm yr Asedau** | | 6,495 | 4,170 |
| **Atebolrwydd cyfredol** | | | |
| Masnach ac elfennau taladwy eraill | 12 | (1,114) | (564) |
| Croniadau grant | 13 | (4) | (27) |
| Darpariaethau | 19 | - | (20) |
| **Cyfanswm yr atebolrwydd cyfredol** | | (1,118) | (611) |
| **Asedau anghyfredol ac asedau cyfredol net** | | 5,377 | 3,559 |
| **Atebolrwydd anghyfredol** | | | |
| Masnach ac elfennau taladwy eraill mewn mwy na blwyddyn | 12 | - | (26) |
| Atebolrwydd Pensiwn | 18 | (450) | (1,523) |
| **Cyfanswm yr atebolrwydd anghyfredol** | | (450) | (1,549) |
| **Asedau llai cyfrifoldebau** | | 4,927 | 2,010 |
| **Ecwiti trethdalwyr** | | | |
| Cronfa gyffredinol | | 5,377 | 3,533 |
| Cronfa bensiwn wrth gefn | | (450) | (1,523) |
| | | 4,927 | 2,010 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 143 i 172 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Bwrdd ar 20fed Medi 2024 a chawsant eu llofnodi ar ei ran gan;

**Swyddog Cyfrifo:**
B Davies
20 Medi 2024

## Datganiad Cyfnerthedig o Sefyllfa Ariannol Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ar 31 Mawrth 2024

| Disgrifiad | Nodyn | Ar 31 Mawrth 2024 £'000 | Ar 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, Peiriannau ac Offer | 9(b) | 20,033 | 20,325 |
| Ased Prydles Hawl i Ddefnydd | 10 | 1,871 | 1,898 |
| **Cyfanswm yr asedau anghyfredol** | | 21,904 | 22,223 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Masnach ac elfennau derbyniadwy eraill | 11 | 5,733 | 3,016 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | 15 | 246 | 544 |
| | | 5,979 | 3,560 |
| **Cyfanswm yr Asedau** | | 27,883 | 25,783 |
| **Atebolrwydd cyfredol** | | | |
| Masnach ac elfennau taladwy eraill | 12 | (1,119) | (569) |
| Croniadau grant | 13 | (4) | (27) |
| Darpariaethau | 19 | - | (20) |
| **Cyfanswm yr atebolrwydd cyfredol** | | (1,123) | (616) |
| **Asedau anghyfredol ac asedau cyfredol net** | | 26,760 | 25,167 |
| **Atebolrwydd anghyfredol** | | | |
| Masnach ac elfennau taladwy eraill mewn mwy na blwyddyn | 12 | (89) | (120) |
| Atebolrwydd Pensiwn | 18 | (450) | (1,523) |
| **Cyfanswm yr atebolrwydd anghyfredol** | | (539) | (1,643) |
| **Asedau llai cyfrifoldebau** | | 26,221 | 23,524 |
| **Ecwiti trethdalwyr** | | | |
| Cronfa gyffredinol | | 22,296 | 19,841 |
| Cronfa bensiwn wrth gefn | | (450) | (1,523) |
| Cronfa ailbrisio wrth gefn | | 4,375 | 5,206 |
| | | 26,221 | 23,524 |

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Bwrdd ar 20fed Medi 2024 a chawsant eu llofnodi ar ei ran gan;

**Swyddog Cyfrifo:**
B Davies
20 Medi 2024

## Datganiad Cyfnerthedig o Lif Arian Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ar Gyfer Y Flwyddyn a Ddaeth I Ben ar 31 Mawrth 2024

| Disgrifiad | Nodyn | Ar 31 Mawrth 2024 £'000 | Ar 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwariant net ar ôl trethiant | | (32,098) | (33,543) |
| (Gwarged) ar waredu eiddo, peiriannau ac offer | 8 | (3) | (3) |
| Dibrisiant eiddo, peiriannau ac offer | 9(b) | 662 | 629 |
| Dibrisiant ased Hawl i Ddefnydd | 10 | 5 | 5 |
| Cynnydd / (Gostyngiad) mewn masnach ac elfennau derbyniadwy eraill | 11 | (2,716) | 867 |
| Cynnydd / (Gostyngiad) mewn elfennau taladwy masnach[1] | 12 | 473 | (741) |
| (Gostyngiad) mewn croniadau grant | 13 | (23) | (17) |
| Llog a dderbyniwyd | 14 | (45) | (20) |
| Llog ROU | 10 | 1 | 1 |
| Atebolrwydd Prydles Cyfalaf | 10 | (6) | (6) |
| Costau pensiwn | 18 | (409) | 836 |
| Cynnydd yn y ddarpariaeth | 19 | (20) | 20 |
| All-lif arian net o weithgareddau gweithredu | | (34,179) | (31,972) |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau ac offer* | 9(b) | (697) | (1,947) |
| Elw o werthu eiddo, peiriannau ac offer | 8 | 25 | 4 |
| Llog a dderbyniwyd | 14 | 45 | 20 |
| All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi | | (627) | (1,923) |
| **Llif arian o weithgareddau cyllido** | | | |
| Cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru | 4 | 34,508 | 33,880 |
| (Gostyngiad) / cynnydd net mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod | | (298) | (15) |
| **Gostyngiad net mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod yn ystod y cyfnod** | | | |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod | 15 | 544 | 559 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod | 15 | 246 | 544 |
| | | (298) | (15) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 143 i 172 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

[1] addaswyd ar gyfer croniadau cyfalaf

## Datganiad Cyfnerthedig o Newidiadau I Ecwiti Trethdalwyr ar Gyfer Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ar Gyfer Y Flwyddyn a Ddaeth I Ben ar 31 Mawrth 2024

| Disgrifiad | Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn £'000 | Cronfa Gyffredinol £'000 | Cronfa Bensiwn Wrth Gefn £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cyllid ar 31 Mawrth 2023** | **5,206** | **19,841** | **(1,523)** | **23,524** |
| Gwariant Net ar ôl llog a chyn treth | - | (32,098) | - | (32,098) |
| Ailbrisio asedau Hawl i Ddefnydd | (22) | - | - | (22) |
| Cyllid a dderbyniwyd (Nodyn 4) | - | 34,508 | - | 34,508 |
| Ailbrisio asedau sefydlog diriaethol | (355) | - | - | (355) |
| Costau pensiwn | - | (409) | 409 | - |
| Trosglwyddo i'r gronfa gyffredinol | (454) | 454 | - | - |
| Colled actwaraidd | - | - | 664 | 664 |
| **Cyllid ar 31 Mawrth 2024** | 4,375 | 22,296 | (450) | 26,221 |

Y cyllid yng nghyfrifon anghyfnerthedig Chwaraeon Cymru ei hun ar 31 Mawrth 2024 oedd £4,927,000, (31 Mawrth 2023 £2,010,000) gydag £19,517,000 (2022/23 £19,715,000) yn cael ei briodoli i Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 143 i 172 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad Cyfnerthedig o Newidiadau I Ecwiti Trethdalwyr ar Gyfer Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ar Gyfer Y Flwyddyn a Ddaeth I Ben ar 31 Mawrth 2023

| Disgrifiad | Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn £'000 | Cronfa Gyffredinol £'000 | Cronfa Bensiwn Wrth Gefn £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cyllid ar 31 Mawrth 2022** | **3,099** | **18,208** | **(7,554)** | **13,753** |
| Addasiad ar gyfer gweithredu IFRS 16 | 1,811 | - | - | 1,811 |
| **Balans wedi'i addasu ar 1 Ebrill 2022** | **4,910** | **18,208** | **(7,554)** | **15,564** |
| Gwariant Net ar ôl llog a chyn treth | - | (33,543) | - | (33,543) |
| Ailbrisio asedau Hawl i Ddefnydd | (13) | - | - | (13) |
| Cyllid a dderbyniwyd (Nodyn 4) | - | 33,880 | - | 33,880 |
| Ailbrisio asedau sefydlog diriaethol | 769 | - | - | 769 |
| Costau pensiwn | - | 836 | (836) | - |
| Trosglwyddo i'r gronfa gyffredinol | (460) | 460 | - | - |
| Colled actwaraidd | - | - | 6,867 | 6,867 |
| **Cyllid ar 31 Mawrth 2023** | 5,206 | 19,841 | (1,523) | 23,524 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 143 i 172 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru Nodiadau ar Y Cyfrifon ar Gyfer Y Flwyddyn a Ddaeth I Ben ar 31 Mawrth 2024

## 1. Datganiad o Bolisïau Cyfrifo

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi yn unol â Llawlyfr Cofnodion Ariannol y Llywodraeth 2022/23 (Llawlyfr seiliedig ar IFRS) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisïau cyfrifo yn y Llawlyfr yn defnyddio'r Safonau Cofnodion Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel yr addaswyd neu a ddehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Os yw'r Llawlyfr yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifo, mae'r polisi cyfrifo sydd fwyaf priodol i amgylchiadau penodol Chwaraeon Cymru at bwrpas cyflwyno darlun cywir a theg wedi cael ei ddewis. Disgrifir y polisïau penodol sydd wedi'u mabwysiadu gan Chwaraeon Cymru isod. Mae'r rhain wedi cael eu defnyddio'n gyson wrth ddelio ag eitemau a ystyrir yn sylfaenol i'r cyfrifon. Paratowyd cyfrifon Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru er mwyn cadw at y Datganiad o Arfer a Argymhellir (SORP) a gyhoeddwyd gan Gomisiynwyr Elusennau Cymru a Lloegr yn 2015.

### 1.1 Sail y cyfrifo

Mae'r cyfrifon hyn wedi cael eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd i gyfrif am ailbrisio tir ac adeiladau.

### 1.2 Cyllid

Mae Chwaraeon Cymru yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i gyllido'i wariant cyfalaf a refeniw sy'n ychwanegol at ei incwm. Credydir y cyllid yn uniongyrchol i'r Gronfa Gyffredinol. Mae'r incwm gweithredu arall yn cynnwys incwm o ffioedd, nawdd a rhai gweithgareddau masnachu sy'n codi.

Mae Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru, corff elusennol sy'n eiddo i Chwaraeon Cymru yn llwyr, yn derbyn grantiau gan Chwaraeon Cymru ar gyfer gwariant cyfalaf ar eiddo, peiriannau ac offer perthnasol i dir ac adeiladau. Hefyd, mae gan yr Ymddiriedolaeth offer a brynwyd cyn mis Ebrill 2006. Ers mis Ebrill 2006, dim ond yng nghyfrifon Chwaraeon Cymru mae'r gwariant cyfalaf ar offer a cherbydau wedi'i gynnwys. Mae'r elw wrth i'r Ymddiriedolaeth werthu eiddo, peiriannau ac offer yn cael ei ildio i Chwaraeon Cymru.

### 1.3 Eiddo, Peiriannau ac Offer

Mae tir rhydd-ddaliadaeth wedi'i gynnwys yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol ar sail gwerth y farchnad agored, a'r adeiladau ar gost cyfnewid wedi dibrisio, i adlewyrchu natur arbenigol yr adeiladau. Sicrheir prisiad proffesiynol bob blwyddyn.

Mae offer a cherbydau'n gynwysedig yn y datganiad o sefyllfa ariannol ar sail cost hanesyddol llai darpariaeth ar gyfer dibrisiant. Ym marn Chwaraeon Cymru, nid oes unrhyw wahaniaeth sylfaenol rhwng gwerthoedd llyfr net cost hanesyddol a chyfredol yr asedau hyn. Y trothwy ar gyfer cyfalafu asedau yw £5,000 ar gyfer Chwaraeon Cymru a £5,000 ar gyfer yr Ymddiriedolaeth.

### 1.4 Dibrisiant

Darperir dibrisiant ar sail llinell syth ar yr holl eiddo, peiriannau ac offer, gan ystyried amcangyfrif o'u hoes ddefnyddiol a'r gwerthoedd gweddillol a ragdybir. Mae oes yr ased at y pwrpas hwn fel a ganlyn ar gyfartaledd:

| | |
|---|---|
| Eiddo rhydd-ddaliadaeth | 35 mlynedd |
| Eiddo prydles | 35 i 50 mlynedd |
| Offer – cyfrifiaduron | 3 blynedd |
| Offer – Arall | 3 i 10 mlynedd |
| Cerbydau | 5 mlynedd |

Polisi Chwaraeon Cymru yw dibrisio asedau o'r mis ar ôl eu prynu.

### 1.5 Prydlesau

Ar gyfer unrhyw gontractau newydd yr ymrwymwyd iddynt ar neu ar ôl 1 Ebrill 2022, mae Chwaraeon Cymru yn ystyried a yw contract yn, neu'n cynnwys, prydles. Diffinnir prydles fel 'contract, neu ran o gontract, sy'n cyfleu'r hawl i ddefnyddio ased (yr ased sylfaenol) am gyfnod o amser yn gyfnewid am ystyriaeth'. I gymhwyso'r diffiniad hwn mae Chwaraeon Cymru yn asesu a yw'r contract yn bodloni tri maen prawf allweddol:

- Mae'r contract yn cynnwys ased a nodwyd, sydd naill ai wedi'i nodi'n benodol yn y contract neu wedi'i nodi'n ymhlyg drwy gael ei nodi ar yr adeg pan wneir yr ased ar gael i Chwaraeon Cymru.
- Mae gan Chwaraeon Cymru yr hawl i gael yr holl fuddion economaidd sylweddol o ddefnyddio'r ased a nodwyd drwy gydol y cyfnod defnyddio, gan ystyried ei hawliau o fewn cwmpas penodol y contract.
- Mae gan Chwaraeon Cymru yr hawl i gyfarwyddo'r defnydd o'r ased a nodwyd trwy gydol y cyfnod defnydd.

### Mesur a chydnabod

Ar ddyddiad dechrau'r brydles, mae Chwaraeon Cymru yn cydnabod ased hawl i ddefnydd ac atebolrwydd prydles ar y fantolen. Mae'r ased hawl i ddefnydd yn cael ei fesur ar gost, sy'n cynnwys y mesur cychwynnol o atebolrwydd y brydles, unrhyw gostau uniongyrchol cychwynnol i Chwaraeon Cymru, amcangyfrif o unrhyw gostau i ddatgymalu a thynnu'r ased ar ddiwedd y brydles, ac unrhyw daliadau prydles a wnaed ymlaen llaw cyn dyddiad dechrau'r brydles (net o unrhyw gymhellion a dderbyniwyd).

Mae Chwaraeon Cymru yn dibrisio'r asedau hawl i ddefnydd ar sail llinell syth o ddyddiad dechrau'r brydles hyd at y cynharaf i ben oes ddefnyddiol yr ased hawl i ddefnydd neu ddiwedd cyfnod y brydles, pa un bynnag sydd gynharach. Mae Chwaraeon Cymru hefyd yn asesu'r ased hawl i ddefnydd ar gyfer gwall pan fo dangosyddion o'r fath yn bodoli.

Lle mae'r rhent yn cael ei ystyried yn rhent rhad, mae'r ased hawl i ddefnydd yn cael ei fesur yn ôl ei werth presennol o ran defnydd presennol neu werth teg.

Mae gwerth presennol y defnydd presennol yn cael ei gyfrifo drwy gyfalafu gwerth rhent cyfredol y farchnad y gellid ei gyflawni ar gyfer defnydd presennol yr ased hawl i ddefnydd dros weddill tymor y brydles. Mae Chwaraeon Cymru yn cael prisiad arbenigol trydydd parti ar gyfer yr holl brydlesau rhad.

Ar ddyddiad dechrau'r brydles, mae Chwaraeon Cymru yn mesur atebolrwydd y brydes ar werth presennol y taliadau prydles sydd heb eu talu ar y dyddiad hwnnw, gyda gostyngiad gan ddefnyddio'r gyfradd llog sydd ymhlyg yn y brydles os yw'r gyfradd honno ar gael yn rhwydd neu gyfradd fenthyca gynnyddrannol Trysorlys EM.

Mae'r taliadau prydles sydd wedi'u cynnwys wrth fesur atebolrwydd y brydles yn cynnwys taliadau sefydlog (gan gynnwys mewn sylwedd sefydlog), taliadau amrywiol yn seiliedig ar fynegai neu gyfradd, symiau y disgwylir iddynt fod yn daladwy o dan warant gwerth gweddilliol a thaliadau sy'n codi o opsiynau sy'n rhesymol sicr i cael eu hymarfer.

Yn dilyn y mesur cychwynnol, bydd yr atebolrwydd yn cael ei leihau ar gyfer taliadau a wneir a'u cynyddu ar gyfer llog. Caiff ei ailfesur i adlewyrchu unrhyw ailasesiad neu addasiad, neu os oes newidiadau mewn taliadau sylwedd sefydlog.

Pan fydd atebolrwydd y brydles yn cael ei ailfesur, adlewyrchir yr addasiad cyfatebol yn yr ased hawl i ddefnydd, neu'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, os yw'r ased hawl i ddefnydd wedi'i ostwng i sero eisoes.

Ar y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, mae asedau hawl i ddefnydd wedi cael eu dangos ar wahân ac mae atebolrwydd prydles wedi'i gyflwyno mewn symiau Masnach a symiau taladwy eraill.

### 1.6 Stocrestri

Mae gan Chwaraeon Cymru stocrestr ar gyfer dyrannu fel rhan o'i weithgareddau grant ac adlewyrchwyd y costau cysylltiedig yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Mae ganddo stocrestr ar gyfer ailwerthu, nad ystyrir yn sylfaenol. Nid yw'r stocrestr ar gyfer ailwerthu wedi cael ei chydnabod fel ased yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol: mae costau'r asedau hyn wedi cael eu cydnabod fel Gwariant Arall yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

### 1.7 Pensiynau

Daw'r cyfraniadau at gynlluniau pensiwn Chwaraeon Cymru o'r Cyfrif Gwariant Net er mwyn lledaenu cost pensiynau dros oes waith y cyflogeion gyda Chwaraeon Cymru. Yn unol ag IAS 19, cyfrifir y ffi i'r Cyfrif Gwariant Net ar sail costau gwasanaeth a chyllid pensiwn a gyfrifir gan actwari'r Cynllun. Adlewyrchir cyfran Chwaraeon Cymru o asedau ac atebolrwydd y gronfa bensiwn fel atebolrwydd pensiwn net yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

Rhennir unrhyw atebolrwydd pensiwn neu asedau rhwng Chwaraeon Cymru a Chyfrif Dosbarthu'r Loteri ar sail y gyfradd neilltuo hanesyddol o gostau staff, yn unol â'r amser mae'r staff yn ei dreulio'n rhoi gweithgareddau Dosbarthu'r Loteri ar waith.

### 1.8 Trethiant

Codir Treth Ar Werth anadferadwy ar gyfrifon Chwaraeon Cymru mewn perthynas â gwariant trethadwy ar weithgareddau anfasnachol. Cyfrifir Treth Gorfforaeth y DU ar gyfradd o 19% (19% 2022/23) o'r llog sy'n cronni ar incwm buddsoddi Chwaraeon Cymru, ond nid ar log yr Ymddiriedolaeth.

### 1.9 Grantiau taladwy

Gellir rhoi cymorth ariannol ar ffurf grantiau i hyrwyddo amcanion Chwaraeon Cymru. Cydnabyddir cynigion grant fel gwariant, ac os na chânt eu talu, fel atebolrwydd os oes rhwymedigaeth adeiladol yn bodoli. Er mwyn i rwymedigaeth adeiladol fodoli, rhaid cyfathrebu ymrwymiad y dyfarniad yn uniongyrchol i dderbynnydd y dyfarniad ac mae'n rhaid i'r cyllid cymorth grant priodol i fodloni'r ymrwymiad fod wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru. Os oes rhwymedigaeth adeiladol yn bodoli ond amodau grant yn weddill ar ddiwedd y flwyddyn, mae'r grantiau'n cael eu datgelu fel atebolrwydd wrth gefn.

### 1.10 Cyfuno

Mae cyfrifon Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru, corff elusennol sy'n eiddo i Chwaraeon Cymru yn llwyr, wedi cael eu cyfuno yn y cyfrifon hyn. Mae Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru yn paratoi cyfrifon yn unol â'r Datganiad o Arfer a Argymhellir: Cyfrifon ac Adroddiadau gan y Comisiwn Elusennau 2019. Mae hyn yn cymhwyso Safon Adrodd Ariannol 102 sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon. Er mwyn cydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth 2023/24 ('y FREM'), mae'r polisïau cyfrifo wedi cael eu halinio ar ôl eu cyfuno. Y prif reswm dros yr addasiad yw gweithredu IFRS 16 (Prydlesau) o fewn y FREM. Mae hyn wedi arwain at yr addasiadau canlynol.

| Disgrifiad | Mantolen Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru £'000 | Alinio polisïau cyfrifo £'000 | Sefyllfa wedi'i haddasu cyn cyfuno £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, Peiriannau ac Offer | 19,513 | - | 19,513 |
| Ased prydles hawl i ddefnydd | - | 1,871 | 1,871 |
| **Cyfanswm yr asedau anghyfredol** | **19,513** | **1,871** | **21,384** |
| | | | |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Masnach ac elfennau derbyniadwy eraill | - | - | - |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | 4 | - | 4 |
| | | | |
| **Cyfanswm yr asedau** | **4** | **-** | **4** |
| | | | |
| **Atebolrwydd cyfredol** | | | |
| Masnach ac elfennau taladwy eraill | - | 5 | 5 |
| Croniadau grant | - | - | - |
| Darpariaethau | - | - | - |
| **Cyfanswm yr atebolrwydd cyfredol** | **-** | **5** | **5** |
| **Asedau anghyfredol ac asedau cyfredol net** | **19,517** | **1,866** | **21,383** |
| | | | |
| **Atebolrwydd anghyfredol** | | | |
| Masnach ac elfennau taladwy eraill mewn mwy na blwyddyn | - | 89 | 89 |
| Atebolrwydd Pensiwn | - | - | - |
| **Cyfanswm yr atebolrwydd anghyfredol** | **-** | **89** | **89** |
| **Asedau llai cyfrifoldebau** | **19,517** | **1,777** | **21,294** |
| | | | |
| **Ecwiti trethdalwyr** | | | |
| Cronfa gyffredinol | 16,916 | 3 | 16,919 |
| Cronfa bensiwn wrth gefn | - | - | - |
| Cronfa ailbrisio wrth gefn | 2,601 | 1,774 | 4,375 |
| | **19,517** | **1,777** | **21,294** |

Adroddir ar weithgareddau Dosbarthu'r Loteri Chwaraeon Cymru o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1993, fel y'i diwygiwyd, mewn cyfrif ar wahân nad yw wedi'i gyfuno â'r cyfrifon hyn.

### 1.11 Defnydd o amcangyfrifon a phenderfyniadau

Mae paratoi'r datganiadau ariannol yn golygu bod rhaid i Chwaraeon Cymru wneud amcangyfrifon a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar y defnydd o bolisïau a'r symiau yr adroddir amdanynt. Adolygir amcangyfrifon a phenderfyniadau'n barhaus. Cydnabyddir y diwygiadau i'r amcangyfrifon cyfrifo yn ystod y cyfnod pryd diwygir yr amcangyfrif ac mewn unrhyw gyfnod a effeithir yn y dyfodol.

Ceir gwybodaeth am feysydd amcangyfrif a phenderfyniadau allweddol arwyddocaol wrth ddefnyddio polisïau cyfrifo sy'n cael yr effaith fwyaf arwyddocaol ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol yn y nodiadau canlynol hyn:

**Nodyn 6 –** Mae costau'r staff yn cael eu neilltuo i'r Loteri yn unol â'r amser maent yn ei dreulio'n cyflawni gweithgareddau Dosbarthu'r Loteri. Os yw'r staff yn cael eu datgan fel staff sy'n cael eu cyflogi 100% at bwrpas Dosbarthu'r Loteri, mae eu costau'n cael eu neilltuo'n llawn.

**Nodyn 9(b) –** Mae tir yn cael ei brisio yn unol â gwerth y farchnad ac adeiladau ar sail cost cyfnewid wedi dibrisio. Gwneir y prisiadau hyn gan briswyr allanol, yn unol â llawlyfr gwerthuso a phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfëwyr Siartredig. Gwneir nifer o ragdybiaethau allweddol yn ystod y broses hon.

**Nodyn 10 –** Mae cymhwyso IFRS 16 yn ei gwneud yn ofynnol i Chwaraeon Cymru wneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n effeithio ar y prisiad o atebolrwydd prydles a gwerth asedau hawl i ddefnydd, gan gynnwys pennu a yw'r contract yn dod o fewn cwmpas IFRS 16 ac ystyried y gyfradd llog a ddefnyddir ar gyfer gostyngiad i lifau arian yn y dyfodol.

Mae cyfnod y brydles a bennir gan Chwaraeon Cymru yn cynnwys cyfnod y contractau prydles na ellir ei ganslo. O ystyried natur y prydlesau a sut maent yn gysylltiedig â'r busnes, lle mae cymal terfynu ar gael i Chwaraeon Cymru, daethpwyd i'r casgliad na fyddai hyn yn cael ei ymarfer.

Mae gwerth presennol y taliadau prydles sy'n berthnasol i bortffolio Chwaraeon Cymru wedi cael ei bennu gan ddefnyddio cyfradd fenthyca Trysorlys EM i ostyngiad.

**Nodyn 13 –** Cyfrifir croniadau a rhagdaliadau grant ar sail dyddiadau dechrau a gorffen y prosiect, fel y nodir yn nodyn 1.9.

**Nodyn 18 –** Mae'r mesur o gyfraniadau budd pendant yn dibynnu ar ddewis rhagdybiaethau penodol sy'n cynnwys y gyfradd ostyngiad, y gyfradd chwyddiant, twf cyflog, cyfradd y cynnydd mewn pensiynau gohiriedig a'r adenillion disgwyliedig ar asedau cynlluniau.

### 1.12 Offerynnau Ariannol

Gan fod gofynion ariannol Chwaraeon Cymru yn cael eu bodloni'n bennaf drwy Gymorth Grant a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl fwy cyfyngedig mewn creu a rheoli risg na fyddai'n berthnasol i gorff heb fod yn y sector cyhoeddus.

Mae mwyafrif yr offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau i brynu nwyddau ac eitemau gwasanaeth yn unol â gofynion prynu a defnydd disgwyliedig Chwaraeon Cymru, ac felly nid yw Chwaraeon Cymru yn wynebu llawer o risg o ran credyd, hylifedd na marchnad.

### 1.13 Nam

Adolygir gwerth cludo asedau Chwaraeon Cymru ar bob dyddiad adrodd yn ôl, i weld a oes unrhyw arwydd o nam. Os ceir arwydd o'r fath, amcangyfrifir swm adferadwy'r asedau. Swm adferadwy ased yw swm uchaf ei bris gwerthu net a'i werth mewn defnydd.

### 1.14 Darpariaethau

Gwneir darpariaeth i ddarparu ar gyfer atebolrwydd sy'n debygol o ddigwydd oherwydd digwyddiad neu benderfyniad a wneir yn ystod blwyddyn ariannol, ond bod ansicrwydd ynghylch y swm a / neu'r dyddiad pryd bydd yn codi.

Dangosir newid i'r ddarpariaeth ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Pan fydd yr atebolrwydd gwirioneddol yn digwydd, mae'n cael ei roi yn erbyn y ddarpariaeth a wnaed yn flaenorol.

### 1.15 Gweithredu Safonau Cyfrifo Sydd Wedi'u Cyhoeddi o'r Newydd

Nid oes unrhyw safonau cyfrifo newydd eu cyhoeddi wedi cael eu gweithredu yn ystod 2023/24.

### 1.16 Safonau Cyfrifo Wedi'u Cyhoeddi o'r Newydd Heb Fod yn Weithredol Eto

Llywodraethir y defnydd o unrhyw safonau IFRS newydd neu ddiwygiedig drwy eu mabwysiadu gan y FreM. Mae Chwaraeon Cymru yn gweithredu newidiadau i safonau pan ddônt yn weithredol. Nid oes unrhyw effeithiau sylfaenol hysbys yn sgil newidiadau IFRS sydd wedi'u cyhoeddi ond nad ydynt yn weithredol eto ar y datganiadau ariannol yn ystod y cyfnod o ddefnydd cychwynnol.

IFRS 17 yw'r safon gyfrifo newydd ar gyfer contractau yswiriant. Disodlodd IFRS 4 ar gyfer y cyfnodau cyfrifo yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2023.

Bydd yn cael ei defnyddio gan Drysorlys EM yn y FreM o 1 Ebrill 2025 ymlaen. Gan nad oes gan y cyfrifon hyn unrhyw rwymedigaethau contract yswiriant, nid oes unrhyw effaith ar y cyfrifon.

## 2. Dadansoddiad o'r Gwariant Net Cynhwysfawr

Mae IFRS 8 yn dweud ei bod yn ofynnol datgan segmentau gweithredu ar sail adroddiadau mewnol ar yr elfennau yn Chwaraeon Cymru a adolygir yn rheolaidd gan y Bwrdd er mwyn neilltuo adnoddau i'r segment ac i asesu ei berfformiad.

| Disgrifiad | Nodyn | Ar 31 Mawrth 2024 £'000 | Ar 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Y Canolfannau Cenedlaethol** | | | |
| Refeniw | 3 | (1,834) | (2,430) |
| Gwariant Arall | 7 | 1,366 | 1,558 |
| (Cyfraniad) / Colled Gweithredu Net | | (468) | (872) |
| | | | |
| **Grantiau** | | | |
| Incwm Grantiau Datblygu Chwaraeon | 3 | (3) | (4) |
| Gwariant Grant | 5 | 23,772 | 24,125 |
| Cost Gweithredu Net | | 23,769 | 24,121 |
| | | | |
| **Datblygu Chwaraeon a Chorfforaethol** | | | |
| Incwm Arall | 3 | (72) | (95) |
| Gwariant Arall | 7 | 3,369 | 2,587 |
| Cost Gweithredu Net | | 3,297 | 2,492 |
| | | | |
| Costau Staff | 6 | 4,790 | 6,982 |
| | | | |
| **Gwariant Net Cynhwysfawr cyn y Costau Eraill** | | 31,388 | 32,723 |
| | | | |
| **Costau Eraill** | | | |
| Eiddo, Peiriannau ac Offer a Phensiynau | | 401 | (6,816) |
| Cost Gweithredu Net | | 401 | (6,816) |
| **Cyfanswm y Gwariant Net Cynhwysfawr** | | 31,789 | 25,907 |

**Gwariant Net Cynhwysfawr Cyn Costau Eraill**

| Categori | % |
|---|---|
| Canolfannau Cenedlaethol* | 4% |
| Grantiau* | 76% |
| Gwybodaeth Chwaraeon / Systemau Chwaraeon* | 3% |
| Corfforaethol | 11% |
| Costau Staff | 6% |

*yn cynnwys costau staff perthnasol

**Gwariant Grant £'000**

| Categori | % |
|---|---|
| Pobl Ifanc Actif | 20% |
| Nofio Am Ddim | 6% |
| Cyrff Rheoli | 24% |
| Pwysau Iach Cymru Iach Hamdden Actif 60+ | 4% |
| Grantiau Cyfalaf | 42% |
| Grantiau Eraill | 4% |

## 3. Incwm

| Disgrifiad | 2023 /2024 £'000 | 2022 /2023 £'000 |
|---|---|---|
| **Incwm o weithgareddau:** | | |
| Grantiau Datblygu Chwaraeon: | | |
| Arall | 3 | 4 |
| | 3 | 4 |
| **Canolfannau Chwaraeon Cenedlaethol** | | |
| Arlwyo | 404 | 345 |
| Defnydd o Gyfleusterau Cyrff Rheoli | 510 | 546 |
| Defnydd o Gyfleusterau Cyffredinol | 282 | 263 |
| Llety | 415 | 391 |
| Aelodaeth o Ganolfan Ffitrwydd | 200 | 162 |
| Archebion Cwrs | 23 | 723 |
| | 1,834 | 2,430 |
| | 1,837 | 2,434 |
| **Incwm gweithredu arall:** | | |
| Adfer grantiau | - | 93 |
| Incwm arall* | 72 | 2 |
| | 72 | 95 |
| **Cyfanswm Incwm** | 1,909 | 2,529 |

*Cyllid Cynllun Gweithredu Gwrth Hiliol Cymru ar gyfer 2023/24.

## 4. Grantiau a Dderbyniwyd Gan Y Llywodraeth

| Disgrifiad | 2023 /2024 £'000 | 2022 /2023 £'000 |
|---|---|---|
| Cyllid Cyfalaf | 10,071 | 7,622 |
| Cyllid Refeniw – Iach ac Actif | - | 980 |
| Cyllid Refeniw – Pwysau Iach Cymru Iach Hamdden Actif 60+ | 500 | 500 |
| Refeniw a Chyllid Cyfalaf a Mewnol | 23,832 | 24,377 |
| Cyllid Refeniw – Haf o Hwyl | - | 380 |
| Cyllid Refeniw – Plant a Theuluoedd | 100 | - |
| Cyllid Refeniw – Cynllun Gweithredu Gwrth Hiliaeth Cymru* | 5 | 21 |
| Trosglwyddwyd i'r gronfa gyffredinol | 34,508 | 33,880 |

*Dangosir Cyllid Cynllun Gweithredu Gwrth Hiliol Cymru fel 'Incwm Arall' 2023/24.

## 5. Gwariant Grant

| Disgrifiad | 2023 /2024 £'000 | 2022 /2023 £'000 |
|---|---|---|
| Cyrff Rheoli / Partneriaid Allanol | 12,797 | 14,340 |
| Awdurdodau Lleol | 10,975 | 9,785 |
| | 23,772 | 24,125 |

Mae'r ffigur uchod yn cynnwys £1,048,232 o wariant uniongyrchol ar ran derbynyddion grantiau (£1,647,781 yn 2022/23).

## 6. Costau Staff

| Disgrifiad | 2023 /2024 £'000 | 2022 /2023 £'000 |
|---|---|---|
| **Parhaol:** | | |
| Cyflogau a thâl | 6,373 | 6,190 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 667 | 688 |
| Costau Pensiwn eraill | 1,528 | 2,241 |
| Staff ar secondiad | - | - |
| | 8,568 | 9,119 |
| Staff Asiantaeth a Chyfarwyddo | 42 | 411 |
| | 8,610 | 9,530 |
| Addasiadau IAS19 | (610) | 880 |
| | 8,000 | 10,410 |
| Llai: Neilltuwyd i SPORTLOT | (3,210) | (3,428) |
| | 4,790 | 6,982 |

Nid yw'r costau Pensiwn eraill eleni yn cynnwys cyfraniad cyfandaliad tuag at yr atebolrwydd pensiwn net (2022/23 £575,000). Neilltuir y cyfraniad cyfandaliad 73% Chwaraeon Cymru a 27% Loteri. Mae'r dyraniad yn rhan o'r llinell 'Neilltuwyd i SPORTLOT'.

Mae IAS19 Buddiannau Cyflogeion yn datgan ei bod yn ofynnol i ffigur a gyfrifir yn actwaraidd (cost gwasanaeth cyfredol, gorffennol a setliad) gael ei nodi yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr (SoCNE). Ar gyfer 2023/24, y gost oedd £790,000 (2022/23 £2,970,000) ac mae'n cymryd lle costau pensiwn y cyflogwr yn y SoCNE. Roedd cyfraniad y cyflogwr yn £1,400,000 (2022/23 £2,090,000), felly roedd yr effaith net yn £(610,000), (2022/23 £880,000) i gostau staff.

Gan fod cost cyfredol y gwasanaeth yn nodyn syniadol, mae hwn yn cael ei newid yn ôl yn y Datganiad o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr fel mai dim ond cost cyfraniadau pensiwn y cyflogwr sy'n cael ei thynnu o'r Gronfa Gyffredinol.

Cyfrifir y rhwymedigaeth net mewn perthynas â'r cynlluniau pensiynau budd pendant hyn drwy amcangyfrif faint o fudd mae cyflogeion wedi'i ennill yn y dyfodol am eu gwasanaeth yn y cyfnodau cyfredol a blaenorol. Gostyngir y budd i bennu ei werth presennol, a didynnir gwerthoedd teg asedau'r cynllun. Cydnabyddir enillion a cholledion actwaraidd sy'n codi yn y cyfnod maent yn digwydd drwy Wariant Net Cynhwysfawr Arall.

## 7. Gwariant Arall

| (a) Disgrifiad | 2023 /2024 £'000 | 2022 /2023 £'000 |
|---|---|---|
| Ffioedd Archwilydd – Gwasanaethau Archwilio | 29 | 27 |
| – Cyfrifon yr Ymddiriedolaeth | 4 | 4 |
| **Costau teithio, cynhaliaeth a lletygarwch y canlynol:** | | |
| Aelodau | 6 | 7 |
| Staff y pencadlys | 16 | 22 |
| Canolfannau Chwaraeon Cenedlaethol | 1 | 3 |
| Datblygu Chwaraeon | 89 | 76 |
| **Gwariant Arall:** | | |
| Gwasanaethau Cefnogi Canolog | 574 | 647 |
| Cyfathrebu a Digidol | 1,014 | 703 |
| Dirnadaeth a Pholisi | 205 | 373 |
| Llog Taladwy i Lywodraeth Cymru | 37 | 16 |
| Canolfannau Chwaraeon Cenedlaethol | 1,365 | 1,555 |
| Gwybodaeth Chwaraeon / Systemau Chwaraeon | 1,446 | 728 |
| Symudiad yn y Ddarpariaeth ar gyfer dyledion amheus | (6) | 4 |
| | 4,780 | 4,165 |

Gellir dadansoddi'r gwariant hwn ymhellach fel a ganlyn:

| (b) Disgrifiad | 2023 /2024 £'000 | 2022 /2023 £'000 |
|---|---|---|
| Canolfannau Chwaraeon | 1,366 | 1,558 |
| Gwybodaeth Chwaraeon / Systemau Chwaraeon | 1,535 | 804 |
| Corfforaethol | 1,879 | 1,803 |
| | 4,780 | 4,165 |

## 8. Gwaredu Eiddo, Peiriannau ac Offer

| Disgrifiad | 2023 /2024 £'000 | 2023 /2024 £'000 | 2022 /2023 £'000 | 2022 /2023 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Elw o werthu | | 25 | | 4 |
| Gwerth llyfr crynswth | 163 | | 38 | |
| Dibrisiant cronnol | (141) | | (37) | |
| Gwerth llyfr net | | 22 | | 1 |
| Gwarged ar waredu | | 3 | | 3 |

## 9. Eiddo, Peiriannau ac Offer

### (a) Y Cyngor

| Disgrifiad | Offer £'000 | Cerbydau £'000 | TGCh £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cost ar 1 Ebrill 2023 | 1,084 | 259 | 399 | 1,742 |
| Ychwanegiadau | 68 | 28 | 36 | 132 |
| Gwaredu | (81) | (22) | (56) | (159) |
| Ar 31 Mawrth 2024 | 1,071 | 265 | 379 | 1,715 |
| Dibrisiant ar 1 Ebrill 2023 | (759) | (124) | (245) | (1,128) |
| Ffi ar gyfer y flwyddyn | (80) | (39) | (89) | (208) |
| Gwaredu | 77 | 18 | 46 | 141 |
| Ar 31 Mawrth 2024 | (762) | (145) | (288) | (1,195) |
| Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2024 | 309 | 120 | 91 | 520 |
| Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2023 | 325 | 135 | 154 | 614 |

| Disgrifiad | Offer £'000 | Cerbydau £'000 | TGCh £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cost ar 1 Ebrill 2022 | 1,007 | 172 | 323 | 1,502 |
| Ychwanegiadau | 96 | 93 | 83 | 272 |
| Gwaredu | (19) | (6) | (7) | (32) |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 1,084 | 259 | 399 | 1,742 |
| Dibrisiant ar 1 Ebrill 2022 | (708) | (102) | (180) | (990) |
| Ffi ar gyfer y flwyddyn | (70) | (27) | (72) | (169) |
| Gwaredu | 19 | 5 | 7 | 31 |
| Ar 31 Mawrth 2023 | (759) | (124) | (245) | (1,128) |
| Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2023 | 325 | 135 | 154 | 614 |
| Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2022 | 299 | 70 | 143 | 512 |

| (b) Cyfnerthedig | Tir ac Adeiladau Rhydd-ddaliadaeth Plas Menai £'000 | Adeiladau Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru £'000 | Offer £'000 | Cerby-dau £'000 | TGCh £'000 | Cyfan-swm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cost neu Brisiad ar 1 Ebrill 2023 | 7,138 | 12,573 | 1,521 | 261 | 399 | 21,892 |
| Ychwanegiadau | 314 | 297 | 68 | 28 | 36 | 743 |
| Gwaredu | - | - | (81) | (22) | (56) | (159) |
| Ailbrisio | (429) | (380) | - | - | - | (809) |
| Ar 31 Mawrth 2024 | 7,023 | 12,490 | 1,508 | 267 | 379 | 21,667 |
| Dibrisiant ar 1 Ebrill 2023 | - | - | (1,196) | (126) | (245) | (1,567) |
| Ffi ar gyfer y flwyddyn | (196) | (258) | (80) | (39) | (89) | (662) |
| Gwaredu | - | - | 77 | 18 | 46 | 141 |
| Ailbrisio | 196 | 258 | - | - | - | 454 |
| Ar 31 Mawrth 2024 | - | - | (1,199) | (147) | (288) | (1,634) |
| Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2024 | 7,023 | 12,490 | 309 | 120 | 91 | 20,033 |
| Gwerth Llyfr Net ar 1 Mawrth 2023 | 7,138 | 12,573 | 325 | 135 | 154 | 20,325 |

| (b) Cyfnerthedig | Tir ac Adeiladau Rhydd-ddaliadaeth Plas Menai £'000 | Adeiladau Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru £'000 | Offer £'000 | Cerby-dau £'000 | TGCh £'000 | Cyfan-swm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cost neu Brisiad ar 1 Ebrill 2022 | 6,162 | 11,565 | 1,450 | 174 | 323 | 19,674 |
| Ychwanegiadau | 1,035 | 640 | 96 | 93 | 83 | 1,947 |
| Gwaredu | - | - | (25) | (6) | (7) | (38) |
| Ailbrisio | (59) | 368 | - | - | - | 309 |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 7,138 | 12,573 | 1,521 | 261 | 399 | 21,892 |
| Dibrisiant ar 1 Ebrill 2022 | - | - | (1,151) | (104) | (180) | (1,435) |
| Ffi ar gyfer y flwyddyn | (199) | (261) | (70) | (27) | (72) | (629) |
| Gwaredu | - | - | 25 | 5 | 7 | 37 |
| Ailbrisio | 199 | 261 | - | - | - | 460 |
| Ar 31 Mawrth 2023 | - | - | (1,196) | (126) | (245) | (1,567) |
| Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2023 | 7,138 | 12,573 | 325 | 135 | 154 | 20,325 |
| Gwerth Llyfr Net ar 1 Mawrth 2022 | 6,162 | 11,565 | 299 | 70 | 143 | 18,239 |

Wedi'i gynnwys yn nhir ac adeiladau Rhydd-ddaliadaeth Plas Menai mae tir a brisiwyd yn £175,000 (2022/23 £175,000). Cafodd y tir a'r adeiladau sy'n cael eu dal gan Ymddiriedolaeth CChC eu prisio'n annibynnol ar 31 Mawrth 2024 yn £19,513,000 gan Feistri Cooke ac Arkwright, Syrfëwyr Siartredig, yn unol â llawlyfr gwerthuso a phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfëwyr Siartredig. Mae'r prisiad hwn yn eithrio'r tir yng Nghanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru, sydd ar brydles.

## 10. Ased Hawl I Ddefnydd

| Disgrifiad | Tir £'000 | Adeiladau £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|
| Cost neu brisiad ar 31 Mawrth 2023 | **1,839** | **64** | **1,903** |
| Ychwanegiadau | - | - | - |
| Gwaredu | - | - | - |
| Ailbrisio | (22) | - | (22) |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **1,817** | **64** | **1,881** |
| | | | |
| Dibrisiant ar 1 Ebrill 2023 | (1) | (4) | (5) |
| Ffi ar gyfer y flwyddyn | (1) | (4) | (5) |
| Gwaredu | - | - | - |
| Ailbrisio | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **(2)** | **(8)** | **(10)** |
| | | | |
| Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2023 | 1,838 | 60 | 1,898 |
| Gwerth Llyfr Net ar 1 Mawrth 2024 | 1,815 | 56 | 1,871 |

| Dadansoddiad Aeddfedrwydd | 2024 £000 |
|---|---|
| Llifau arian cytundebol heb ostyngiad yn ymwneud ag atebolrwydd prydles | |
| O fewn blwyddyn | 6 |
| Rhwng blwyddyn a phum mlynedd | 25 |
| Ar ôl pum mlynedd | 71 |
| | 102 |
| Llai ffioedd yn y dyfodol a neilltuir i gyfnodau yn y dyfodol | (8) |
| **Taliadau prydles isafswm** | **94** |
| Cynhwysir yn: | |
| Elfennau taladwy masnach cyfredol | 5 |
| Elfennau taladwy masnach anghyfredol | 89 |
| **Cyfanswm** | **94** |

| **Gwerth presennol y taliadau prydles isafswm** | **2024**<br>£000 |
|---|---|
| O fewn blwyddyn | 5 |
| Rhwng blwyddyn a phum mlynedd | 16 |
| Ar ôl pum mlynedd | 73 |
| | **94** |

| **Swm a gydnabyddir yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr** | **2024**<br>£000 |
|---|---|
| Dibrisiant | 5 |
| Nam | - |
| Llog ar atebolrwydd prydles | 1 |
| Treuliau cysylltiedig â phrydlesau tymor byr | - |

| **Swm a gydnabyddir yn y Datganiad o Lif Arian (net ar TAW anadferadwy)** | **2024**<br>£000 |
|---|---|
| Cost llog | 1 |
| Ad-daliadau prif brydlesau | 5 |
| **Cyfanswm llifau arian** | **6** |

## 11. Masnach Ac Elfennau Derbyniadwy Eraill (Dyledus O Fewn Blwyddyn)

| **Disgrifiad** | **Ar 31 Mawrth 2024**<br>£'000 | **Ar 31 Mawrth 2023**<br>£'000 |
|---|---|---|
| Masnach Dderbyniadwy | 148 | 107 |
| SPORTLOT | 3,418 | 2,321 |
| TAW | 59 | 182 |
| Rhagdaliadau ac incwm a gronnwyd | 230 | 201 |
| Rhagdaliad grant | 1,851 | 199 |
| Grant ad-daladwy | 27 | 12 |
| Darpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus | - | (6) |
| | 5,733 | 3,016 |
| | | |
| **Balans rhyng-lywodraeth** | | |
| Balans gyda chyrff eraill y llywodraeth ganolog | 3,478 | 2,503 |
| Balans gydag awdurdodau lleol | 350 | 211 |
| | 3,828 | 2,714 |
| Balans gyda chyrff allanol i'r llywodraeth | 1,905 | 302 |
| | 5,733 | 3,016 |

## 12. Masnach Daladwy AC Atebolrwydd Arall

| Disgrifiad | Ar 31 Mawrth 2024 £'000 | Ar 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|
| Masnach Daladwy | 341 | 112 |
| Croniadau | 693 | 398 |
| Atebolrwydd Prydles Hawl i Ddefnydd | 94 | 99 |
| Incwm gohiriedig | 80 | 80 |
| | 1,208 | 689 |
| | | |
| **Cyfredol:** | | |
| Masnach Gyfredol ac Elfennau Taladwy Eraill | 1,114 | 564 |
| Atebolrwydd Prydles Hawl i Ddefnydd | 5 | 5 |
| Anghyfredol: | | |
| Masnach ac Elfennau Taladwy Eraill | - | 26 |
| Atebolrwydd Prydles Hawl i Ddefnydd | 89 | 94 |
| | 1,208 | 689 |
| | | |
| **Balans rhyng-lywodraeth** | | |
| Balans gyda chyrff eraill y llywodraeth ganolog | 49 | 35 |
| Balans gydag awdurdodau lleol | 96 | 102 |
| | 145 | 137 |
| Balans gyda chyrff allanol i'r llywodraeth | 1,063 | 552 |
| | 1,208 | 689 |

## 13. Croniadau Grant

| Disgrifiad | Ar 31 Mawrth 2024 £'000 | Ar 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|
| Grantiau Wedi Cronni | 4 | 27 |

## 14. Llif Arian Crynswth

| Disgrifiad | Ar 31 Mawrth 2024 £'000 | Ar 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|
| **Llif Arian o Weithgareddau Buddsoddi** | | |
| Llog a dderbyniwyd | 45 | 20 |
| | | |
| **Gwariant Cyfalaf a Buddsoddiad Ariannol** | | |
| Taliadau i brynu eiddo, peiriannau ac offer | (743) | (1,947) |
| Derbyniadau o werthu eiddo, peiriannau ac offer | 25 | 4 |
| | (718) | (1,943) |
| **Llif Arian o Weithgareddau Cyllido** | | |
| Cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru (nodyn 4) | 34,508 | 33,880 |

## 15. Arian Parod a Chyfwerth ag Arian Parod

| Disgrifiad | Ar 31 Mawrth 2024 £'000 | Ar 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill | 544 | 559 |
| Newid net y balansau mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod | (298) | (15) |
| Ar 31 Mawrth | 246 | 544 |
| | | |
| Roedd y balansau canlynol ar 31 Mawrth yn cael eu cadw mewn: | | |
| Banciau masnachol ac arian mewn llaw | 246 | 544 |
| Ar 31 Mawrth | 246 | 544 |

## 16. Ymrwymiadau Cyfalaf

| Disgrifiad | Ar 31 Mawrth 2024 £'000 | Ar 31 Mawrth 2023 Ailddatganwyd* £'000 |
|---|---|---|
| Contractiwyd ond heb dalu | 413 | 99 |

*Ailddatganwyd y flwyddyn flaenorol i gynnwys ymrwymiadau cyfalaf PO agored.

## 17. Atebolrwydd Wrth Gefn

| Disgrifiad | Ar 31 Mawrth 2024 £'000 | Ar 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|
| Atebolrwydd Grant Wrth Gefn | 1,590 | 33 |

Mae Chwaraeon Cymru wedi derbyn hysbysiad bod gweithrediadau cyfreithiol wedi cael eu cyflwyno yn dilyn damwain a ddigwyddodd ar safle Chwaraeon Cymru. Mae ansicrwydd sylweddol yn ymwneud â'r mater hwn ac mae asesiad o gwantwm unrhyw rwymedigaeth bosibl eto i'w benderfynu.

**Achos Cyfreithiol Adran 37**

Ym mis Mehefin 2023 canfu'r Uchel Lys yn achos Virgin Media fod newidiadau i fuddion aelodau mewn cynlluniau pensiwn budd pendant wedi'u contractio allan rhwng 1996 a 2016 yn gofyn am dystysgrif actiwaraidd yn unol ag adran 37 Deddf Cynlluniau Pensiwn 1993 a bod newidiadau heb yr ardystiad hwn i gael eu hystyried yn ddi-rym. Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol i hawliau gwasanaeth yn y gorffennol a hawliau gwasanaeth yn y dyfodol, ac i newidiadau er anfantais neu fudd i aelodau'r cynllun. Apeliwyd yn erbyn y dyfarniad ym mis Mehefin 2024 ond gwrthodwyd yr apêl.

Lle mae newidiadau i fuddion aelodau a allai ddod o fewn cwmpas y dyfarniad, rydym yn gofyn am y tystysgrifau actiwaraidd. Mae potensial hefyd am her / eglurhad cyfreithiol pellach ac ateb deddfwriaethol.

Ar hyn o bryd felly, mae'r effaith bosibl, os o gwbl, ar rwymedigaeth IAS19 yn parhau i fod yn ansicr ac ar gyfer 2023-24, nid oes unrhyw rwymedigaeth ychwanegol wedi'i chydnabod.

## 18. Buddiannau I Gyflogeion

Mae'r datgeliadau pensiwn canlynol wedi cael eu paratoi yn unol ag IAS19 'Buddiannau cyflogeion'.

Mae cyflogeion Chwaraeon Cymru yn aelodau o Gronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg, sy'n rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r gronfa'n darparu buddiannau pendant sy'n seiliedig ar Enillion Gyrfa Cyfartalog Wedi'u Hailbrisio (CARE).

Mae'r data pensiwn yn y datgeliad hwn wedi cael eu darparu gan actwari annibynnol y Cynllun, AON Hewitt. Mae'r prisiad IAS19 a ddarparwyd gan yr actwari ar gyfer Chwaraeon Cymru yn ei gyfanrwydd; ni chafwyd prisiadau ar wahân ar gyfer datganiadau ariannol Cyfnerthedig Cyngor Chwaraeon Cymru a datganiadau ariannol Dosbarthu'r Loteri ac felly mae'r data isod yn cael eu datgelu fel data crynswth.

Mae ased/diffyg y gronfa bensiwn a hefyd y cofnodion cysylltiedig sy'n effeithio ar y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a'r Datganiad o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr wedi cael eu dyrannu rhwng datganiadau ariannol Cyfnerthedig Cyngor Chwaraeon Cymru a datganiadau ariannol Dosbarthu'r Loteri ar gymhareb sy'n seiliedig ar ddyrannu hanesyddol ar gostau staff i gyfrif Dosbarthu'r Loteri.

Ar gyfer 2023/24 mae hwn yn 73% i Gyngor Chwaraeon Cymru (2022/23 74%), a 27% i Gyfrifon Dosbarthu'r Loteri (2022/23 26%). Mae Chwaraeon Cymru wedi gwneud cyfanswm o £1,400,000 o gyfraniad pensiwn yn 2023/24 (2022/23 £2,090,000). Fe'i dadansoddir fel a ganlyn:

- Cyfraniadau Pensiwn y Cyflogwr o £1,385,000 sy'n cynrychioli 33.4% o gyflog pensiynadwy (2022/23 £1,313,000 32.8%).
- Roedd £15,000 o gyfraniadau mewn perthynas â chost ymddeol yn gynnar yn ystod 2023/24 (2022/23 Dim).
- Cyfraniad Diffyg Cyfandaliad o sero (27% wedi'i dalu gan y Loteri), (2022/23 £777,000 gyda 26% wedi'i dalu gan weithgareddau Dosbarthu'r Loteri).

Cyfradd cyfraniadau pensiwn y cyflogwr o 2023/24 ymlaen fydd 33.4%. Pennwyd y ganran hon o ganlyniad i'r prisiad bob tair blynedd diwethaf o'r cynllun, a gynhaliwyd ar 31 Mawrth 2022. Mae adroddiad yr actwari wedi cael ei baratoi yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd GN9 a gyhoeddwyd gan Sefydliad a Chyfadran yr Actwarïau, sy'n gyfredol ar y dyddiad prisio, i'r graddau ei fod yn berthnasol i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae Chwaraeon Cymru yn disgwyl cyfrannu £2,240,000 at y gronfa yn 2024/25. Yn ychwanegol at hyn, efallai y bydd angen cyfraniadau "straen ar gronfa" hefyd.

Y gost pensiwn lawn i Gyngor Chwaraeon Cymru yw £50,000 (2022/23 £250,000) gyda £37,000 (2022/23 £185,000) yn cael ei ddyrannu i'r cyfrifon cyfnerthedig a'r gweddill o £13,000 (2022/23 £65,000) wedi'i ddyrannu i weithgareddau Dosbarthu'r Loteri.

Yr enillion actwaraidd llawn ar bensiwn i Gyngor Chwaraeon Cymru yw £910,000 (2022/23 ennill £9,280,000) gyda £664,000 (2022/23 ennill £6,867,000) wedi'i ddyrannu i'r cyfrifon cyfnerthedig, gyda'r gweddill o £246,000 (2022/23 ennill £2,413,000) wedi'i ddyrannu i weithgareddau Dosbarthu'r Loteri.

Gan gymhwyso darpariaethau IFRIC14, ni all yr ased pensiwn i Gyngor Chwaraeon Cymru gael ei gydnabod, felly mae'n Ddim (2022/23 atebolrwydd o £1,470,000), gyda Dim (2022/23 atebolrwydd o £1,523,000) wedi'i ddyrannu i'r cyfrifon cyfnerthedig, gyda'r balans o Ddim (2022/23 £53,000 o ased pensiwn) wedi'i ddyrannu i weithgareddau Dosbarthu'r Loteri. Mae ased pensiwn gweithgareddau Dosbarthu'r Loteri wedi'i addasu £450,000 i ganiatáu ar gyfer effaith net newidiadau hanesyddol wrth ddyrannu costau staff i gyfrif Dosbarthu'r Loteri gyda'r £450,000 o iawn wedi'i ddyrannu i'r diffyg pensiwn yng nghyfrifon cyfnerthedig Cyngor Chwaraeon Cymru.

### Prif Ragdybiaethau Ariannol

| Disgrifiad | 31 Mawrth 2024 £m | 31 Mawrth 2023 % | 31 Mawrth 2022 % |
|---|---|---|---|
| Cyfradd Gostyngiad | 4.8 | 4.7 | 2.7 |
| Chwyddiant – CPI | 2.6 | 2.7 | 3.0 |
| Cyfradd y cynnydd i bensiynau mewn taliadau | 2.6 | 2.7 | 3.0 |
| Cyfradd y cynnydd i bensiynau gohiriedig | 2.6 | 2.7 | 3.0 |
| Cyfradd y cynnydd cyffredinol mewn cyflogau | 3.6 | 3.7 | 4.0 |

| Rhagdybiaethau Marwoldeb: | Blynyddoedd | Blynyddoedd | Blynyddoedd |
|---|---|---|---|
| **Oes yn y dyfodol o 65 oed (yn 65 oed ar y dyddiad cyfrifo)** | | | |
| Dynion | 22.1 | 22.6 | 22.1 |
| Merched | 24.3 | 24.7 | 24.6 |
| **Oes yn y dyfodol o 65 oed (yn 45 oed ar y dyddiad cyfrifo)** | | | |
| Dynion | 22.7 | 23.2 | 23.2 |
| Merched | 25.3 | 25.8 | 26.0 |

Mae Chwaraeon Cymru yn defnyddio dull bloc adeiladu o weithio wrth benderfynu ar gyfradd yr adenillion ar asedau Cronfa. Astudir y marchnadoedd hanesyddol a chymerir yn ganiataol bod yr asedau mwyaf anwadal yn creu adenillion uwch, yn gyson ag egwyddorion marchnad cyfalaf a dderbynnir yn gyffredinol. Mae'r gyfradd gyffredinol ddisgwyliedig o adenillion ar asedau'n deillio o gydgrynhoi'r gyfradd ddisgwyliedig o adenillion ar gyfer pob dosbarth o asedau dros ddyranaid gwirioneddol ar gyfer y Gronfa ar 31 Mawrth 2024.

### Dadansoddiad o symudiadau gwarged (diffyg) yn ystod y flwyddyn

| Disgrifiad | 31 Mawrth 2024 £m | 31 Mawrth 2023 £m |
|---|---|---|
| Gwerth teg asedau'r gronfa | 64.31 | 57.54 |
| Gwerth presennol yr atebolrwydd | (45.77) | (46.14) |
| Ased heb ei gydnabod oherwydd cyfyngiadau ar warged | (18.54) | (11.40) |
| Atebolrwydd ychwanegol o dan y gofynion cyllido isafswm oherwydd ymrwymiad i dalu cyfraniadau diffyg | 0.00 | (1.47) |
| Ased / (Diffyg) yn y cynllun ar ddiwedd y flwyddyn | 0.00 | (1.47) |

### Dadansoddiad o'r swm a godwyd mewn perthynas â Chostau Gweithredu

| Disgrifiad | 31 Mawrth 2024 £m | 31 Mawrth 2023 £m |
|---|---|---|
| Cost gyfredol y gwasanaeth | 0.77 | 1.80 |
| Cost y gwasanaeth yn y gorffennol | 0.02 | 0.00 |
| Cost setliad | 0.00 | 1.17 |
| Cost llog | 0.05 | 0.25 |
| Treuliau wedi'u cydnabod | 0.84 | 3.22 |

### Ailfesur symiau cydnabyddedig mewn Gwariant Cynhwysfawr Arall

| Disgrifiad | 31 Mawrth 2024 £m | 31 Mawrth 2023 £m |
|---|---|---|
| Adenillion ar asedau cynllun (mwy) / llai na'r hyn a gydnabyddir yn y llog net | (4.09) | 3.05 |
| (Enillion) actwaraidd oherwydd y newid mewn rhagdybiaethau ariannol | (1.69) | (28.80) |
| (Enillion) actwaraidd oherwydd y newid mewn rhagdybiaethau demograffig | (0.69) | (0.23) |
| Colledion actwaraidd oherwydd profiad atebolrwydd | 0.50 | 3.83 |
| Colledion (enillion) addasiad oherwydd y cyfyngu ar warged | 6.60 | 12.87 |
| Colledion (enillion) addasiad oherwydd gofyniad cyllido isafswm | (1.54) | 0.00 |
| Cyfanswm y swm cydnabyddedig mewn Gwariant Cynhwysfawr Arall | (0.91) | (9.28) |
| | | |
| Cyfanswm y swm cydnabyddedig yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr | (0.07) | (6.06) |

### Newidiadau i werth presennol y rhwymedigaeth budd pendant yn ystod y cyfnod cyfrifo

| Disgrifiad | 31 Mawrth 2024 £m | 31 Mawrth 2023 £m |
|---|---|---|
| Rhwymedigaeth budd pendant agoriadol | 46.14 | 71.32 |
| Cost gyfredol y gwasanaeth | 0.77 | 1.80 |
| Cost llog ar rwymedigaeth pensiwn pendant | 2.14 | 1.89 |
| Cyfraniadau gan gyfranogwyr | 0.29 | 0.28 |
| (Enillion) actwaraidd ar atebolrwydd - rhagdybiaethau ariannol | (1.69) | (28.80) |
| (Enillion) actwaraidd ar atebolrwydd - rhagdybiaethau demograffig | (0.69) | (0.23) |
| Colledion actwaraidd ar atebolrwydd – profiad | 0.50 | 3.83 |
| Buddiannau net a dalwyd | (1.71) | (1.90) |
| Cost y gwasanaeth yn y gorffennol (gan gynnwys cwtogiad) | 0.02 | 0.00 |
| Setliadau | 0.00 | (2.05) |
| Rhwymedigaeth budd pendant wrth gloi | 45.77 | 46.14 |

### Newidiadau i werth teg yr asedau yn ystod y flwyddyn

| Disgrifiad | 31 Mawrth 2024 £m | 31 Mawrth 2023 £m |
|---|---|---|
| Gwerth teg agoriadol yr asedau | 57.54 | 61.70 |
| Incwm llog ar asedau | 2.70 | 1.64 |
| Ailfesur (colledion) / enillion ar asedau | 4.09 | (3.05) |
| Cyfraniadau gan y cyflogwr | 1.40 | 2.09 |
| Cyfraniadau gan y cyfranogwyr | 0.29 | 0.28 |
| Buddiannau net a dalwyd | (1.71) | (1.90) |
| Setliadau | 0.00 | (3.22) |
| Gwerth teg yr asedau wrth gloi | 64.31 | 57.54 |

### Adenillion gwirioneddol ar asedau

| Disgrifiad | 31 Mawrth 2024 £m | 31 Mawrth 2023 £m |
|---|---|---|
| Adenillion disgwyliedig ar asedau | 2.70 | 1.64 |
| Enillion / (colledion) actwaraidd ar asedau | 4.09 | (3.05) |
| Adenillion gwirioneddol ar asedau | 6.79 | (1.41) |

### Hanes gwerthoedd yr asedau, gwerth presennol y rhwymedigaeth budd pendant a diffygit

| Disgrifiad | 31 Mawrth 2024 £m | 31 Mawrth 2023 £m | 31 Mawrth 2022 £m | 31 Mawrth 2021 £m | 31 Mawrth 2020 £m | 31 Mawrth 2019 £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwerth teg yr asedau | 64.31 | 57.54 | 61.70 | 54.14 | 44.37 | 47.09 |
| Gwerth presennol y rhwymedigaeth budd pendant | (45.77) | (46.14) | (71.32) | (74.63) | (58.40) | (59.97) |
| Ased heb ei gydnabod oherwydd cyfyngiadau ar warged | (18.54) | (11.40) | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| Atebolrwydd ychwanegol o dan y gofynion cyllido isafswm oherwydd ymrwymiad i dalu cyfraniadau diffyg | 0.00 | (1.47) | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| Gwarged / (Diffyg) | 0.00 | (1.47) | (9.62) | (20.49) | (14.03) | (12.88) |

### Dadansoddiad Sensitifrwydd

| Rhwymedigaeth Budd Pendant a Gyllidwyd £45.77m | +0.1% y flwyddyn | | -0.1% y flwyddyn | |
|---|---|---|---|---|
| **Newid mewn Rhagdybiaethau ar Werth Presennol y rhwymedigaeth budd pendant a gyllidwyd** | **£m** | **% Cynnydd / Gostyngiad i Atebolrwydd Cyflogeion** | | **£m** |
| Addasiad i'r gyfradd Ostyngiad | 44.95 | -1.8% | 1.8% | 46.59 |
| Addasiad i'r gyfradd Cynnydd Cyflog | 45.82 | 0.1% | -0.1% | 45.72 |
| Addasiad i'r gyfradd Cynnydd Pensiwn | 46.55 | 1.7% | -1.7% | 44.99 |
| | **- 1 blwyddyn** | | **+1 blwyddyn** | |
| Addasiad i'r gyfradd Marwolaethau | 46.96 | 2.6% | -2.7% | 44.53 |

## 19. Darpariaethau

| Disgrifiad | Darpariaeth ar gyfer hawliad £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2023 | 20 | 20 |
| Darpariaeth a wnaed yn ystod y flwyddyn | - | - |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (20) | (20) |
| Ar 31 Mawrth 2024 | - | - |
| | | |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | - | - |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | - | - |
| Hwyrach na phum mlynedd | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2024 | - | - |

## 20. Trafodion Parti Cysylltiedig

### Cyrff Cyhoeddus

Mae Chwaraeon Cymru yn Gorff Cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth Cymru. Ystyrir Llywodraeth Cymru fel parti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd Chwaraeon Cymru gyllid gan Lywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol. Mae swyddogaeth dosbarthu'r Loteri Chwaraeon Cymru yn cael ei hystyried fel parti cysylltiedig hefyd.

## Unigolion

Yn ystod y flwyddyn, bu trafodion ariannol sylfaenol rhwng Chwaraeon Cymru a'r sefydliadau y mae'r aelodau bwrdd a'r uwch reolwyr canlynol wedi datgan budd ynddynt. Mae'r golofn taliadau'n cynnwys yr holl daliadau a wnaed yn ystod y flwyddyn ar gyfer ymrwymiadau cyfredol, ymrwymiadau a dalwyd ymlaen llaw a gwariant heb fod yn grantiau.

Mae'r golofn derfynol ar gyfer taliadau grant a ymrwymwyd ond sydd heb eu gwneud eto (nid yw'n cynnwys unrhyw symiau heb fod yn grantiau).

Rhaid i unrhyw ddatgan buddiannau ar gyfer eitemau a drafodir mewn cyfarfodydd gael eu datgan gan yr unigolyn, a fydd yn gadael y cyfarfod ar gyfer y rhan honno.

| Aelod o'r Panel | Corff | Taliad Grant yn ystod y Flwyddyn £000 | Natur y cyswllt | Ymrwymiadau heb eu bodloni eto £000 |
|---|---|---|---|---|
| Y Farwnes Tanni Grey-Thompson DBE, DL Cadeirydd | Youth Sport Trust | 86 | Noddwr | - |
| | Fields In Trust | 15 | Llysgennad | - |
| | Prifysgol Abertawe | 195 | Cymrawd | - |
| I Bancroft Is Gadeirydd / Aelod o'r Cyngor | CBS Wrecsam | 257 | Prif Swyddog Gweithredol | - |
| P Britton Is Gadeirydd | Llywodraeth Cymru | 117 | Llysgennad Pwysau Iach Cymru Iach | 41 |
| A Thorne Aelod o'r Cyngor | Llywodraeth Cymru | 117 | Aelod Panel Annibynnol dros Benodiadau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru | 41 |
| | Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 33 | Aelod Bwrdd | - |
| | Chwarae Teg | 5 | Cadeirydd | - |

| Aelod o'r Panel | Corff | Taliad Grant yn ystod y Flwyddyn £000 | Natur y cyswllt | Ymrwymiadau heb eu bodloni eto £000 |
|---|---|---|---|---|
| J Rhys MBE<br>Aelod o'r Cyngor | Llywodraeth Cymru | 117 | Uwch Aelod Annibynnol o'r Panel dros Benodiadau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru | 41 |
| P Tilley<br>Aelod o'r Cyngor | Triathlon Cymru | 62 | Aelod | - |
| | Cymdeithas Ganŵio Cymru | 176 | Aelod | - |
| | Undeb Beicio Cymru | 1,895 | Aelod | - |
| | Clwb Rhwyfo Trefynwy | 3 | Gwraig yn Aelod | - |
| M Veale YH<br>Aelod o'r Cyngor | Cyngor Sir Benfro | 503 | Aelod Lleyg o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | - |
| | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 155 | Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac Aelod o'r Pwyllgor Safonau | - |
| | Llywodraeth Cymru | 117 | Aelod o'r Pwyllgor Archwilio, Cyfarwyddiaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 41 |
| | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | 304 | Aelod Lleyg o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | - |

| Aelod o'r Panel | Corff | Taliad Grant yn ystod y Flwyddyn £000 | Natur y cyswllt | Ymrwymiadau heb eu bodloni eto £000 |
|---|---|---|---|---|
| | Cyngor Sir Fynwy | 254 | Aelod Lleyg o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | - |
| | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 770 | Aelod Lleyg o'r Pwyllgor Addysg a Chynhwysiant | - |
| R Begum<br>Aelod o'r Cyngor | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | 7 | Cyflogai | - |
| | Llywodraeth Cymru | 117 | Aelod atebolrwydd allanol Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth Cymru | 41 |
| D T Davies<br>Aelod o'r Cyngor | Llywodraeth Cymru | 117 | Cadeirydd y Bwrdd Teithio Llesol | 41 |
| D Evans<br>Aelod o'r Cyngor | Yr Urdd | 273 | Ymddiriedolwr | - |
| N Mead-Batten<br>Aelod o'r Cyngor | Cymdeithas Bêl-droed Cymru | 2,456 | CBDC - Cadeirydd y Corff Cam Cyntaf ar gyfer penderfynu ar Drwyddedau Haen 1 / UEFA ar gyfer gêm y Merched | - |
| N Zolle<br>Aelod o'r Cyngor | Archwilio Cymru | 31 | Partner yn Rheolwr | 31 |
| C Jenkins OBE<br>Aelod o'r Cyngor | Cyngor Gemau'r Gymanwlad Cymru | 47 | Prif Swyddog Gweithredol ac Ymddiriedolwr | - |

| Aelod o'r Panel | Corff | Taliad Grant yn ystod y Flwyddyn £000 | Natur y cyswllt | Ymrwymiadau heb eu bodloni eto £000 |
|---|---|---|---|---|
| B Davies OBE Prif Swyddog Gweithredol | Gymnasteg Cymru | 582 | Priod yn Hyfforddwr | 189 |
| | Undeb Hoci Cymru | 356 | Merch yn aelod o dîm Hoci D18 Cymru | - |
| C Nowell Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Cyfleusterau Chwaraeon Cenedlaethol, Seilwaith a Chyfalaf | Clwb Tennis Lawnt Stow Park | 25 | Mab yn Aelod / Gwraig yn Aelod o'r Pwyllgor | - |
| J Nicholas Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Darpariaeth y System Chwaraeon a Pherthnasoedd | Cyngor Gemau'r Gymanwlad Cymru | 47 | Cynrychiolydd Chwaraeon Cymru ar Fwrdd CGGC | - |

### Tâl yr Uwch Reolwyr ac Aelodau'r Bwrdd

Ystyrir yr Uwch Reolwyr ac Aelodau'r Bwrdd fel Cyfarwyddwyr a datgelir eu tâl yn yr Adroddiadau Tâl a Staff ar dudalennau 121 i 131.

## 21. Digwyddiadau Ar Ôl Y Cyfnod Adrodd Yn Ôl

Awdurdodwyd y cyfrifon ar gyfer eu cyhoeddi gan y Swyddog Cyfrifo ar y dyddiad y cawsant eu hardystio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

YN DYFARNU ARIAN ODDI WRTH
AWARDING FUNDS FROM
**THE NATIONAL LOTTERY®**